# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 6 CHWEFROR 2025<br>am 10:00 o'r gloch yb** | | **THURSDAY, 6 FEBRUARY 2025<br>at 10:00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke<br>01248 752518** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies
Mr Brace Griffiths
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD** (Tudalennau 1 - 6)

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

**3** **COFNODION CYFARFODYDD** (Tudalennau 7 - 18)

Cadarnhau cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-.

- 18 Mehefin 2024
- 16 Medi 2024 (Arbennig)

**4** **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 19 - 22)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 23 - 34)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.

**6** **CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)** (Tudalennau 35 - 42)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn gysylltiedig â: -
(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref/Cymuned
ar gyfer Chwarter 1, 2 a 3 2024/2025

**7** **PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 43 - 58)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**8** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 59 - 66)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau PDC yng Nghymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**9** **CEISIADAU AM GANIATAD ARBENNIG**

Mae'n arferol i adroddiad gael ei baratoi i'r Pwyllgor Safonau gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfnod rhwng y Pwyllgor Safonau ar 18 Mehefin 2024 a diwrnod cyhoeddi'r rhaglen hon, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. Ar y sail hon, nid oes adroddiad ynghlwm.

**10** **DIWEDDARIAD AR FFORWM CENEDLAETHOL AR GYFER PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 67 - 68)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Safonau yng Nghymru.

**11** **ADOLYGIAD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG O'R CYNGOR SIR** (Tudalennau 69 - 84)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro gyda manylion y canfyddiadau a wnaed yn ystod yr adolygiadau o gofrestrau diddordebau ar gyfer sampl o aelodau etholedig.

**12** **ADRODDAD ADOLYGIAD ANNIBYNNOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)** (Tudalennau 85 - 88)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr adroddiad a gyflwynwyd yn dilyn adolygiad annibynnol o Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**13** **YMGYNGHORIAD OGCC AR ARGYMHELLIAD RHIF 2 YN YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL** (Tudalennau 89 - 100)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y papur ymgynghori a gyflwynwyd yn gysylltiedig ag argymhelliad yn yr adroddiad yn dilyn yr adolygiad annibynnol o Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**14** **PROTOCOLAU DATRYSIAD LLEOL A FABWYSIADWYD GAN AWDURDODAU YNG NGHYMRU** (Tudalennau 101 - 110)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro gyda manylion y gwaith a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gysylltiedig â'r gwahanol Brotocolau Datrysiad Lleol a fabwysiadwyd gan awdurdodau yng Nghymru.

**15** **PROSES GWRANDAWIADAU PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 111 - 132)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro sy'n cynnwys fersiwn diwygiedig o Weithdrefn Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau.

**16** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 133 - 134)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai

olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus atodedig."

**17** **MATERION YMDDYGIAD** (Tudalennau 135 - 158)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro sy'n rhannu gwybodaeth am yr Hysbysiadau Penderfyniadau a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Ethol Is-gadeirydd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor o'r Weithdrefn ar gyfer Ethol Is-Gadeirydd** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Etholwyd Rhys Davies yn Gadeirydd a Trefor Owen yn Is-gadeirydd am gyfnod o bedair blynedd, ar 15 Chwefror 2024.

1.2 Yn dilyn ymddiswyddiad Rhys Davies fel Cadeirydd, etholwyd Trefor Owen yn Gadeirydd ar 16 Medi 2024.

1.3 Rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd i lenwi'r swydd wâg achlysurol hon.

**2. Cefndir Deddfwriaethol**

2.1 Yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd, bydd aelodau Pwyllgor Safonau yn ethol Is-Gadeirydd o blith Aelodau Annibynnol y Pwyllgor (Rheoliad 22 (1)).

2.2 Lle mae swydd wag achlysurol yn swydd yr Is Gadeirydd yn cael ei llenwi bydd, yr unigolyn yn dal y swydd am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol: -

(a) tan 14 Chwefror 2028 h.y. y dyddiad y byddai tymor swydd yr Is-gadeirydd blaenorol wedi dod i ben, neu

(b) Hyd nes y daw cyfnod swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i ben. (Rheoliad 22 (9))
[Oni bai, wrth gwrs, bod yr Is-gadeirydd yn ymddiswyddo yn gynharach]

**3. Cefndir cyfansoddiadol**

3.1 Nid yw'r Cyfansoddiad yn cyfeirio at dymor yr Is-gadeirydd.

## 4. Yr Etholiad

4.1 Ar sail yr uchod, rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith yr aelodau canlynol:

Rhys Davies, Brace Griffiths, John Jones a Gill Murgatroyd.

4.2 Trefor Owen, pumed Aelod Annibynnol y Pwyllgor, yw'r Cadeirydd ac felly nid yw ei enw yn ymddangos yn y rhestr uchod.

4.3 Bydd yr Is-gadeirydd yn cael ei ethol am gyfnod yn unol â 2.2 uchod a gall fod yn gymwys i'w ailethol.

4.4 Gall pob ymgeisydd bleidleisio drostynt eu hunain.

## 5. Gwybodaeth am yr ymgeiswyr

5.1 Mae bywgraffiadau'r aelodau annibynnol (ac eithrio Trefor Owen, Cadeirydd) yn cael eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

| | |
|---|---|
| Rhys Davies – | **Atodiad 1** |
| Brace Griffiths – | **Atodiad 2** |
| John Jones – | **Atodiad 3** |
| Gill Murgatroyd – | **Atodiad 4** |

5.2 Rhaid dewis yr Is-Gadeirydd o blith y pedwar enw uchod.

5.3 Nid oes manyleb rôl benodol ar gyfer Is-gadeirydd. Rôl yr Is-gadeirydd yw cefnogi'r Cadeirydd yn ei rôl a chamu i rôl y Cadeirydd yn ôl yr angen. Ar y sail hon, gellir gweld copi o ddisgrifiad rôl y Cadeirydd yma.

## 6. Argymhelliad

6.1 Y Pwyllgor Safonau i ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau annibynnol am dymor tan 14 Chwefror 2028 (yn amodol ar ailetholiad), neu hyd nes bydd cyfnod yr aelod fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben, pa bynnag un sydd gynharaf.

**ATODIAD / ENCLOSURE 1**

**Rhys Davies**

Yn enedigol o Fôn, aeth Rhys i astudio deintyddiaeth yng Nghaerdydd ar ôl bod yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes. Bu'n ddeintydd yn ei bractis yn Llangefni am dros 30 mlynedd, a hefyd cafodd gyfnod gyda'r gwasanaeth deintyddol cymunedol.

Mae bellach wedi ymddeol ond mae'n parhau i fyw ar yr ynys.

Yn y gorffennol, bu Rhys yn aelod o Gyngor Cynulleidfa'r BBC (Cymru), yn Ymddiriedolwr dros Ganolfan Lôn Abaty Bangor, yn Gadeirydd ar Y Gymdeithas Ddeintyddol, yn Ynad ar fainc Ynys Môn/Gwynedd ac yn aelod annibynnol o'r Cyngor Iechyd Cymunedol gan gadeirio Pwyllgor Lleol Dinbych.

Yn ddiweddar, cafodd Rhys ei benodi yn Aelod o Fwrdd Cynghori "Mwy na Geiriau", corff sy'n adrodd i'r Gweinidog Iechyd, Llywodraeth Cymru.

---

**Rhys Davies**

Originally from Anglesey, Rhys studied dentistry in Cardiff after having been a pupil at Ysgol David Hughes. He was a dentist at his practice in Llangefni for over 30 years and also spent a period with the community dentist service.

He is now retired but continues to live on the Island.

In the past, Rhys was a member of the BBC (Wales) Audience Council, was a Trustee for the Abbey Road Bangor Centre, was Chair of the Dentistry Society, a Magistrate on the Anglesey/Gwynedd bench of Magistrates and was an independent member of the Community Health Council, chairing the Denbighshire Local Committee.

Rhys was recently appointed as a Member of the "More than Words" Advisory Board, a body which reports to the Health Minister of Welsh Government.

**Brace Griffiths**

Rwyf yn frodor o Fôn ac wedi byw a gweithio yng ngogledd Cymru ar hyd fy oes, fwy neu lai.

Rwyf newydd ymddeol ac roeddwn yn arfer gweithio fel Uwch Reolwr Polisi yn Adran Economaidd Llywodraeth Cymru. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, roeddwn yn gweithio i Lywodraeth y DU.

Rwyf yn Aelod Siartredig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Y tu allan i'r gwaith, rwyf wedi gweithio mewn rolau gwirfoddol ers nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd rwyf yn aelod o Llais, sef sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli barn pobl sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol. Mae Llais wedi disodli'r Cyngor Iechyd Cymuned y bûm yn aelod ohono am 11 mlynedd. Rwyf hefyd wedi bod yn ffodus o gael treulio cyfnod fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd Menter Môn ac Agoriad, sydd wedi'u lleoli ym Mangor.

Mae gen i ferch a thri o wyrion, sydd hefyd yn byw ar Ynys Môn.

Mae fy niddordebau'n cynnwys rygbi, gwella fy ngwybodaeth am hanes lleol a theithio.

---

**Brace Griffiths**

I am a native of Anglesey and have lived and worked in North Wales for most of my life.

I have recently retired from the Welsh Government, where I worked as a senior policy manager within the Economy Department. Prior to joining the Welsh Government, I worked for the UK Government.

I am a Chartered Member of the Chartered Institute of Personnel and Development.

Outside of work I have, for many years, undertaken voluntary roles. I am currently a member of Llais, an independent organisation set up by the Welsh Government, to represent the views and experiences of people using health and social care. Llais replaced the Community Health Council, which I was a member of for 11 years. I have also been fortunate to spend a period of time as a Director and Chair of Menter Mon and of Agoriad, based in Bangor.

I have a daughter and three grandchildren, who also live on Anglesey.

My interests include, rugby, improving my knowledge of local history and travel.

**ATODIAD / ENCLOSURE 3**

**John R Jones**

Cefais y fraint o fod yn Brif Swyddog Medrwn Môn, sef y Cyngor Gwirfoddol Sirol sydd yn hybu a chefnogi gweithgaredd gwirfoddol a chymuned ar Ynys Môn am nifer o flynyddoedd hyd at fy ymddeoliad yn 2016.

Felly mae fy mhrofiad gwaith yn ysector wirfoddol ac mewn swyddi rheoliaethoddol. Rhan o fy ngwaith oedd datblygu perthynas adeiladol gyda chyrff statudol felly mae gennyf brofiad helaeth o weithio gydag awdurdodau cyhoeddus drwy fod yn rhan o bwyllgorau, gweithgorau ayyb. Cefais y fraint o weithredu fel cynghorydd cymuned am nifer o flynyddoedd ac wedi bod yn lywodraethwr ar gymuned ac yn gadeirydd corf llywodraethwyr ysgol uwchradd.

Yr wyf yn frodor o Ynys Môn ac wedi ei fagu, ei addysgu ac wedi gweithio yma rhan fwyaf o'm hoes ond cefais brofiad o dderbyn addysg bellach ac o weithio tu hwnt i'r Afon Fenai am gyfnod. Rwyf yn dad i dri o blant ac yn daid i ddau.

Fy niddordebau yw teulu, fy nghymuned, golf, rygbi, beicio a cherdded.

---

**John R Jones**

I had the privilege of being Chief Officer at Medrwn Môn which is the County Voluntary Council which promotes and supports voluntary activities and communities on Anglesey, up to my retirement in 2016.

My work experience is therefore in the voluntary sector and in management posts. Part of my work included developing a constructive relationship with statutory bodies so I have vast experience of working with public bodies and being part of committees, working groups etc. I had the privilege of working as a community councillor for a number of years and have been a primary school governor and chairman of a secondary school governors body.

I am from Anglesey and was raised and educated here and have worked here for most of my life but have also had experience of further education and working the other side of the Menai for a period. I am a father to three children and a grandfather to two.

My interests include family, my community, golf, rugby, cycling and walking.

**Gill Murgatroyd**

Mae Gill yn Gymrawd Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu a chanddi nifer o flynyddoedd o brofiad fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn y maes Tai Cymdeithasol. Gweithiodd yn y gorffennol hefyd fel Cyfarwyddwr ei busnes ymgynghori AD a Datblygiad Sefydliadol ei hun ac mewn rolau AD uwch yn y sector cyhoeddus a'r sector breifat gan gynnwys ym meysydd Gwasanaethau Ariannol, y diwydiant Modurol, Ynni/Cyfleustodau, Adwerthu ac Amddiffyn.

Mae Gill yn aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Conwy, Cyngor Sir Fflint ac Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae hi hefyd yn Aelod o Banel Rheoleiddio ac yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, yn Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Ymchwiliol Rheoleiddio Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yn Aelod Panel Annibynnol ar Dribiwnlysoedd Apeliadau Heddlu a Gwrandawiadau Camymddygiad Heddlu yng Nghymru. Bu hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar gyfer dau sefydliad elusennol lleol ac yn aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer Athrawon.
Mae Gill yn byw yn Llandudno ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau cerdded yn y mynyddoedd ac o amgylch arfordir Gogledd Cymru.

---

**Gill Murgatroyd**

Gill is a Fellow of the Chartered Institute of Personnel & Development, with many years' experience as a Director of Human Resources in Social Housing. She has also previously been the Director of her own HR & Organisation Development consultancy business, as well as having worked in senior HR roles in both the public & private sectors, including Financial Services, Automotive, Energy/Utilities, Retail & Defence.

Gill is a member of the Standards Committee for Conwy County Bough Council, Flintshire County Council, & the North Wales Fire & Rescue Authority. She is also a Regulatory Panel Member & Chair for Social Care Wales, a Lay Panel Member on the Regulatory Investigating Committee for the Nursing & Midwifery Council, as well as an Independent Panel Member on the Police Misconduct Hearings & Police Appeals Tribunals in Wales. She has also previously been a non-executive director for two local charitable organisations & a member of the Independent Welsh Pay Review Body for Teachers.

Gill lives in Llandudno, & in her spare time enjoys walking in the mountains & around the coast of North Wales.

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Trefor Owen (Is-gadeirydd) (yn y Gadair)<br><br>Mr John R Jones<br>Mrs Gill Murgatroyd<br><br>**Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br><br>**Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol (EP) (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr T Rhys Davies Cadeirydd)<br>Mr Brace Griffiths<br>Cynghorydd Margaret M Roberts<br>Cynghorydd Margaret Thomas (Cynghorydd Cyngor Tref a Chymuned) |

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd, croesawodd yr Is-gadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Dywedodd nad oedd y Pennaeth Democratiaeth yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Democrataidd/Materion Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i Mrs Gill Murgatroyd ddatgan diddordeb personol yn Eitem 6 ar yr agenda (Rhif achos 2 ym Mhenderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru). Mae'n aelod annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint, ac mae'r achos hwn yn ymwneud ag aelod etholedig o Gyngor Sir y Fflint. Panel Dyfarnu Cymru wnaeth benderfynu ar y penderfyniad.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd eu bod cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 yn gywir, yn amodol ar y canlynol: -

**Materion yn codi: -**

Rhoddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ddiweddariad gan y Pennaeth Democratiaeth ar Eitem 3 o'r cofnodion: -

- O ran y Protocol ar gyfer Cyfarfodydd Hybrid, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 20 Mawrth 2024. Adroddwyd bod adolygiad o'r Protocol yn cael ei gynnal. Nid oes unrhyw broblemau wedi'u nodi ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach; felly, ni wneir unrhyw newidiadau i'r Protocol.

  Pwysleisiodd y Swyddog Monitro fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi gofyn am wybodaeth gan bob awdurdod am ba mor dda y mae'r Protocol presennol yn gweithio. Dywedodd fod CLlLC yn bwriadu gwneud gwaith i ddiweddaru'r Protocol presennol, a bydd ymarferiad ymgynghori ar Brotocol drafft newydd maes o law.

- Nodwyd bod y templed ar gyfer Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau wedi'i symleiddio fel bod gwybodaeth am hyfforddiant aelodau ac Aelodaeth Pwyllgor wedi'i huwchlwytho i'r templed newydd pan fydd aelodau'n ei dderbyn. Hyd yn hyn, mae 26 o bob 35 aelod etholedig wedi cyflwyno adroddiadau blynyddol ar gyfer 2023/24.

- Mae templed newydd wedi'i ddatblygu rhwng y Gwasanaethau Democrataidd a Thîm Hyfforddi Adnoddau Dynol i gofnodi Adolygiadau Blynyddol yr Aelodau, sydd wedi cael eu rhannu gydag arweinwyr grŵp. Nodwyd bod yr adborth ar anghenion hyfforddi wedi'i gyflwyno gan bedwar o'r Arweinwyr Grŵp.

- Tynnwyd sylw at y ffaith bod enw Cadeirydd Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi'i nodi'n anghywir ar dudalen 7 o'r cofnodion, dylai gyfeirio at Clive Wolfendale.

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft cyfarfod arbennig y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2024 yn gywir.

**3. DATBLYGIAD AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Hyfforddi a Datblygu Adnoddau Dynol ar ddarpariaeth hyfforddi a datblygu a gynigwyd i aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu fod 37 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u cynnig i aelodau ers mis Ebrill 2023, a bod 35 aelod wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Roedd y ffigurau presenoldeb a gofnodwyd ar gyfer sesiynau hyfforddi gorfodol eraill yn amrywio rhwng 34 ar gyfer Seiberddiogelwch a 26 ar gyfer Iechyd a Diogelwch. Pwysleisiwyd bod y ffigurau presenoldeb ar gyfer hyfforddiant gorfodol wedi bod yn siomedig, o ystyried bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar fynychu'r sesiynau hyn. Lleisiwyd pryderon fod diffyg presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi yn cael effaith yn ei dro ar ddatblygu aelodau a symud y rhaglen yn ei blaen, oherwydd bydd angen trefnu hyfforddiant pellach, gan roi pwysau ychwanegol ar staff ac adnoddau ariannol y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu ei bod wedi derbyn cais i deilwra hyfforddiant Llesiant yn benodol ar gyfer anghenion aelodau i fynd i'r afael â meysydd e.e. menopos. Yn dilyn cais i CLlLC, cynigir dau fodiwl pellach i aelodau h.y. Diogelwch Personol i Gynghorwyr a Rheoli Cam-drin a Bygythiadau Ar-lein.

Nodwyd yr ymgynghorwyd â Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â Chynllun Datblygu ar gyfer Arweinwyr Grŵp, mae drafft o'r Cynllun wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.  Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda darparwyr allanol a Chynghorau eraill ar rannu arfer da.

(Ymunodd y Cynghorydd Iorwerth Roberts â'r cyfarfod am 10.20am)

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y niferoedd isel yn y sesiynau hyfforddi. Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu fod amser y cyfarfodydd yn destun pryder i rai aelodau, er bod yr opsiwn i gynnal sesiynau hyfforddi yn ystod y dydd a'r nos ar gael ar hyn o bryd. Dywedodd mai un opsiwn posibl fyddai cynnal sesiynau hyfforddi rhithwir ar gyfer hyfforddiant cyffredinol. Hefyd trafodwyd yr opsiwn o recordio sesiynau hyfforddi; ni fyddai hyn yn addas ar gyfer hyfforddiant gorfodol, gan fod angen cadarnhau presenoldeb.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu mai'r nod yw cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig ym mis Medi.  Bydd yn ddogfen sy'n cael ei datblygu, a'i hadolygu'n rheolaidd i ystyried anghenion aelodau etholedig.

Awgrymodd yr Is-gadeirydd ei fod yn cyfarfod ag Arweinwyr Grŵp i drafod diffyg presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi gorfodol ac i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mynychu'r sesiynau hyn.  Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu y byddai'n fodlon rhannu enwau'r aelodau hynny nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant gorfodol gyda'r Is-gadeirydd.

Dywedodd yr Is-gadeirydd mai'r teimlad yn gyffredinol oedd y dylai Arweinwyr Grŵp ymgymryd â hyfforddiant ar sgiliau hyfforddi. Cyfeiriodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu at Eitem 3 o'r adroddiad lle mae'n nodi y byddai'r opsiwn hwn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu 1:1 ar gyfer Arweinwyr Grŵp.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at hyfforddiant gorfodol ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol gwybod pa gyrsiau hyfforddi y gellir eu cynnal yn rhithwir neu drwy Bwll Dysgu fel y gellir targedu'r sesiynau hyn ar gyfer aelodau yn y lle cyntaf, gyda sesiynau pellach i ddilyn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Hyfforddi a Datblygu fod hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned yn cael ei drefnu gan ddarparwr allanol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu AD yn rhannu enwau aelodau sydd heb fynychu hyfforddiant gorfodol gydag Is-gadeirydd y Safonau Pwyllgor.**

- **Bod yr Is-gadeirydd yn cyfarfod ag Arweinwyr Grŵp i drafod diffyg presenoldeb mewn hyfforddiant gorfodol gan aelodau o'u grwpiau.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn gofyn i Arweinwyr Grŵp ymgymryd â hyfforddiant ar sgiliau hyfforddi.**

**Cam Gweithredu: Gweler y penderfyniad uchod**

**4. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar gwynion chwarterol a dderbyniwyd gan OGCC ers y Pwyllgor Safonau diwethaf mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod un gŵyn wedi'i chofnodi yn erbyn Cynghorydd Sir yn ystod Chwarter 3, 2023/24, ar ôl cael ei chyflwyno i'r Ombwdsmon yn Haf 2023, a bod yr Ombwdsmon yn ymchwilio iddi. Doedd dim cwynion wedi eu derbyn yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer y cyfnod.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod un gŵyn newydd wedi'i chyflwyno i'r Ombwdsmon yn erbyn Cynghorwyr Sir yn ystod Chwarter 4, 2023/24. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddi.

Cafodd yr achos cyntaf ei adrodd i'r Ombwdsmon ym mis Mai y llynedd a'r ail ym mis Chwefror eleni. Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu bod angen camau pellach o ran y cwynion, yna gellid cyfeirio pob cwyn yn ôl at y Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad.

Nodwyd bod pum cwyn wedi eu cyflwyno i'r Ombwdsmon yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod Chwarter 4. Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i bedair o'r pum cwyn ond mae'n ymchwilio i'r bumed. Mae'r pum mater yn ymwneud ag un Cyngor Tref a Chymuned, a bydd y cwynion hyn yn cael eu trafod yn Eitemau 10 ac 11 o'r agenda heddiw, pan fydd y wasg a'r cyhoedd wedi'u gwahardd.

Mynegwyd pryderon gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch yr amserlen ar gyfer datrys cwynion. Nododd y Swyddog Monitro fod yr Ombwdsmon wedi dweud yn ddiweddar bod achosion yn cronni.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Atodiadau 1-4 yr adroddiad.**

**Cam Gweithredu: Dim**

**5. PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn crynhoi’r canfyddiadau a gyhoeddwyd gan OGCC yn ymwneud â chwynion Cod Ymddygiad yng Nghymru rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Mai 2024.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod 16 o gwynion wedi cael eu cyfeirio i sylw OGCC, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Cyfeiriodd at gamgymeriad yn achos 6, yn ymwneud â Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr o dan y golofn sylwadau. Dylid rhestru'r wybodaeth a ddangosir yma yn erbyn achos 15.

Mae achos 6 yn cyfeirio at Gynghorydd a oedd wedi torri sawl paragraff o'r Cod, gan gynnwys dwyn anfri ar ei rôl, defnyddio statws fel Cynghorydd er ei fudd ei hun a methu â datgan diddordeb personol, sy'n rhagfarnu, trwy gymryd rhan mewn trafodaeth yn ymwneud ag ymddygiad ei wraig. Cafodd yr aelod ei wahardd am chwe mis.

Mae achos 7 yn ymwneud â Chynghorydd a oedd wedi ymddwyn mewn modd ymosodol ac amharchus. Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r achos a phenderfynodd beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, gan fod hwn yn ddigwyddiad ynysig. Awgrymwyd bod paragraff 4(b) o'r Cod wedi'i dorri yn sgil peidio â dangos parch ac ystyriaeth i eraill.

Roedd achos 9 yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol, lle'r oedd y Cod wedi'i dorri gan fod y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei rôl. Rhoddwyd cerydd i'r Cynghorydd, gydag argymhelliad y dylai'r aelod ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd achos 11 yn cynnwys honiad bod Cynghorydd wedi methu dangos parch tuag at aelodau benywaidd o'r Cyngor, ond canfuwyd nad oedd hynny'n wir. Roedd honiadau eraill hefyd, ond roedd yr Ombwdsmon o'r farn, gan fod y Cynghorydd bellach wedi ymddeol o'i rôl, y byddai opsiynau cosbi yn gyfyngedig, ac felly nid oedd budd cyhoeddus mewn cymryd camau pellach.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) y bydd diweddariadau pellach mewn perthynas â'r achosion hynny sydd wedi'u hadrodd, ond nad ydynt wedi'u cwblhau, yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau. Awgrymodd y dylid tynnu sylw at brotocol cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hwn yng nghylchlythyrau nesaf y Pwyllgor Safonau i aelodau etholedig ac aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned er mwyn eu hatgoffa.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Cam Gweithredu: Dim**

## 6. PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU Cymru

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn crynhoi materion a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC) ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2023.

Rhoddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) grynodeb o'r achosion: -

Achos 1 - Honiad bod cyn-gynghorydd wedi gwneud sylwadau amharchus a bygythiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Daeth PDC i'r casgliad bod sylwadau'r Cynghorydd wedi eu gwneud fel unigolyn preifat yn hytrach nag fel aelod etholedig. Nodwyd mai dim ond un paragraff o'r Cod oedd yn berthnasol yn yr achos hwn; p'un ai a oedd ymddygiad y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar rôl yr unigolyn fel Cynghorydd neu'r awdurdod.

Penderfynodd y Panel nad oedd y Cod wedi'i dorri a bod y Cynghorydd wedi dwyn anfri arni ei hun yn bersonol. Wrth grynhoi, cyfeiriodd y Cyfreithiwr eto at y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Aelodau sydd ar gael yn CSYM, a phwysigrwydd atgoffa'r aelodau amdano.

Achos 2 - Roedd yr ail achos yn cyfeirio at honiad o dorri'r Cod yn erbyn Cynghorydd a oedd wedi anfon negeseuon rhywiol at berson a oedd wedi bod eisiau ei help gyda phroblem yn ymwneud â thŷ aelod o'r teulu. Pan na chafodd yr help a'r cydweithrediad yr oedd wedi gobeithio amdano gan y Swyddog Tai, bu i'r Cynghorydd ymddwyn mewn modd digywilydd a bygythiol ac yna bu iddo ymddwyn mewn modd tebyg tuag at y Swyddog Monitro. Ystyriodd y Tribiwnlys yr honiadau hynny a daethpwyd i'r casgliad bod y Cynghorydd yn euog o dorri sawl paragraff o fewn y Cod. Nododd y Tribiwnlys ei fod yn teimlo bod pwyslais gormodol ar yr honiadau yn yr achos, ac wrth ystyried y gosb, canolbwyntiwyd ar ymddygiad a chamweddau'r Cynghorydd, ac nid ar nifer yr honiadau. Teimlai'r Tribiwnlys y byddai un neu ddau achos o dorri rheolau yn fwy addas ar gyfer y sefyllfa, a dilynwyd y canllaw ar gosbau. Cafodd y Cynghorydd ei wahardd am gyfnod o bedwar mis.

Achos 3 – Roedd yn cyfeirio at apêl gan gyn Gynghorydd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau lleol. Rhoddwyd caniatâd i'r Cynghorydd apelio gan fod Llywydd PDC o'r farn nad oedd y Pwyllgor Safonau wedi egluro yn ei benderfyniad pam, ar sail y ffeithiau, fod y Cod wedi'i dorri. Roedd y Panel yn cefnogi penderfyniad y Pwyllgor Safonau, a byddai'r aelod wedi cael ei gwahardd am 6 mis, pe bai hi'n dal yn aelod.

Achos 4 - gwrthodwyd caniatâd i apelio.

Pwysleisiodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol), pan fydd Pwyllgor Safonau'n dod i benderfyniad yn dilyn gwrandawiad, rhaid iddo sicrhau ei fod yn cynnwys manylion wrth gofnodi'r penderfyniad; rhaid i'r penderfyniad, esbonio'r rhesymau, beth oedd manylion yr achos, yr ystyriaeth a roddwyd i dystiolaeth y manylion a ph'un ai a ystyriwyd y canllaw ar gosbau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys crynodebau'r achos a gyflwynir yn yr adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 7. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiad, a nodwyd nad oes unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig wedi dod i law yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a dyddiad cyhoeddi'r agenda hwn.

## 8. DIWEDDARIAD GAN FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad diweddaru gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar gyfarfod diwethaf Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol, a fynychwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar 29 Ionawr 2024.

Dywedodd yr Is-gadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi derbyn copi o nodiadau'r Cadeirydd a'r cofnodion o'r cyfarfod hwnnw. Crynhodd y pwyntiau canlynol: -

- Cyflwyniad gan Swyddfa'r Ombwdsmon yn manylu ar y cynnydd mewn achosion a gyflwynir i'r Ombwdsmon, sy'n ychwanegu at lwyth achosion presennol yr Ombwdsmon.
- Cyflwyniad ar Bwyllgorau Safonau a Chydbwyllgorau.
- Cyflwyniad ar y Protocol Datrysiad Lleol.
- Trafodaeth ar fater penodol lle'r oedd Arweinydd Grŵp hefyd yn cynrychioli aelodau etholedig ar Bwyllgor Safonau. Roedd yr aelod hwnnw o'r farn na allai barhau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau ac yn Arweinydd Grŵp; tra mewn awdurdod arall, roedd Arweinydd Grŵp o dan yr un amgylchiadau, a barhaodd yn y rôl ar y Pwyllgor Safonau.
- Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi a gymeradwywyd yn ystod cyfarfod y Fforwm h.y. hyfforddiant ar gadeirio cyfarfodydd ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar 12 Chwefror 2024 a sesiwn hyfforddi ar gynnal gwrandawiadau ar gyfer Cadeiryddion ar 23 Ebrill 2024

Dywedodd yr Is-gadeirydd y bydd yn mynychu cyfarfod nesaf y Fforwm ar 24 Mehefin 2024 ar ran y Cadeirydd, a bydd yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r diweddariad gan yr Is-gadeirydd.**

**Cam Gweithredu: Dim**

## 9. ADOLYGIAD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU O GOFRESTR DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG Y CYNGOR SIR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Adolygiad o'r Cofrestrau Diddordebau ar gyfer aelodau etholedig.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod yr adolygiadau wedi'u cynnal ym mis Ionawr 2024 gan y 5 aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Dilynodd yr aelodau annibynnol y ddogfen ganllaw a ddatblygwyd ar gyfer yr adolygiadau. Penderfynwyd cymryd sampl o 20 aelod etholedig a oedd yn cynnwys pob Arweinydd Grŵp, gyda'r sampl oedd yn weddill yn cynnwys aelodau yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol gan ddewis enwau ar hap. Wedi hynny cyfarfu aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau i drafod eu canfyddiadau.

Deilliodd pedwar cam o'r canfyddiadau, a drafodir yn Adran 2.6 yr adroddiad.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â gohebiaeth bersonol, sydd wedi'i hanfon at ambell aelod etholedig. Yn gyffredinol, roedd yr aelodau annibynnol yn fodlon â'r canfyddiadau, ond roeddent yn teimlo bod angen ysgrifennu at rai aelodau i dynnu eu sylw at rai materion, megis yr angen i ddiweddaru eu cofrestrau. Anfonwyd gohebiaeth, derbyniwyd ymatebion, ac mae'r rhan fwyaf o faterion wedi cael sylw. Fodd bynnag, mae rhai materion yn parhau, y mae angen eu datrys o hyd. Mae gohebiaeth bellach yn cael ei hanfon gan yr Is-gadeirydd ac mae'r gwaith yn parhau.

Roedd yr ail gam yn ymwneud â llesiant aelodau, a amlygwyd drwy absenoldebau neu newid mewn patrymau presenoldeb ar gyfer cyfarfodydd neu sesiynau hyfforddi. Anfonwyd gohebiaeth at Arweinwyr Grŵp ynghylch aelodau penodol o'u grwpiau, ac

mae gwaith yn mynd rhagddo i fodloni'r Pwyllgor fod Arweinwyr Grŵp yn cymryd camau mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â llesiant.

Mae'r trydydd cam yn ymwneud â materion corfforaethol neu dechnegol y mae angen mynd i'r afael â nhw e.e. y broses o ddiweddaru cofrestrau, yn enwedig cofrestrau ar gyfer datgan diddordebau mewn cyfarfodydd, sydd ar bapur ar hyn o bryd, tra bod cofrestrau eraill yn cael eu diweddaru'n electronig. Mae llythyr wedi'i anfon at y Prif Weithredwr, sydd wedi cydnabod yr ohebiaeth ac wedi datgan ei fod yn bwriadu cynnal ymholiadau pellach a rhoi adborth maes o law.

Y cam olaf sy'n deillio o'r ymarfer yw y bydd adroddiad cyffredinol yn cael ei baratoi ar gyfer pob aelod i roi adborth ar y themâu cyffredinol a gododd yn ystod yr adolygiadau gan rannu arfer da a gwersi a ddysgwyd. Mae trefniadau ar waith i'r Is-gadeirydd gyflwyno'r adroddiad drafft i gyfarfod Arweinwyr Grŵp cyn y bydd yn cael ei rannu drwy e-bost gyda'r holl aelodau. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau, er mwyn diweddaru aelodau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cyflwyno adroddiad pellach yng nghyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2024, i**
  **(a) rannu copi o'r adroddiad cyffredinol, gan gynnwys y prif themâu sy'n codi o'r broses adolygu, a'i anfon at yr holl aelodau yn dilyn trafodaeth gychwynnol gydag arweinwyr grŵp; ac**
  **(b) adrodd ar y datblygiadau a wnaed, yn enwedig o ran paragraff 2.6.3 o'r adroddiad.**

**Cam Gweithredu: Gweler y penderfyniad uchod**

**10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus atodedig.**

**11. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS Â CHYNGHORWYR CYMUNED YN YSTOD CHWARTER 4 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar gwynion am ymddygiad i'r Ombwdsmon ar gyfer Chwarteri 3 a 4 ar gyfer 2023/24, mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned. Trafodwyd yr eitem hon yn gyffredinol yn Eitem 4 ar yr agenda.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod pum cwyn wedi eu cyflwyno i'r Ombwdsmon yn erbyn Cynghorwyr Tref a Chymuned o un Cyngor Tref a Chymuned.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i bedwar o'r cwynion, ac mae ymchwiliad i'r pumed cwyn yn parhau.

Nodwyd bod dau aelod o'r Pwyllgor Safonau wedi mynychu cyfarfod o'r fforwm Cyngor Tref a Chymuned hwn yn ddiweddar fel arsylwyr. Cynhaliwyd trafodaeth am ymwneud y Pwyllgor Safonau â Datrysiad Lleol a chymorth yn y Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y Pwyllgor Safonau o blaid cynnig hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Glercod a Chynghorwyr Tref a Chymuned yn hydref 2024.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar gynnwys Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad fel llythyrau templed i'w anfon ar ran y Pwyllgor Safonau drwy'r Cadeirydd pan wneir ymholiadau mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned/Cynghorwyr; a**
- **Chytuno i beidio â datgelu enw'r Cyngor Tref a Chymuned y cyflwynwyd y pum cwyn yn eu herbyn i'r Ombwdsmon yn Chwarter 4 2023/2024.**
- **Cytuno i drefnu hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Clercod a Chynghorwyr Tref a Chymuned yn ystod hydref 2024.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am

**MR TREFOR OWEN**
**IS - GADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr T Rhys Davies<br>Mr John R Jones<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mr Trefor Owen |
| | **Yn Cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Cynghorydd Margaret M Roberts |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Cafodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr Trefor Owen ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**3. ETHOL CADEIRYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y weithdrefn i ethol Cadeirydd o'r Pwyllgor Safonau yn un ôl â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Pharagraff 2.9.2.6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i ymddiswyddiad Mr Rhys Davies fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Bydd Mr Rhys Davies yn parhau'n Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ethol Cadeirydd o blith y pum aelod annibynnol am dymor hyd at Chwefror 2028 neu tan y bydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn dod i ben.

Cafodd bywgraffiadau'r pum aelod annibynnol eu cynnwys fel atodiadau 1-5 o'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD ethol Mr Trefor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau tan Chwefror 2028.**

Diolchodd Mr Owen i Mr Rhys Davies am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau. Nododd ei fod yn edrych ymlaen at gydweithio ag aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddogion yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Diolchodd Mr Rhys Davies i aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu cefnogaeth iddo tra bu'n Gadeirydd y Pwyllgor. Buodd longyfarch Mr Trefor Owen ar gael ei ethol yn Gadeirydd a dymunodd yn dda iddo yn y rôl.

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 6 Chwefror 2025 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Rhoddwyd diweddariad ffurfiol i'r Pwyllgor ar waith y gwasanaethau democrataidd ddiwethaf yn ei gyfarfod ar Rhagfyr 2023. Ni roddwyd diweddariad yn 2024 yn bennaf oherwydd gwaith ar weinyddu etholiadau Mai a Gorffennaf.

2. Yn dilyn adolygiad y Pwyllgor o gofrestrau diddordeb aelodau yn 2024 a llythyr gan gadeirydd y Pwyllgor at y prif weithredwr yn yr haf, rhannwyd cynllun gwella gyda'r Pwyllgor oedd yn delio gyda rhai o'r materion democrataidd oedd wedi codi yn ystod yr adolygiad. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar hynny hefyd.

**Cynllun gwella**

3. Datblygwyd y cynllun i weithredu ar argymhellion y Pwyllgor Safonau o'i adolygiad o gofrestrau diddordeb aelodau oedd yn berthnasol i wasanaethau democrataidd. Rhannwyd copi o'r cynllun gyda'r Pwyllgor yn hydref 2024.

4. Mae 15 o'r 20 gweithred wedi eu cwblhau erbyn hyn. O'r 5 sy'n weddill, mae dau ohonynt yn waith parhaus, sef "15. Cadw golwg ar lesiant aelodau" (diweddariad pellach ar hynny yn yr adroddiad hwn) a "17. Sicrhau bod hyd a fformat adroddiadau yn hylaw". Mae un arall "20. Cysylltu gwe-ddarllediadau efo eitemau agenda" yn ychwanegol i argymhellion y Pwyllgor Safonau, ac er nad yw wedi ei gwblhau, mae cynnydd sylweddol wedi bod.

5. Mae hynny'n gadael dau weithred nad oes datrysiad iddynt ar hyn o bryd, sef "1. Galluogi aelodau i gwblhau y Gofrestr Diddordebau Sefydlog ar ochr Gymraeg ModGov os ydynt yn dymuno" a "3. Galluogi aelodau i gwblhau eu ffurflen

cofrestr datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar-lein”. Drwy swyddogion TG y Cyngor, rydym wedi codi gweithred 1 gyda darparwr y feddalwedd Mod Gov. Nid yw’r feddalwedd yn caniatáu mewnbynnu o’r ochr Gymraeg ar hyn o bryd, ond mae wedi ei ychwanegu i’r rhestr datblygiadau. Yn y cyfamser rydym yn fodlon cefnogi dewis iaith aelodau drwy gyfieithu testun ar eu rhan os oes angen. Nid oes datrysiad technegol i weithred 3 ar hyn o bryd ychwaith, ond rydym yn sicrhau eu bod yn derbyn ffurflen electronig ac mae’r cyfraddau ymateb yn dda.

**Protocol Cyfarfodydd Hybrid**

6. Diwygiwyd y Protocol yn 2023 er mwyn rhoi canllawiau clir a chyfredol i aelodau pwyllgorau’r Cyngor ar sut i weithredu mewn cyfarfodydd hybrid ac wrth ymuno o bell. Yn ystod y broses o baratoi’r protocol ymgynghorwyd gyda’r Pwyllgor Democrataidd a’r Pwyllgor Safonau.

7. Bwriad y Protocol ydi cefnogi ac ategu yr arweiniad a’r rheolau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor drwy roi mwy o wybodaeth am drefniadau cyfarfodydd hybrid. Mae cadeirydd pob pwyllgor yn cyfeirio at y Protocol ar ddechrau cyfarfodydd.

8. Rydym yn cadw’r Protocol o dan adolygiad a byddwn yn ei ddiweddaru os bydd angen.

**Llesiant Aelodau**

9. Mae negeseuon wedi eu rhannu gyda aelodau yn flaenorol am y cymorth sydd ar gael iddynt gan gynnwys y gwasanaeth cwnsela cyfrinachol a modiwlau e-ddysgu. Fel rhan o’r cynllun datblygu aelodau, bydd y Tim Hyfforddi yn chwilio am hyfforddiant addas hefyd.

10. Ymhellach i hynny, rydym yn ymwybodol bod aelodau etholedig yn destun ymddygiad bygythiol a sylwadau sarhaus ar adegau. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddog sy’n cynghori ar faterion aelodau etholedig. Rydym wedi gwneud cyswllt gyda’r swyddog ac mae cyfarfod wedi ei drefnu ym mis Chwefror.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

11. Derbyniwyd 26 adroddiad blynyddol gan aelodau ar gyfer 23/24, sef yr un nifer a dderbyniwyd ar gyfer 22/23 ac yn gynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol. Mae pob adroddiad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

12. Byddwn yn atgoffa aelodau o’r drefn adroddiad blynyddol yn fuan ac yn rhannu templed adroddiad ar gyfer 24/25. Bydd swyddogion democrataidd ar gael i gynorthwyo yn y ffordd arferol.

**Cofrestru a datgan diddordeb aelodau**

13. Caiff cofrestr diddordeb pob aelod etholedig ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Anfonwyd neges gan gwasanaethau democrataidd at pob aelod ym mis Hydref yn eu hatgoffa i gofrestru unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau o fewn 28 diwrnod gwaith. Rhannwyd canllawiau ynghylch sut i ddiweddaru'r gofrestr ar-lein ac eglurwyd bod cymorth pellach ar gael gan swyddogion democrataidd.

14. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau, mae ymdrech pellach wedi ei wneud i sicrhau bod aelodau yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o ddatganiad diddordeb mewn cyfarfodydd drwy gwblhau'r ffurflen priodol.

15. Mae cadeiryddion yn atgoffa aelodau i wneud hynny fel rhan o'r datganiad agoriadol mewn pwyllgorau ac mae ffurflenni ar gael gan glerc y pwyllgor. Cyfrifoldeb aelodau unigol ydi sicrhau eu bod yn llenwi'r ffurflen.

**Cofrestr rhoddion a lletygarwch**

16. Cynhaliwyd adolygiad dros yr haf o gofrestrau rhoddion a lletygarwch aelodau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar y wefan yn gyflawn.

17. Mae dyletswydd ar aelodau yn unol a'r Cod Ymddygiad i hysbysu'r awdurdod o roddion a lletygarwch sy'n uwch na'r trothwy yn y Protocol Rhoddion a Lletygarwch o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn a chaiff y wybodaeth ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Cofnodion Hyfforddiant**

18. Mae cofnodion hyfforddiant aelodau ar wefan y Cyngor wedi eu diwygio a'u diweddaru. Er mwyn sicrhau eu bod yn gyson a chyfredol caiff diweddariadau hyfforddiant eu mewnbynnu gan swyddogion democrataidd.

19. Caiff diweddariadau chwarterol ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol. Mae hynny'n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol.

**Argymhelliad**

20. I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 6 CHWEFROR 2025 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR HYFFORDDI A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD (estyniad 2505) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar faterion hyfforddiant a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2024 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynhigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel â gyflwynwyd i chi'n flaenorol, mae'r cynllun ar gyfer 2024-25 (Atodiad 1) wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; **Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu**. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn cynnig diweddariad isod ar y ddarpariaeth hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd at hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 36 o gyfleoedd dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Manylion llawn wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | | |
|---|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 | - |
| Iechyd a Diogelwch | 33/35 | Trefnwyd sesiynau rhithiol pellach ym mis Hydref 2024. |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 31/35 | Mae gwahoddiad wedi ei ymestyn i AE ymuno mewn sesiynau staff wedi eu trefnu at 03/12/24. |
| Diogelu Data | 29/35 | Estynwyd gwahoddiad i AE fynychu sesiynau staff ar 19/11/24. |
| Seiberddiogelwch | 34/35 | Rhannu fideo diogelwch seiber. |

| | | |
|---|---|---|
| Diogelu | 29/35 | Trefnwyd sesiynau pellach ddiwedd Tachwedd 2023. |

Y disgwyl ydi bod pob Aelod yn mynychu'r teitlau hyn fel isafswm a bod unrhyw hyfforddiant / digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r teitlau allweddol hyn.

Mae niferoedd cwblhau rhai o'r teitlau hyn wedi parhau'n îs nag sy'n ddymunol dros gyfnod o amser. Hynny er gwaethaf cynnig sawl digwyddiad dros nifer o flynyddoedd bellach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn rydym wedi edrych i amrywio ffurf ag amseriad y digwyddiadau. Lle bo hyn wedi ei weithredu rydym yn falch o adrodd ein bod wedi gweld cynnydd yn y ffigyrau cwblhau.

## 3. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRWPIAU

Yn dilyn arweiniad pellach dderbyniwyd gan gyfarfod o'r Arweinyddion Grŵp ym mis Hydref 2024, gwnaed ymholiadau pellach am ddarpariaeth cymhelliant gan yr WLGA a'r LGA. Yn anffodus bu'r ymholiadau yn yn ddi-ffrwyth gyda'r ddwy gymdeithas yn adrodd nad oedd ganddynt Gymhellwyr dwy-ieithog ar gael.

Mae gwaith wedi mynd rhagddo felly ar ddod o hyd i ddarparwr addas arall. Rwy'n falch o adrodd bod Gwen Greaves o Glaslyn Training gynt wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith o gymhell ein Harweinyddion Grwpiau.

Cynigir bod pob arweinydd:

- yn derbyn o leiaf x4 o sesiynau cymhelliant yn y lle cyntaf gyda'r sgôp i ystyried ehangu'r ddarpariaeth hon os bydd galw.
- Byddai'r sesiynau hyn yn dilyn proses o dderbyn Proffil DiSC (math o broffil personoliaeth) gyda sesiwn 1:1 yn cael ei chynnal gan hyfforddwr annibynnol a hynod brofiadol yn egluro cymhlethdodau a manteision y proffil. Hyn i'w gynnal cyn y sesiynau cymhelliant ffurfiol .

Mae darpariaeth wedi ei gwneud i sicrhau bod y gweithgareddau uchod ar gael yn ddwyieithog ac i ddilyn yn newis iaith yr unigolyn.

Tu hwnt i hyn byddem yn edrych ar bob cyfle i gyfeirio ein Haelodau Etholedig at y trwch darpariaeth sydd ar gael gan CLlLC ac Academi Cymru fel y bo'n berthnasol.

## 4. CYFATHREBIADAU

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu'n parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Democrataidd a Swyddogion perthnasol yn yr Awdurdod i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion yr Aelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu yn ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag Arweinwyr Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

## 5. FFURF TROSGLWYDDO

Ar y cyfan, mae'r sesiynau'n cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, yn fwy diweddar rydym wedi ymestyn y ddarpariaeth hon i fod yn cynnig rhai sesiynau rhithiol yn ogystal gydag opsiwn pellach lle'n addas ac yn berthnasol i fod yn recordio sesiynau at ddefnydd pellach. Noder, bod dull cyflwyno yn ddibynnol ar y pwnc dan sylw yn ogystal â pha ddull a gynigir / ffafrir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Lle bu modd, yn hanesyddol rydym wedi ceisio hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg gan drefnu gwasanaeth cyfieithu i'r rhai sy'n dymuno gwrando trwy gyfrwng y Saesneg. Mae adborth wedi eu rannu ynglŷn â hyn yn fwy diweddar a threfniadau yn yr arfaeth i fod yn cynnig sesiynau uniaith Gymraeg a Saesneg ar wahân i'r dyfodol, hyn er mwyn unioni gyda'r trefniant Corfforaethol i staff.

## 6. I GRYNHOI

Mae'r cynllun a gyflwynir yn ddogfen esblygol a bydd yn parhau i gael ei hadolygu a'i diwygio'n ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 7. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys yr adroddiad

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future

# AELODAU ETHOLEDIG

## *CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU*

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.*

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Mandadol** | | | |
| **CÔD YMDDYGIAD** | • Trosolwg o trefniadau Democrataidd; *h.y. Mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog, ayyb* | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb ) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT** | • Deallt y rôl Aelodau Etholedig o ran Cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **MATERION DIOGELU –** *PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED* | Trais Domestig / Trais yn erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rhwystro<br>• Ymwybyddiaeth Diogelu | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DELIO GYDA DATA PERSONOL / GWYBODAETH PERSONOL:** *EICH CYFRIFOLDEBAU FEL AELOD ETHOLEDIG* | • Ddeallt rhwymedigaeth cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>• Deallt gofynion penodol y Ddeddf<br>• Deallt sut i gydymffurfio a'r Ddeddf. | Modiwl E-Ddysgu<br>*(bob 3 mlynedd)*<br>**ac**:<br>Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) - Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A DIOGELWCH –** *ARWAIN YN DDIOGEL* | • Deallt gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch, o safbwynt Aelodau Etholedig<br>• Trosolwg cyffredin o Diogelwch Personol i Aelodau | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU CADEIRIO** | • Sut i arwain a chyfrannu at gynnal Pwyllgorau Effeithiol | Cyflwyniad: (rhithiol)<br>*i'w hadnewyddu pob 2 flynedd*<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Cadeiryddion ac Îs-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau |
| **CYNLLUNIO A THRWYDDEDU, LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | • Hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | |
| **SGILIAU TGCH I DDECHREUWYR** | • Cynorthwyo Aelodau Etholedig sydd â trafferthion yn defnyddio offer TGCh | I fyny at tair o sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU TGCH CANOLOG** | • Datblygu sgiliau TGCh Aelodau | Sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFLWYNIAD I NEWID HINSAWDD** | | Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **DIFENWAD** | • Sut i osgoi ac/neu lliniaru yn erbyn unrhyw cais/ceisiadau difenwad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **RHEOLAETH CYLLID A THRYSORLYS** | • Dealltwriaeth o faterion ariannol<br>• Gosodiad Cyllided, ayyb. | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog Adran 151 / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DELIO GYDA'R WASG** | • Sesiwn ymarferol sy'n darparu Aelodau Etholedig gyda profiad o cynnal cyfweliadau radio a theledu<br>• Siawns i Aelodau gael ffug-gyfweliadau ac ymarfer | Cyflwyniad â cyfweliadau-ffug, a copïau i gadw<br>(wyneb i wyneb)<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

Tudalen 29

| | TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | | |
| | **YMWYBYDDIAETH DIWYLLIANOL SIPSIWN A THEITHWYR** | • Hyfforddiant Rhagarweiniol ar weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru | Cyflwyniad â gweithgaredd (wyneb-i-wyneb)<br><br>Tai/Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **SESIYNAU BRIFFIO** | • Materion Pwnc Perthnasol a Chyfredol yn cael eu cyflwyno a'u trafod | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **Iechyd a Llesiant** | | | | |
| Tudalen 30 | **DIOGELWCH PERSONOL / DELIO Â SEFYLLFEYDD ANODD** | • Trosolwg o sgiliau a thechnegau gellid ei mabwysiadu i sicrhau diogelwch personol, ac i allu delio â sefyllfaoedd heriol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **IECHYD A LLEISIANT –** *CYFFREDINOL AC YMWYBYDDIAETH* | • Darparu dealltwriaeth o:<br>- Hydwythdedd<br>- Cydbwysedd bywyd gwaith<br>- Rheoli Straen<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | Modiwlau e-Ddysgu ar gael<br><br>Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **YMWYBYDDIAETH MENOPOS** | • Trosolwg i'r rhai sy'n profi Menopos neu'n dymuno codi eu hymwybyddiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **YMWYBYDDIAETH OFALGAR** | • Sesiynau byr i drafod effaith straen ar y corff ac awgrymiadau ymlacio | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| | TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ar Gais** | | | | |
| | **SGILIAU DATBLYGU TGCH** | • Sesiynau galw-heibio / Un-i-Un<br>• Cynorthwyo â Sgiliau TGCH / Meddalwedd penodol | Wyneb-i-wyneb<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | • Deall sut i wneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Aelodau Etholedig;<br>• Beth i'w rannu a'i beidio;<br>• Sut i beidio ymddwyn ar Gyfryngau Cymdeithasol;<br>• Elfennau Bwlio a Diogelwch Personol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| Tudalen 31 | **CRAFFU** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Craffu<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion Craffu effeithiol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | All Elected Members |
| | **ARCHWILIAD** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Archwiliad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol / Allanol | Holl Aelodau Etholedig |

## MODIWLAU E-DYSGU

*Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at E-Ddysgu.  Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael.*

| Modiwlau Hanfodol | Datblygu Aelodau | Iaith Cymraeg |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth Seibr **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Cynllunio at Argyfwng i Aelodau **(gloywi i'w gytuno ar)**<br>- Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol<br>- Atal **(i'w hadnewyddu yn ôl yr angen)**<br>- Caethwasiaeth Modern **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)** | - Moeseg a Safonau<br>- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br>- Craffu Effeithiol<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | - Safonau'r Cymraeg<br>- Cymraeg yn y Gweithle (1)<br>- Cymraeg yn y Gweithle (2) |
| **Llesiant** | **Iechyd a Diogelwch** | **Cyrsiau Corfforaethol** |
| - Iechyd a Lles yn yr Awdurdod | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel - Asesiad Gweithle | - *Y Gronfa Ddysgu: Bwcio ar-lein* |

**Gellir defnyddio nifer o'r modiwlau e-Ddysgu: i ategu sesiynau dosbarth/*hybrid* a gynhelir; fel modiwlau adnewyddu yn ôl yr angen; eu defnyddio fel darpariaeth Datblygiad Personol ychwanegol i Aelodau.**

**Noder fod y cynllun hon yn un esblygiadol, ac felly mae'n debygol bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni unrhyw newidiadau mewn anghenion/blaenoriaethau. Pe bae amgylchiadau annisgwyl tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosib bydd angen diwygio rhai o'r dyddiadau/amseroedd nodir uchod.**

**Bydd manylion y sesiynau hyfforddiant yn cael ei anfon i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (yn ôl yr angen) fel ffurf e-bost/apwyntiad calendr.**
**Rhoddir o leiaf 7 diwrnod o rybudd, lle'n ymarferol bosib, drwy CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru**

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig yn 2023**

**Training and Development offered to Elected Members in 2023**

| Teitl y Cwrs | Fynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **4** | **20** | **Health & Safety for Members** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | | | **Anti Racism** |
| **Gwrth-Hiliaeth** | **9** | **35** | **Anti Racism** |
| **Grwp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)** | **9** | **35** | **GROUP 6 – STRENGTHENING LEADERSHIP (VAWDASV)** |
| **Rhentu Doeth Cymru** | **2** | **10** | **Rent Smart Wales** |
| **Grwp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)** | **7** | **19** | **GROUP 6 – STRENGTHENING LEADERSHIP (VAWDASV)** |
| **Hyfforddiant Cynllunio i Aelodau** | **26** | **35** | **Planning Training for Elected Members** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **9** | **8** | **Health and Safety for Members** |
| **Diogelu Data** | **6** | **4** | **Data Protection** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

**1. CYFLWYNIAD**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

**2. DIWEDDARIAD**

2.1 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 5.**

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 yn 2024/2025, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned, wedi' gynnwys yn **Atodiad 6.**

## 3. CYNGHORWYR SIR

3.1 Ar hyn o bryd mae un achos yn cael ei ymchwilio gan OGCC mewn perthynas â un Chynghorydd Sir a dderbyniwyd yn Chwefror 2024. Mae achos arall sy'n ymwneud â Chynghorydd Sir gwahanol, anfonwyd at OGCC yn Awst 2023, wedi cael ei ymchwilio gan OGCC a'i anfon at y Pwyllgor Safonau.

## 4. CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

4.1 Ar hyn o'r bryd mae un achos yn cael ei ymchwilio gan yr OGCC mewn perthynas â Chynghorydd Cymuned. Cafodd ei dderbyn yn Ionawr 2024.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1 – 6**.

## ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| 1 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 1 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. |
| 2 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 1 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |
| 3 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 2 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. |
| 4 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 2 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |
| 5 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 3 yn 2024/2025 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir. |
| 6 | Adroddiad ar gwynion ar gyfer Chwarter 3 yn 2024/2025 mewn perthynas â Cynghorwyr Tref a Chymuned. |

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 1 ( Ebrill – Mehefin 2024 ) – 2024/2025 – Quarter 1 ( April – June 2024 )**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn ymchwilio'r gŵyn /<br>O is investigating the complaint |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2024) – 2024/2025 – Quarter 1 (April – June 2024)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

**ATODIAD / ENCLOSURE 3**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi 2024) – 2024/2025 – Quarter 2 (July - September 2024)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | 26152<br>202402403 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 23.08.2024 | O wedi penderfynu na ddylid ymchwilio'r gŵyn ond atgoffwyd yr Aelod o'r angen iddynt ddatgan diddordebau o dan y Cod Ymddygiad. /<br>O decided not to investigate the complaint but reminded the Member of their obligation under the Code of Conduct in relation to the necessity of declaring interests. |

**ATODIAD / ENCLOSURE 4**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi 2024) – 2024/2025 – Quarter 2 (July - September 2024)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn /<br>O is continuing to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned B / Community Council B | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | 026070<br>202402935 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 30.07.2024 | O wedi penderfynu na ddylid ymchwilio'r gŵyn /<br>O decided that the complaint should not be investigated |



CC-019837-MY/815317

## ATODIAD / ENCLOSURE 5

### CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

### UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2024) – 2024/2025 – Quarter 3 (October – December 2024)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 024922<br>202302251 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 09.08.2023 | O wedi cyfeirio'r mater at sylw'r Pwyllgor Safonau / O has referred the matter for the attention of the Standards Committee |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | 26135<br>202404860 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 03.12.2024 | O wedi penderfynu na ddylid ymchwilio'r gŵyn /<br>O decided that the complaint should not be investigated |

**ATODIAD / ENCLOSURE 6**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2024) – 2024/2025 – Quarter 3 (October – December 2024)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned A / Community Council A | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | 025514<br>202307045 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 07.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor<br><br>Cyngor Cymuned C / Community Council C | Aelod o'r cyhoedd / member of the public | 26455<br>202406006 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 05.12.2024 | O wedi penderfynu na ddylid ymchwilio'r gŵyn / O decided that the complaint should not be investigated |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Canfyddiadau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer holl Gynghorau Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor am ganfyddiadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ei gwefan ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2024 a 31 Rhagfyr 2024.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Mehefin 2024 i Ragfyr 2024 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig **(ATODIAD 1)**.

## 2. NEWYDDLEN CHWARTEROL

Yn ogystal â'r wybodaeth ar y wefan, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi newyddlenni chwarterol. Mae pumed newyddlen chwarterol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [Ebrill – Hydref 2024] (dyddiedig Tachwedd 2024) i'w gweld yma.

## 3. CEFNDIR

Mae OGCC yn arfer pwerau "sifft gyntaf" o dan Adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCC yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu ei brawf trothwy i benderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. O dan y prawf trothwy rhaid i OGCC fod yn fodlon:

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol iddo fod er budd y cyhoedd i ymchwiliad gael ei agor.

Pan agorir ymchwiliad, gall OGCC ddod i un o bedwar canfyddiad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(1) Nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(2) Nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(3) Cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod i'w ystyried gan y pwyllgor safonau; neu

(4) Cyfeirio'r mater at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad gan dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (3) neu (4) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei hadroddiad i’r pwyllgor safonau lleol neu i Banel Dyfarnu Cymru (PDC), a lle’r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad i ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a gafodd y cod ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Nid oes gan bwyllgorau safonau bwerau anghymhwyso, a lle canfyddir bod y cod ymddygiad wedi cael ei dorri, byddant yn ceisio rhoi cosb sy’n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu’n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso am hyd at 5 mlynedd.

## 4. ARGYMHELLIAD

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau’n arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddiad arnynt yn **ATODIAD 1**.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd rhwng Mehefin 2024 a Rhagfyr 2024, mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig. |

**ATODIAD 1**

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13/06/2024 | Cyngor Tref y Waun | 202107304 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref y Waun – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir. |
| 17/06/2024 | Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 202201997 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad i Banel Dyfarnu Cymru. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 04/09/2024 | Cyngor Cymuned Llanedi | 202204452 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Cyngor Cymuned Llanedi – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim angen gweithredu | Canfu'r Ombwdsmon fod ymddygiad yr Aelod yn awgrymu torri'r Cod. Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod yr Aelod wedi rhoi argraff wael o'r Cyngor yn ystod y digwyddiad hwn.<br><br>Derbyniodd yr Aelod fod ei weithredoedd yn annoeth ac mae wedi ystyried sut mae ei iaith yn effeithio ar eraill. Ar ôl pwyso a mesur, o ystyried y myfyrio ar ran yr Aelod, penderfyniad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau yng nghyswllt y materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 26/09/2024 | Cyngor Tref Porthcawl/Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 202307279/<br><br>202307319 | Datgan a chofrestru buddiannau : Cyngor Tref Porthcawl / Cyngor | Datgan a chofrestru diddordebau | Dim angen gweithredu | Cydnabu'r Aelod fod ganddo fuddiant personol ym mhob un o'r eitemau agenda a ystyriwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Roedd yr aelod hefyd i'w weld yn deall yr angen i ddatgan buddiant a |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | | gwnaeth hynny ar gyfer pob un ond 1 o'r eitemau. Mae'r Aelod yn derbyn y dylai fod wedi datgan buddiant ar gyfer yr eitem honno. Eglurodd y gallai materion personol hefyd fod wedi effeithio ar ei farn y tro hwnnw.<br><br>O ystyried effaith gyfyngedig gweithredoedd yr Aelod ar y materion dan sylw, ei fod wedi myfyrio ar hyn ac nad oes unrhyw ffactorau gwaethygol amlwg, nid yw'r Ombwdsmon o'r farn bod cymryd unrhyw gamau pellach er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn argymell bod y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref yn trefnu hyfforddiant i'r aelod ar y Cod, yn enwedig mewn perthynas â buddiannau personol a buddiant sy'n rhagfarnu, cyn gynted â phosibl. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 26/09/2024 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/Cyngor Tref Porthcawl | 202307277/<br><br>202307318 | Datgan a chofrestru buddiannau : Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/Cyngor Tref Porthcawl – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Datgelu a chofrestru buddiannau | Dim angen gweithredu | Yn ystod yr ymchwiliad, cydnabu'r Aelod fod ganddi fuddiant personol ym mhob un o'r eitemau a ystyriwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Roedd hi hefyd i'w gweld yn deall yr angen i ddatgan buddiant personol a gwnaeth hynny ar gyfer pob un ond 1 o'r eitemau. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth y gallai fod angen datgan buddiant sy'n rhagfarnu hefyd. Datganodd yr Aelod fwriad i geisio arweiniad pellach.<br><br>O ystyried effaith gyfyngedig gweithredoedd yr Aelod ar y materion dan sylw, ei bod wedi myfyrio ar hyn ac nad oes unrhyw ffactorau gwaethygol amlwg, nid yw'r Ombwdsmon o'r farn bod cymryd unrhyw gamau pellach er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Ombwdsmon yn argymell |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | bod y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref yn trefnu hyfforddiant i'r aelod ar y Cod, yn enwedig mewn perthynas â buddiannau personol a buddiant sy'n rhagfarnu, cyn gynted â phosibl. |
| 08/10/2024 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 202304595 | Datgelu a Chofrestru buddiannau : Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Datgelu a chofrestru buddiannau | Dim angen gweithredu | Derbyniodd yr Aelod, o edrych yn ôl, fod ganddi fuddiant yn y mater a'i bod wedi cymryd camau unioni i sicrhau ei bod yn deall gofynion y Cod ac yn cymhwyso buddiannau'n briodol yn y dyfodol. Mae hyn yn dangos ei hymrwymiad i gadw at ofynion y Cod a dylai atal digwyddiad tebyg yn y dyfodol. Nodwyd hefyd bod yr Aelod wedi cydweithredu'n llawn â'r ymchwiliad. Am y rhesymau hyn, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd cyfeirio'r mater hwn at y Pwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd, gan |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | nad oedd sancsiwn yn debygol o gael ei roi.  Canfyddiad yr Ombwdsmon felly oedd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 10/10/2024 | Cyngor Sir y Fflint | 202309367 | Uniondeb : Cyngor Sir y Fflint – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Uniondeb | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Mae hyder y cyhoedd yn niduеddrwydd ac uniondeb penderfyniadau cyngor yn cael ei danseilio'n ddifrifol os oes unrhyw ymddangosiad o ddylanwad allanol.  Yn unol â pharagraff 9(b) o'r Cod ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol, bu'n rhaid "osgoi" derbyn y cynnig rhodd, o ystyried ei faint ariannol sylweddol a'r ymddangosiad o gymhellion personol i ymgeiswyr, oherwydd ei fod yn ymddangos fel pe bai'n gosod aelodau o dan rwymedigaeth amhriodol. |

| Dyddiad | Enw’r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i’r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i’w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Canfu’r Ombwdsmon nad oedd unrhyw rodd wedi’i roi na’i derbyn yn y pen draw, ac nad oedd unrhyw gamau wedi’u cymryd gan y Comisiwn Etholiadol na’r Heddlu. Nid oedd yr Ombwdsmon o’r farn bod y dystiolaeth yn dangos bod yr Aelod wedi annog derbyn y cynnig, ac ar ôl ystyried yn ofalus, ni chanfuom fod y dystiolaeth yn awgrymu bod yr Aelod wedi torri’r Cod o gwbl. Fodd bynnag, rhoddwyd cyngor i’r Aelod gan bwysleisio bod yn rhaid iddo fod yn ofalus iawn i osgoi unrhyw ymddangosiad o ddylanwad neu ragfarn ormodol o ystyried pa mor niweidiol y gall hyn fod i hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Dywedwyd hefyd wrth yr Aelod y dylai ymgymryd â hyfforddiant pellach ar y Cod. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15/10/2024 | Cyngor Dinas Casnewydd | 202305<br><br>968 | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch : Cyngor Dinas Casnewydd – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Canfu'r Ombwdsmon, er bod yr Aelod wedi defnyddio ei deitl o "Gynghorydd" wrth gyflwyno'i gŵyn, y byddai statws yr Aelod fel cynghorydd wedi bod yn glir gan y byddai'n rhaid iddo ddogfennu pam ei fod yn dewis gwneud y gŵyn.<br><br>Dywedodd y Cyflogwr na roddwyd unrhyw bwys ar rôl yr Aelod pan ymchwiliodd i'w gŵyn. O ystyried bod sylwedd ei gŵyn yn canolbwyntio ar sylwadau'r Achwynydd amdano, yng nghyd-destun ei rôl fel aelod etholedig, byddai wedi bod yn amlwg ei fod yn gynghorydd, hyd yn oed pe na bai'r teitl wedi'i ddefnyddio.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod o dan Adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth |

| **Dyddiad** | **Enw'r Cyngor** | **Cyfeirnod yr Achos** | **Dolenni i'r achos ar wefan OGCC** | **Math o Adroddiad - Pwnc** | **Math o Adroddiad - Canlyniad** | **Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi:** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. |
| 16/10/2024 | Cyngor Cymuned Llanusyllt a Chyngor Sir Benfro | 202402416/<br><br>202402419 | Uniondeb : Cyngor Cymuned Llanusyllt a Chyngor Sir Benfro – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Uniondeb | Rhoddwyd y gorau i'r achos | Yn fuan ar ôl cychwyn yr ymchwiliad, hysbyswyd yr Ombwdsmon gan yr Achwynydd ei bod yn dymuno tynnu ei chwyn yn ôl. Wrth benderfynu a fyddai parhau gyda'r ymchwiliad er budd y cyhoedd, ystyriwyd nifer o ffactorau, yn benodol dymuniadau'r achwynydd, nad oedd yr unigolyn ei hun wedi cwyno ac nad oedd unrhyw bryderon wedi'u codi gan unrhyw aelod perthnasol o staff y Cyngor Sir neu'r cyhoedd ehangach.<br><br>Ystyriwyd na fyddai ymchwilio ymhellach i'r mater yn gymesur nac er budd y cyhoedd a phenderfynwyd terfynu'r ymchwiliad. |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22/10/2024 | Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau | 202206450 | Uniondeb : Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Uniondeb | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod tystiolaeth o fethiant yn y cyfathrebu a'r berthynas rhwng yr Achwynydd a'r Aelod. Roedd yn ymddangos na cheisiodd yr Aelod ddatrys y materion na gweithio gyda'r Achwynydd i alluogi trosglwyddiad esmwyth i lofnodwyr newydd ar gyfer cyfrif banc y Cyngor. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y gallai'r mater fod wedi cael ei drin mewn modd mwy cynhyrchiol.<br><br>Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon, o dan Adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, nad oedd tystiolaeth bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod.<br><br>Er mwyn osgoi cynnydd tebyg o ran materion yn y dyfodol, awgrymodd yr Ombwdsmon y |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gellid ceisio cyngor gan y Swyddogion Monitro ac y dylid mynd i'r afael â phryderon trwy'r sianelau a'r gweithdrefnau lleol priodol. |
| 22/10/2024 | Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau | 202206449 | Uniondeb : Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Uniondeb | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon fod tystiolaeth o fethiant yn y cyfathrebu a'r berthynas rhwng yr Achwynydd a'r Aelod. Roedd yn ymddangos na cheisiodd yr Aelod ddatrys y materion na gweithio gyda'r Achwynydd i alluogi trosglwyddiad esmwyth i lofnodwyr newydd ar gyfer cyfrif banc y Cyngor. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y gallai'r mater fod wedi cael ei drin mewn modd mwy cynhyrchiol.<br><br>Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon, o dan Adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, nad oedd tystiolaeth |

| Dyddiad | Enw'r Cyngor | Cyfeirnod yr Achos | Dolenni i'r achos ar wefan OGCC | Math o Adroddiad - Pwnc | Math o Adroddiad - Canlyniad | Sylwadau / Pwyntiau i'w nodi: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod.<br><br>Er mwyn osgoi cynnydd tebyg o ran materion yn y dyfodol, awgrymodd yr Ombwdsmon y gellid ceisio cyngor gan y Swyddogion Monitro ac y dylid mynd i'r afael â phryderon trwy'r sianelau a'r gweithdrefnau lleol priodol. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **I ddarparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ac a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ar 18 Mehefin 2024 hyd nes 31 Rhagfyr 2024.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /**<br>**Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae ganddo ddwy swyddogaeth statudol:

1. I ffurfio tribiwnlysoedd, neu tribiwnlysoedd achos dros dro, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) yn dilyn ymchwiliadau gan y PSOW i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio gyda chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod, eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a rhoddir caniatâd i apelio yn yr achos cyntaf)

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 18 Mehefin, 2024 hyd nes 31 Rhagfyr 2024. Y bwriad yw ei fod yn grynodeb gwirioneddol o'r materion y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch gan PDC. Mae'r achosion yr adroddwyd amdanynt ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael, ar hyn o bryd, ar wefan PDC.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o’r achosion perthnasol wedi’i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

Penderfyniadau a wnaed:

- APW/006/2023-024/CT: Cyn-Cynghorydd Steve Davies
- APW/007/2023-024/CT: Cyn-Cynghorydd Jeff Davies

## 3. ARGYMHELLIAD

I nodi cynnwys y crynodebau achos.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o’r achosion a gyhoeddwyd ar wefan Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng Mehefin 2024 – Rhagfyr 2024. |

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o'r Achosion a gyflwynwyd i Banel Dyfarnu Cymru – Mehefin 2024 – Rhagfyr 2024**

| **Dolen i'r achosion** | **Enw** | **Awdurdod Perthnasol** | **Natur yr honiad** | **Dyddiad** | **Penderfyniad y tribiwnlys** | **Pwyntiau o ddiddordeb:** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| APW/007/2023-024/CT: Cyn-Cynghorydd Jeff Davies | Cyn-cynghorydd Jeff Davies | Cyngor Tref Cei Newydd | Torri paragraff 6(1)(a)<br><br>6(1)(a) – Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod. | Dyddiad y gwrandawiad, 3 Gorffennaf, 2024, drwy dechnoleg mynychu o bell. | Torri paragraff 6(1)(a).<br><br>Wedi ei atal am 12 mis: *"Roedd Tribiwnlys yr Achos o'r farn y dylid gwahardd yr Ymatebydd am gyfnod, er mwyn myfyrio ar ei anallu i gydnabod yr effaith ddifrifol a gafodd ei ymddygiad ar yr unigolyn oedd yn derbyn ei negeseuon, a'r effaith ragweladwy ehangach y byddai hyn wedi'i* | Nododd Tribiwnlys yr Achos fod yr Ymatebydd wedi derbyn ei fod wedi bod ynghlwm ag ymddygiad droseddol drwy dderbyn rhybudd amodol. Nododd Tribiwnlys yr Achos fod nifer o ffactorau gwaethygol yn yr achos hwn, gan gynnwys nad oedd yr Ymatebydd yn deall nac yn cymryd cyfrifoldeb dros ei gamymddwyn ac unrhyw oblygiadau.<br><br>Er ei fod wedi dangos ychydig o edifeirwch mewn perthynas â'r ymddygiad ar brydiau, roedd yn amlwg nad oedd yn sylweddoli gwir ddifrifoldeb yr ymddygiad droseddol a'r effaith roedd hyn yn ei gael ar yr unigolyn, a'r effaith debygol y byddai ei ymddygiad yn ei gael ar yr Awdurdod perthnasol. Nid oedd ei ymddiheuriad i'r |

| Dolen i'r achosion | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | *gael ar ei rôl, a'r Cyngor."* | dioddefwr yn ddifuant, gan ei fod wedi ymddiheuro dros y ffôn am y ffordd roedd y dioddefwr yn teimlo, ac nid yr ymddygiad ei hun.<br><br>Gwnaeth Tribiwnlys yr Achos hefyd ystyried bod yr Ymatebydd wedi anwybyddu cyngor, hyfforddiant a rhybuddion mewn perthynas ag ymddygiad. Dywedodd Tribiwnlys yr Achos fod yr Ymatebydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn fuan cyn iddo gytuno i lynu wrth y Cod ym mis Gorffennaf 2022, a'i fod wedi derbyn cyngor cyffredinol am ymddygiad a'r Cod gan y Swyddog Monitro yn ystod Awst 2022, a hynny mewn perthynas ag achos ar wahân. Er hyn, aeth ymlaen i anfon neges e-bost at y derbynnydd ym mis Medi 2022.<br><br>Roedd Tribiwnlys yr Achos o'r farn bod yr Ymatebydd hefyd wedi dangos patrwm o ymddygiad, a |

| Dolen i’r achosion | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | hynny am ei fod wedi penderfynu ail ymwneud â’r dioddefwr drwy anfon neges e-bost pellach ym mis Medi 2022 yn cyfeirio at sï (*rumour*). Yna, ym mis Chwefror 2023, cysylltodd â swyddfa’r dioddefwr a siarad â’i dad gan esgeuluso’r effaith debygol ar y dioddefwr.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, roedd Tribiwnlys yr Achos yn fodlon fod natur yr ymddygiad ei hun yn nodwedd waethygol. Drwy anfon negeseuon o natur rywiol diamwys, a ddengys eu bod yn aflonyddu ac yn ymgais i flacmelio’r derbynnydd yn ôl y rheiny yr effeithiwyd arnynt, roedd yr Ymatebydd wedi bod ynghlwm â’r hyn y gellid ei ystyried fel ymddygiad troseddol annifyr a bygythiol. |

| Dolen i'r achosion | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| APW/006/2023-024/CT: Cyn-Cynghorydd Steve Davies | Cyn-Cynghorydd Steve Davies | Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 7(a).<br><br>4(b) - Rhaid i Aelodau ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt.<br><br>4(c) – Ni ddylai Aelodau ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson<br><br>6(1)(a) – Rhaid i Aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu | Pennwyd drwy gynrychiolaethau ysgrifenedig mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Awst 2024 drwy fideo-gynadledda o bell. | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a).<br><br>Heb weithredu'n groes i baragraff 7(a).<br><br>Gwahardd am 3 mlynedd. | Mae sawl disgrifiad o ymddygiad yr Ymatebydd wedi'i ddefnyddio yn y dystiolaeth; annifyr, plagio a/neu stelcio. Yn nyfarniad Tribiwnlys yr Achos, ystyriwyd bod ymddygiad yr Ymatebydd yn rheibus. Roedd yn cymryd mantais ar y rheiny lle roedd yn tybio y byddai'n anhebygol iddynt godi pryder; y rheiny a oedd yn unig a/neu yn gaeth i'r tŷ, neu'r rheiny oedd yn sylweddol iau nag ef.<br><br>Roedd Tribiwnlys yr Achos o'r farn bod y ffactorau gwaethygol canlynol yn bresennol;<br><br>(1) Profiad helaeth yr Ymatebydd fel cynghorydd;<br>(2) Y ffaith nad oedd ei ymddygiad yn anghyfarwydd. Roedd wedi creu patrwm o ymddygiad o'r fath dros nifer o fisoedd, yn cynnwys unigolion gwahanol; |



CC-22335/844996 (844421)

| Dolen i'r achosion | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar eu hawdurdod.<br><br>7(a) – Yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, ni ddylai Aelodau ddefnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddynt eu hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais iddynt eu hunain neu i unrhyw berson arall; | | | (3) Nid oedd yr ymddygiad yn ddiofal ac ni wnaed unrhyw beth yn ddifyfyr; roedd yn fwriadol, wedi'i gynllunio gyda'r bwriad o fynnu cyswllt a/neu berthnasau;<br>(4) Achoswyd gofid i ambell unigolyn a mwy o drallod a brys i eraill;<br>(5) Roedd anghydbwysedd mewn pŵer, oherwydd ei rôl ac, mewn rhai achosion, y gwahaniaethau oed rhyngddo ef a'r rheiny oedd yn destun ei ymddygiad annerbyniol (Digwyddiadau 3 a 7);<br>(6) Roedd yn dangos diffyg mewnwelediad. Yn ystod cyfweliadau gyda'r Swyddogion Monitro a Diogelu, ac eraill, nid oedd yn gwerthfawrogi bod ei ymddygiad wedi bod yn bryderus ac wedi peri gofid. Yn hytrach, ceisiodd ei leihau; |

| Dolen i’r achosion | Enw | Awdurdod Perthnasol | Natur yr honiad | Dyddiad | Penderfyniad y tribiwnlys | Pwyntiau o ddiddordeb: |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | (7) Methodd a newid ei ymddygiad er bod y dioddefwyr, personau cysylltiedig â nhw (Digwyddiadau 1, 3 a 7), y Swyddog Monitro a’r Heddlu wedi gofyn iddo wneud hynny (Digwyddiad 7);<br>(8) Ei amharodrwydd i fynychu hyfforddiant, fel ag addawyd.<br><br>Aeth y Tribiwnlys ati i ystyried y ffactorau lliniarol canlynol;<br><br>(1) Ei hanes blaenorol o wasanaeth da, fel y cadarnhawyd gan OGCC a Chyngor Sir Ceredigion;<br>(2) Y ffaith ei fod wedi cydymffurfio gyda’r Ombwdsmon mewn perthynas â’r ymchwiliad. |

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel uchod** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol wedi'i sefydlu yng Nghymru, o ganlyniad i'r argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Penn ar y Drefn Foesegol yng Nghymru.

1.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

## 2. CYFARFODYDD FFORWM

2.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, mae dau gyfarfod o'r Fforwm wedi eu cynnal. Mr Trefor Owen fynychodd y cyfarfod ar 24 Mehefin 2024, yn ei rôl fel Is-gadeirydd ar y pryd (gall dirprwy fynychu yn absenoldeb y Cadeirydd). Mynychodd Mr Owen y cyfarfod ar 27 Ionawr 2025 yn ei rôl fel Cadeirydd.

2.2 Rhannwyd nodiadau'r Is-Gadeirydd o gyfarfod y Fforwm ym mis Mehefin 2024 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 28 Mehefin 2024.

2.3 Gwneir trefniadau i rannu nodiadau'r Cadeirydd o gyfarfod 27 Ionawr 2025 gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau.

2.4 Mae cyfarfod nesaf y Fforwm wedi'i drefnu ar 23 Mehefin 2025.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Mae'r Fforwm wedi cytuno, mewn perthynas â nodiadau'r Fforwm - *"gall y nodiadau gael eu dosbarthu i Bwyllgorau Safonau, ar yr amod na ellid adnabod unrhyw achwynydd neu gynghorydd unigol y cwynwyd amdano. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn/ar ôl pob cyfarfod."*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 I'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad gan y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig o'r Cyngor Sir** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu adborth ar y canfyddiadau a wnaed yn ystod yr ymarfer hwn** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Adroddwyd ar y broses a ddilynwyd gan y Pwyllgor Safonau er mwyn cynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig y Cyngor Sir i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol ar 18 Mehefin 2024. Gellir gweld copi o'r adroddiad yma.

1.2 Cytunwyd yn y cyfarfod uchod y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Safonau i

(a) Rannu copi o'r adroddiad cyffredinol, gan gynnwys y prif themâu sy'n codi o'r broses adolygu, fel y'i hanfonwyd at yr holl aelodau yn dilyn trafodaeth gychwynnol gydag Arweinwyr Grŵp;

ac i

(b) adrodd ar y datblygiadau a wnaed, yn enwedig o ran y materion corfforaethol / technegol a godwyd gyda'r Prif Weithredwr.

## 2. ADRODDIAD CYFFREDINOL

2.1 Paratowyd a rhannwyd adroddiad cyffredinol gydag Arweinwyr Grŵp gan Gadeirydd y Pwyllgorau Safonau ar 18/07/2024

2.2 Dosbarthwyd yr ohebiaeth a gyflwynwyd i'r Arweinyddion Grwpiau gyda holl Aelodau'r Cyngor Sir ar 01/08/2024. Mae copi o'r ohebiaeth honno wedi'i chynnwys yn **Atodiad 1** i'r adroddiad.

## 3. MATERION CORFFORAETHOL / TECHNEGOL

3.1 Anfonwyd gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Prif Weithredwr ar 31/05/2024 yn manylu ar y materion corfforaethol / technegol a nodwyd gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau wrth gynnal adolygiad o'r Cofrestrau Buddiannau.

3.2 Ymatebodd y Prif Weithredwr at Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar 17/07/2024 yn cadarnhau y byddai'r materion a godwyd yn cael eu hystyried gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a byddai cynllun gweithredu yn cael ei lunio.

3.3 Rhannwyd gohebiaeth bellach gan y Prif Weithredwr ar 14/10/2024 yn manylu ar y materion a godwyd gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau, a'r gwaith sydd wedi ei wneud mewn perthynas â'r materion hynny. Mae copi o'r cynllun gweithredu yn cael ei gynnwys yn **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 I'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau a phenderfynu os yw am weithredu ymhellach ynghylch y mater hwn.

**BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**DIRECTOR OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 751851
E-Bost – E-mail: treforowen@ynysmon.llyw.cymru

**Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn /**
**Isle of Anglesey County Council Members**

**Drwy ebost yn unig / By email only**

Ein Cyf – Our Ref. 022335
Eich Cyf – Your Ref. Pwyllgor Safonau

01/08/2024

Annwyl Aelod,

Un o weithredoedd y Pwyllgor Safonau o fewn ei raglen waith flynyddol ar gyfer 2023-2024 oedd cynnal adolygiad o'r tair Cofrestr mewn perthynas â datganiadau o ddiddordebau gan Aelodau. Penderfynwyd mai Cofrestrau sampl o Aelodau fyddai'n destun adolygiad, ar sail cydbwysedd gwleidyddol, gyda'r enwau'n cael eu dewis ar hap. Cwblhaodd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau adolygiad o Gofrestrau 20 o Aelodau'r Cyngor Sir, yn cynnwys pob Arweinydd Grwp, yn ystod Ionawr 2024.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n credu mai ei rôl yw cynorthwyo Aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau ac mae'n dda gennyf ddweud bod yr adolygiad diweddaraf hwn yn galonogol ar y cyfan.

Yn atodol, mae **adroddiad cyffredinol** sydd wedi ei pharatoi ac a rennir gyda holl aelodau'r Cyngor er mwyn darparu adborth ar y themâu cyffredinol a godwyd yn ystod yr ymarferiad a gobeithir y bydd yn cynnig canllaw ynghylch beth sy'n cael ei ystyried yn arferion da a'r materion hynny sydd angen sylw. Rhannwyd yr adroddiad yma gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn y man cyntaf.

Mae'r ohebiaeth yma'n hirach na'r hyn â fyddem yn dymuno ei rannu, ond mae'n deg a chywir ein bod yn rhannu ein canfyddiadau'n llawn gyda chi.

Yn ogystal â'r adroddiad cyffredinol yma,

- Mae rhai Aelodau a oedd yn destun adolygiad wedi derbyn gohebiaeth

Dear Member,

One action within the Standards Committee's annual work programme for 2023-2024 was to conduct a review of the three Registers relating to Members' declarations of interests. It was decided that a sample of Members' Registers would be included in the review, based on political balance, with their names selected at random. Independent members of the Standards Committee reviewed the Registers of 20 County Council Members, including each Group Leader, in January 2024.

The Standards Committee believes its role is to assist Members to comply with their duties, and I am pleased to report that this latest review was encouraging overall.

Attached is a **general report** that has been prepared and is being shared with all members of the Council to provide feedback on the general themes that were raised during the exercise, and we hope that this will provide guidance on good practice and the issues requiring attention. This report has been shared with Group Leaders in the first instance.

This correspondence is longer than what we would hope to share, but it is fair and right for us to share our findings fully with you.

In addition to this general report,

– Some Members subject to the review have received personal correspondence

bersonol gan y Pwyllgor Safonau gydag argymhellion ar gyfer adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth a gyhoeddir o fewn eu Cofrestr Sefydlog a/neu Datganiadau mewn Cyfarfodydd. Yn y llythyrau, rydym wedi gofyn am ymatebion. Lle na dderbynir ymatebion, bydd y Pwyllgor yn codi'r mater gyda'r Arweinyddion Grwp perthnasol.

- Mewn achosion pan fo gan y Pwyllgor Safonau gonsyrn am lesiant aelod, er enghraifft os oes newid mewn patrwm presenoldeb, mae gohebiaeth wedi ei hanfon at Arweinydd Grwp yr aelod er mwyn sicrhau bod yr Aelod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i'w hwyluso i ymgymryd â'u dyletswyddau fel Aelod. Mae gofyn am ymateb at y Pwyllgor Safonau o fewn y llythyrau hyn hefyd.
- Mae nifer o faterion sydd wedi eu codi yn faterion lle bod diffygion corfforaethol wedi eu hadnabod, er enghraifft materion technegol. Mae'r materion hyn wedi eu codi gyda'r Prif Weithredwr er mwyn iddynt dderbyn sylw gan y swyddogion perthnasol. Mae copi o'r ohebiaeth yma wedi ei rhannu efo'r Arweinyddion Grwpiau. Gwneir cyfeiriad at y materion hyn o fewn yr Atodiad. Darperir diweddariad i Arweinyddion Grwpiau ynghylch y materion hyn maes o law.

from the Standards Committee with recommendations to review / update / explain the information published within their Standing Register and/or Declarations at Meetings. In these letters, a response was requested. Where no response is received, the Committee will raise the issue with the relevant Group Leader.

– Where the Standards Committee had concerns regarding the wellbeing of a member, such as a change in their attendance pattern, correspondence was sent to the Group Leader to ensure the Member was receiving the necessary support to assist them with their duties. These letters also request a response to the Standards Committee.
– Several of the issues raised were due to corporate failures, for example technical issues. These issues have been raised with the Chief Executive so that they can be addressed by the relevant officers. A copy of this correspondence has been shared with the Group Leaders. References to these matters are included in the Appendix. An update will be provided to Group Leaders regarding these issues in due course.

Mae Nodyn Briffio ar ddiddordebau personol a rhagfarnol, a'r gofynion cofrestru, wedi ei gyhoeddi gan y Pwyllgor Safonau'n flaenorol. Mae copi ar gael ar Monitor drwy'r ddolen hon. Anogir aelodau i ystyried y nodyn briffio er mwyn eu cynorthwyo gyda gofynion y Cod ac mae'n darparu mwy o wybodaeth a dolenni ynghylch materion sy'n derbyn sylw yn yr ohebiaeth hon.

A Briefing Note on personal and prejudicial interests, and the registration requirements, has previously been published by the Standards Committee. A copy is available on Monitor via this link. Members are encouraged to consider the briefing note to assist them in complying with the Code and it also provides further information and links regarding the issues addressed in this correspondence.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n gwerthfawrogi eich bod chi i gyd yn brysur iawn ac yn ymwybodol mai dim ond un o nifer o dasgau y mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â nhw yw'r mater hwn. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd yr argymhellion atodol yn cynorthwyo i arbed amser i aelodau oherwydd gobeithir bydd gwella safon y Cofrestrau/ffurflenni yn osgoi beth allai fod yn gwynion di-sail sy'n draul ar amser pawb.

The Standards Committee appreciates that you are all very busy and is aware that this task is only one of a number that you must address. However, we hope that the attached recommendations will assist in saving time for Members as improving the standard of the Registers/forms will hopefully avoid what may be potentially groundless and time-consuming complaints.

Dymuna'r Pwyllgor Safonau gymryd y cyfle i ddiolch i chi fel Aelodau am eich cydweithrediad gyda'r Pwyllgor wrth iddo wireddu ei amcan o

The Standards Committee wishes to take the opportunity to thank you as Members for your co-

sicrhau bod lefelau ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cynnal ar gyfer y dyfodol.

Cofion,

*Trefor Owen*

Trefor Owen
Is-Gadeirydd - Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

operation with the Committee as it realises its objective of ensuring that the conduct levels of the Isle of Anglesey County Council's Members are maintained for the future.

Regards,

*Trefor Owen*

Trefor Owen
Vice Chair - Isle of Anglesey County Council's Standards Committee

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

| **Atodiad – Llythyr gan y Pwyllgor Safonau at yr Aelodau ynghylch Adolygiadau Cofrestrau statudol sampl o Aelodau – Mai 2024** | **Appendix – Letter from the Standards Committee to Members in relation to the Review of a sample of Members' statutory Registers – May 2024** |
|---|---|
| Pwrpas yr ohebiaeth hon ydi er mwyn darparu adborth i Aelodau am y themau a'r casgliadau cyffredinol a godwyd yn ystod yr ymarfer; a gobeithir y bydd yn cynnig canllaw i'r holl Aelodau ynghylch beth sy'n cael ei ystyried yn arferion da a'r materion hynny sydd angen sylw.<br><br>Roedd yr wybodaeth a adolygwyd gan y Pwyllgor Safonau fel rhan o'r ymarfer hwn yn cynnwys:<br>• Y Gofrestr Datgan Diddordeb (a elwir hefyd yn Gofrestr Sefydlog)<br>• Y Gofrestr Datganiadau mewn cyfarfodydd<br>• Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br>• Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau<br>• Rhaglenni a Chofnodion Cyfarfodydd<br>• Cofnod Hyfforddiant<br>• Bywgraffiadau fel y maent yn ymddangos ar wefan y Cyngor<br>• Rhestr Cyrff Allanol<br><br>Gwneir casgliadau cyffredinol / argymhellion y Pwyllgor yn dilyn yr Adolygiad eleni o dan y penawdau hyn:<br>**1. Cofrestr Datgan Diddordebau (Cofrestr Sefydlog Diddordebau Aelodau)**<br>**2. Cofrestr Datgan mewn Cyfarfodydd**<br>**3. Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**<br>**4. Adroddiadau Blynyddol Aelodau**<br>**5. Hyfforddiant**<br>**6. Adolygiadau Datblygiad Personol**<br>**7. Bywgraffiad**<br><br>Gofynna'r Pwyllgor i chi roi sylw dyladwy i'r materion hyn, os gwelwch yn dda.<br><br>**1. Cofrestr Datgan Diddordebau (Cofrestr Sefydlog Diddordebau Aelodau)**<br><br>Dyma'r Gofrestr o Ddiddordebau y mae'n rhaid i Aelodau ei chwblhau ar ôl eu penodi/gael eu hethol a'i diweddaru o fewn 28 diwrnod i unrhyw newid. Mae'r Cod Ymddygiad yn cynnwys rhestr o'r materion hynny y mae'n rhaid eu cynnwys ar n Gofrestr hon. Mae'r Gofrestr wedi ei chynnwys fel y "Gofrestr Datgan Diddordeb" ar dudalen bywgraffiad pob Cynghorydd ar wefan y Cyngor. | The purpose of this correspondence is to provide feedback to Members regarding the common conclusions and themes that arose during the exercise; and it is hoped that this will provide guidance to all Members regarding what is considered good practice and those issues requiring attention.<br><br>The information reviewed by the Standards Committee as part of this exercise included: -<br>• The Register of Interests (also called the Standing Register)<br>• Declarations at meetings Register<br>• Gifts & Hospitality Register<br>• Members' Annual Reports<br>• Meeting Agendas and Minutes<br>• Training records<br>• Biographies, as published on the Council's website<br>• List of Outside Bodies<br><br>The Committee's general findings / recommendations, made as a result of this year's Review, follow under these headings:<br>**1. Register of Interests (the Standing Register of Members' Interests)**<br>**2. Register of Declarations at Meetings**<br>**3. Register of Gifts and Hospitality**<br>**4. Members' Annual Reports**<br>**5. Training**<br>**6. Personal Development Reviews**<br>**7. Biography**<br><br>The Committee asks that you please give these matters your attention.<br><br>**1. Register of Interests (the Standing Register of Members' Interests)**<br><br>This is the Register of Interests that Members must complete on their appointment / election and update within 28 days of any change occurring. The Code of Conduct includes a list of those matters that must be included in this Register. The Register is included as the "Register of Interests" on each Councillor's biography page on the Council's website. |

| | |
|---|---|
| Yn y gorffennol, mae cwynion wedi cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) oherwydd nad oes digon o wybodaeth yn cael ei chynnwys ar Gofrestr Sefydlog rhai Aelodau. O'r herwydd, anogir Aelodau i gymryd y materion isod yn benodol i ystyriaeth er mwyn sicrhau bod eu Cofrestrau'n gyflawn a chywir: | In the past, complaints have been submitted to the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) due to a lack of information being included on the Standing Registers of some Members. Members are therefore encouraged to take note of the following issues, to ensure their Registers are complete and correct: |
| **1.** Sicrhau bod cyfeiriadau a daliadau tir wedi'u disgrifio'n glir ac yn gyflawn. Er nad oes rheidrwydd i Aelodau gyhoeddi eu cyfeiriad personol ar wefan y Cyngor, er enghraifft, mae'r ddyletswydd i gynnwys manylion am unrhyw eiddo sy'n berchen iddynt/mae ganddynt ddiddordeb ynddo yn parhau o dan ofynion y Côd Ymddygiad ac felly rhaid i Aelodau gynnwys manylion digonol ar y Gofrestr, oni bai bod y wybodaeth yn cael ei hystyried yn sensitif. Rhaid gwneud cais ar gyfer "gwybodaeth sensitif" gyda'r Swyddog Monitro.<br>Yn ychwanegol at hyn, os nad oes gan Aelod ddiddordeb mewn unrhyw dir, dylent nodi 'Dim' neu 'Dim Diddordebau' ar y gofrestr. | 1. Ensure that addresses and land holdings are clearly and fully described. Members do not have to publish their personal address on the Council's website, for example, however the Code of Conduct stipulates that they must provide details regarding the properties they own/have a personal interest in them and therefore they must include sufficient details on the Register, unless the information is sensitive. A request must be made to the Monitoring Officer regarding "sensitive information".<br>Additionally, if a Member has no interest in land they should enter 'None' or 'No Interest' on the Register. |
| 2. Mae'n bwysig bod Aelodau'n datgelu eu haelodaeth o gyrff cyhoeddus, elusennau a chymdeithasau cyhoeddus eraill. Dylai Aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y sefydliadau / elusennau y maent yn aelodau ohonynt. Dylai Aelodau hefyd adolygu eu Cofrestrau i wirio eu bod wedi cynnwys manylion am eu statws yn y sefydliadau hynny. | 2. It is important that Members disclose their membership of other public bodies, charities, and associations. Members should provide the full name and address of organisations/charities of which they are members. Members should review their Registers to check that they have included details of their role/status within any such organisations. |
| 3. Ble mae Aelodau'n datgan eu bod yn llywodraethwyr ysgol, dylid nodi enw'r ysgol ar y Gofrestr ac ym mha gapasiti y maent yn gwasanaethu, h.y. wedi eu penodi gan y Cyngor, rhiant-llywodraethwr ac ati. Y rheswm am hynny yw fod hyn yn effeithio ar hawl Aelodau i siarad/pleidleisio ar rai materion oherwydd efallai y bydd modd/na fydd modd dibynnu ar y caniatâd sydd wedi ei gynnwys yn y Côd Ymddygiad. | 3. Where Members state they are school governors, the Register should identify the school and in what capacity i.e. appointed by the Council / parent governor etc. The reason for this is because this affects Members' right to speak/vote on some matters as the inbuilt dispensation in the Code of Conduct may/may not be relied upon. |
| 4. Ble mae Aelodau wedi eu hethol neu eu cyfethol ar Gyngor Tref/Cymuned arall, | 4. Where Members are elected or co-opted onto another Town/Community Council, |

| | |
|---|---|
| dylid cynnwys aelodaeth y Cyngor hwn yn y Gofrestr Sefydlog. | membership of that Council should be included in the Standing Register. |
| 5. Atgoffir Aelodau o'r angen statudol i ddiweddaru'r Gofrestr Sefydlog o fewn 28 diwrnod i unrhyw newid. | 5. Members are reminded of the statutory requirement to update the Standing Register within 28 days of any changes occurring. |
| 6. Atgoffir Aelodau hefyd o'r angen statudol i ddiweddaru'r Gofrestr Sefydlog yn dilyn pob etholiad, hyd yn oed os nad yw'r wybodaeth yn newid. | 6. Members are also reminded of the statutory requirement to update the Standing Register following every election, even where the information is unchanged. |
| 7. Er nad yw'n ofyniad statudol, anogir Aelodau i adolygu eu Cofrestr Sefydlog yn flynyddol hyd yn oed os nad oes unrhyw newidiadau er mwyn diweddaru'r dyddiad (sy'n ymddangos ar-lein) ac sy'n dangos bod y Gofrestr yn cael ei hadolygu gan yr Aelod. | 7. Whilst not a statutory requirement, Members are encouraged to review their Standing Register annually even if there are no changes, to refresh the date (which appears online) and to demonstrate that the Register is being reviewed by the Member. |
| 8. Lle nad oes gan Aelod wybodaeth i'w nodi yn erbyn unrhyw gategori ar y Gofrestr Sefydlog, annogir yr Aelod i gynnwys "Dim" (neu "None" yn y Saesneg) er mwyn sicrhau eglurder, yn hytrach na bod y blwch yn wâg. | 8. If a Member has nothing to note against a particular category on the Standing Register, they are encouraged to state "None" (or "Dim" in Welsh) to ensure clarity, rather than leaving the space blank. |
| 9. Mae'r broses gyfredol â ddefnyddir ar gyfer cwblhau a diweddaru'r Gofrestr Sefydlog hon yn fater sydd wedi ei godi gan y Pwyllgor Safonau gyda swyddogion. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad ydi'r profiad a ddarperir i aelodau o ran mynediad at y Gofrestr hon yn werth chweil ar hyn o bryd. | 9. The current process used for completing and updating this Standing Register is an issue that has been raised by the Standards Committee with officers. The Committee considers that the experience provided to members in accessing this Register is not currently helpful. |
| **2. Cofrestr Datgan mewn Cyfarfodydd** | **2. Register of Declarations at Meeting** |
| Dyma'r Gofrestr o ddiddordebau personol a rhagfarnol a ddatgenir ar lafar mewn cyfarfodydd ac a gadarnheir yn ysgrifenedig gan Aelodau. Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi'r trothwy ar gyfer yr hyn â ystyrir yn fuddiannau personol a rhagfarnol, ac mae'r Cod hefyd yn nodi pryd a sut y mae'n rhaid gwneud datganiadau. Mae'r Gofrestr wedi'i chynnwys fel "Datganiadau mewn cyfarfodydd" ar dudalen bywgraffiad pob Cynghorydd ar wefan y Cyngor. | This is the Register of personal and prejudicial interests declared orally at meetings and confirmed in writing by Members. The Code of Conduct details the threshold for what is considered personal and prejudicial interests, and the Code also stipulates when and how declarations must be made. The Register is included as "Declarations at meetings" on each Councillor's biography page on the Council's website. |
| 1. Anogir Aelodau i lenwi'r ffurflenni'n gyflawn gan ateb pob cwestiwn yn y drefn gywir. | 1. Members are encouraged to fully complete the forms by answering each relevant question in their correct order. |

| | |
|---|---|
| 2. Os yw Aelodau'n ansicr ynghylch a oes ganddynt ddiddordeb y mae angen ei ddatgan mewn cyfarfodydd, dylent ofyn am gyngor. | 2. If Members are unsure as to whether they have a declarable interest at meetings they should seek advice. |
| 3. Mae enghreiffitiau lle nad ydi datganiad ar lafar yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig yn ôl y wybodaeth a welir ar wefan y Cyngor. Atgoffir aelodau bod gofyn yn y Cod Ymddygiad i aelodau gadarnhau yn ysgrifenedig datganiadau o ddiddordeb a wneir ar lafar yn ystod cyfarfodydd, unai cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod. Os na wneir hynny, o dan ystyriaethau'r Cod, bernir fod yr aelod ddim wedi datgan y diddordeb yn y man cyntaf. | 3. There are examples where oral declarations are not confirmed in writing according to the information seen on the Council's website. Members are reminded that the Code of Conduct stipulates that members must confirm oral declarations of interests at meetings in writing, either prior to or straight after the meeting. If they do not, under the Code no declaration of interest will have been made by that Member. |
| 4. Byddai'r Pwyllgor Safonau'n dymuno gweld y broses ar gyfer Aelodau sy'n cofrestru buddiannau personol a rhagfarnol a ddatganwyd ar lafar mewn cyfarfodydd yn dod yn electronig, yn hytrach na'r ffurflen bapur a ddefnyddir ar hyn o bryd, er mwyn gwella effeithlonrwydd y broses gofrestru. Mae'r dater hwn wedi ei godi gyda swyddogion. | 4. The Standards Committee would wish to see the process for Members registering personal and prejudicial interests orally declared at meetings become electronic, rather than the paper form that is currently used, so as to improve the efficiency of the registration process. This issue has been raised with officers. |
| **3. Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** | **3. Register of Gifts and Hospitality** |
| Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi bod yn rhaid i Aelodau, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, budd materol neu fantais dros £20 (fel y cytunwyd gan y Cyngor hwn), ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o fodolaeth a natur yr anrheg honno, lletygarwch, budd materol neu fantais faterol. Mae'r Gofrestr hon yn cynnwys yr hysbysiadau ysgrifenedig hynny ac fe'i cynhwysir fel "Rhoddion a lletygarwch" ar dudalen bywgraffiad pob Cynghorydd ar wefan y Cyngor. | The Code of Conduct details that Members must, within 28 days of receiving any gift, hospitality, material benefit or advantage above £20 (as agreed by this Council), provide written notification of the existence and nature of that gift, hospitality, material benefit or advantage. This Register includes all those written notifications and is included as "Gifts and hospitality" on each Councillor's biography page on the Council's website. |
| 1. Nid oedd unrhyw ddatganiad wedi ei nodi ymhlith yr aelodau a oedd yn destun yr adolygiad hwn mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch. | 1. No declarations were noted in respect of gifts and hospitality by the Members subject to this review. |
| 2. Gwahoddir Aelodau i ail-ymgyfarwyddo eu hunain â'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch er mwyn sicrhau eich bod yn gwybod prydbydd gofynion cofrestru'n berthnasol a'r broses sydd angen ei dilyn er mwyn diweddaru eich Cofrestr. | 2. Members are invited to re-familiarise themselves with the Gifts and Hospitality Protocol to ensure you are aware when declarations may be required and the process for updating your Register. |

| | |
|---|---|
| 3. Mae diffygion technolegol wedi eu nodi gyda'r Gofrestr hon, yn cynnwys bod dim dolen ar gyfer "Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch" ar dudalen bywgraffiad pob aelod, neu bod neges gwall yn ymddangos drwy ddefnyddio ambell ddolen. Eto, mae'r materion hyn wedi eu codi gyda swyddogion. | 3. Technical shortfalls have been identified in relation to this Register, including that there is no link for "Gifts and Hospitality Register" on every member's biography page, and that an error message appears when trying to use some links. Again, these issues have been raised with officers. |
| **4. Adroddiadau Blynyddol Aelodau** | **4. Members' Annual Reports** |
| 1. <u>Nid oes gofyn statudol ar Aelodau i gynhyrchu Adroddiadau Blynyddol; mae'n benderfyniad ar gyfer pob Aelod</u>. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn bod hyn yn arfer dda ac anogir Aelodau i ddarparu'r wybodaeth hon. Roedd mwyafrif yr aelodau a adolygwyd wedi cwblhau Adroddiad Blynyddol. Lle nad ydi Aelod wedi cwblhau Adroddiad Blynyddol, mae brawddeg yn cadarnhau hynny ar y wefan; croesawir yr eglurder a ddarperir gan y trefniant hwn. | 1. <u>There is no statutory requirement for Members to produce Annual Reports; it is a decision for each Member</u>. However, it is considered best practice by the Standards Committee and Members are encouraged to provide this information. Most Members subject to this review had completed an Annual Report. Where they had not, there was a note confirming this on the website; the clarity provided by this arrangement is welcomed. |
| 2. Nid yw'r holl Adroddiadau Blynyddol yn ymddangos yn y ddwy iaith ar y wefan ac mae'r Pwyllgor Safonau'n gwneud ymholiadau gyda'r swyddogion perthnasol ynghylch hyn. | 2. Not all Annual Reports appear in both languages on the website and the Standards Committee is making enquiries with the relevant officers in this regard. |
| 3. Mae enghreifftiau lle mae anghysondebau rhwng yr Adroddiad Blynyddol a'r Gofrestr Sefydlog. Wrth gwrs, gall hyn fod oherwydd newidiadau sydd wedi digwydd ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a bod y Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau wedi ei diweddaru, sydd wrth gwrs yn gywir i'w wneud ac yn cyd-fynd hefo gofynion y Cod i ddiweddaru newidiadau. Annogir aelodau i ystyried cynnwys eu Cofrestr pan yn cwblhau eu Hadroddiad Blynyddol. | 3. There were examples of inconsistencies between Members' Annual Reports and Standing Registers. Of course, this could be due to a Standing Register having been updated (in line with the requirement under the Code to update registers when changes occur) due to a change in circumstances occurring following the publication of the Annual Report. Members should consider the content of their Registers when completing their Annual Report. |
| 4. Hoffai'r Pwyllgor Safonau weld canllaw yn cael ei ddatblygu ar gyfer Aelodau i'w cynorthwyo i ddrafftio eu Hadroddiad Blynyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnig bod dyddiad cychwyn Cynghorwyr yn cael ei gynnwys ar y wefan er mwyn ei gwneud yn glir wrth y cyhoedd, pam fod ambell Gynghorydd gyda mwy o Adroddiadau Blynyddol nac eraill. Mae hyn wedi ei godi gyda swyddogion. | 4. The Standards Committee would like to see Guidance being developed for Members to assist them in drafting their Annual Report. The Committee also proposes that councillors' start date be included on the website to make it clear to the public why some Councillors have more Annual Reports than others. This has been raised with officers. |

| **5. Hyfforddiant** | **5. Training** |
|---|---|
| 1. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rhoes y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i’r cofnod hyfforddiant sydd ar gael ar-lein (mae pob Aelod yn bersonol gyfrifol am eu diweddaru). Nodwyd bod dwy ddolen ar dudalen bywgraffiad pob aelod – un at “Hyfforddiant” ac un arall “Hyfforddiant wedi ei gofrestru”. Mae’r Pwyllgor Safonau’n codi’r mater hwn o fewn y materion corfforaethol sydd wedi eu hadnabod oherwydd nid yw’r rhestrau yn cyd-fynd ac mae’r Pwyllgor Safonau’n pryderu fod y cofnodion yn creu dryswch a ddim yn cyfleu’n deg yr hyfforddiant bydd aelodau’n ei gwblhau. | 1. In conducting this review, the Standards Committee considered the training records available online (which each Member is personally responsible for updating). It was noted that there are two links on each member’s biography page – one to “Training” and the other to “Registered Training”. The Standards Committee has raised this issue as part of the corporate issues identified as the records included on both do not match and the Standards Committee is concerned that the records are confusing and do not give a true reflection of the training completed by Members. |
| 2. Mae Arweinyddion y Grwpiau yn derbyn adroddiadau chwarterol ynghylch yr Hyfforddiant bydd aelodau eu grwp yn ei gwblhau. Ymddengys o’r wybodaeth a welwyd gan aelodau’r Pwyllgor Safonau bod rhai aelodau sydd ddim wedi cwblhau eu holl hyfforddiant mandadol. Ystyrir bod annog aelodau eu grwp i gwblhau hyfforddiant mandadol yn dod o fewn dyletswyddau’r Arweinyddion Grwpiau i gymryd camau rhesymol er mwyn hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodaeth eu grwp, tra wrth gwrs yn derbyn bod y cyfrifoldeb am fynychu sesiynnau Hyfforddiant yn disgyn ar aelodau unigol. | 2. Group Leaders receive quarterly reports regarding the Training completed by Members of their groups. From the information available to the Standards Committee, it appears that some Members have not completed all their mandatory training. Members should be encouraged by Group Leaders to complete their mandatory training in line with their duty to take reasonable steps to promote high standards of conduct amongst members of their group, whilst accepting of course that the responsibility for attending training sessions falls on the individual Member. |
| 3. Anogir Aelodau i gwblhau eu cofnod hyfforddiant ar-lein ar ôl bob digwyddiad hyfforddiant. Mae hyfforddiant yn cynnwys digwyddiadau yn y dosbarth, e-ddysgu a sesiynau. | 3. Members are encouraged to complete their online training record after every training event. Training includes classroom events, e-learning and sessions. |
| 4. Anogir aelodau hefyd i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl fanylion hyfforddiant yn eu Hadroddiadau Blynyddol, a bod yr Adroddiadau Blynyddol yn cynnwys yr holl Hyfforddiant gaiff ei restru ar wefan y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb yn y wybodaeth gaiff ei chyhoeddi. | 4. Members are also encouraged to ensure that their Annual Report gives a full account of the training they have completed, including the training listed on the Council’s website, to ensure consistency between all available published information. |
| 5. Ystyriwyd bod y nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant a fynychwyd gan rai Aelodau’n isel (roedd lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd yn isel ar gyfer rhai aelodau hefyd). Codwyd y mater hwn gyda’r Arweinyddion Grwpiau ar sail llesiant. Anogir | 5. The number of training events attended by some Members (as well as their attendance at meetings) is considered low. Where relevant, this issue has been raised with Group Leaders in relation to wellbeing. Members are encouraged to |

Aelodau i fynychu hyfforddiant a chyfarfodydd yn unol â'r ceisiadau y maent yn eu derbyn, gan dderbyn, wrth gwrs, y gall amgylchiadau personol effeithio ar allu Aelodau i wneud hyn bob tro.

**6. Adolygiadau Datblygiad Personol**

1. Nid yw ADP yn orfodol ac maent y tu allan i sgôp uniongyrchol y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, mae Arweinyddion Grwpiau wedi cael eu hannog i gynnig yr opsiwn o ADP i Aelodau ac anogir Aelodau i fynychu pan gânt wahoddiad.

2. Mae ADP yn declynnau defnyddiol i ddatblygu cynllun anghenion hyfforddiant ar gyfer pob Aelod a bwydo i mewn i'r hyfforddiant a gynigir i Aelodau yn gyffredinol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn benodol, yn ddefnyddiol, wedi'i dargedau ac yn rhoi gwerth am arian.

**7. Bywgraffiad**

Fel y gwyddoch, mae gan bob Aelod adran bywgraffiad ar wefan y Cyngor. Nid yw'r wybodaeth yn y bywgraffiad bob amser yn cyfateb i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Gofrestr Sefydlog ar gyfer pob Aelod. Anogir Aelodau i adolygu eu bywgraffiadau a'u croes-gyfeirio yn benodol gyda'u Cofrestrau Sefydlog a'r gofrestr o gyrff allanol a ddelir gan y Cyngor.

attend training and meetings in accordance with the requests they receive, accepting, of course, that personal circumstances may always affect Members' ability to do this.

**6. Personal Development Reviews**

1. PDRs are not compulsory, and they are outside the direct scope of the Standards Committee. However, Group Leaders have been encouraged to ensure the option of a PDR is offered to Members and Members are encouraged to attend when invited.

2. PDRs are a useful tool for developing a training needs plan for each Member and feeding into the training offered to Members generally, to ensure training is specific, useful, targeted and good value for money.

**7. Biography**

As you know, each Member has a biography section on the Council's website. The information included in the biography does not always match the information contained within the Standing Register for each Member. Members are encouraged to review their biographies and cross-reference with their Standing Register and the register of outside bodies held by the Council, in particular.

**Cynllun Gwella Democrataidd – fersiwn, Medi 2024**

| Rhif | Gweithred | Cyfrifoldeb | Targed | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Galluogi aelodau i gwblhau y Gofrestr Diddordebau Sefydlog ar ochr Gymraeg MyGov os ydynt yn dymuno. | Tim Gwasanaethau Digidol / Gwasanaethau Democrataidd | Cysylltu efo Civica eto – erbyn 31 Awst 24 | Codwyd hyn gyda Civica Modern Gov yn wreiddiol yn 2023. Tim Digidol wedi cysylltu eto gyda Civica ar 25/7/24. Nid yw'r feddalwedd yn caniatáu i hyn ddigwydd. Gofynnwyd i'r cwmni ei ychwanegu at restr datblygiadau. |
| 2 | Gwella profiad aelodau wrth gael mynediad at y gofrestr diddordebau. | Gwasanaethau Democrataidd | Wedi ei gwblhau yn rhannol – anfon gwybodaeth i aelodau ym Medi. | Wedi ail-osod cyfrinair ModGov rhai aelodau. Ail anfon y 'portal user guide' at aelodau ym mis Medi. Cynnig cymorth os oes angen. |
| 3 | Galluogi aelodau i gwblhau eu ffurflen cofrestr datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar lein. | Tim Gwasanaethau Digidol / Swyddogion Pwyllgor | Erbyn 31 Hydref 2024 | Sefydlu os ydi meddalwedd Civica yn cefnogi datblygu ffurflen ar-lein. Gwas Dem wedi holi cynghorau eraill. |
| 4 | Sicrhau bod aelodau yn cwblhau eu ffurflenni datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar amser | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd / Swyddogion Pwyllgor | **Wedi ei gwblhau** | Sicrhau bod Cadeiryddion yn cynnwys datganiad am ffurflenni datgan diddordeb yn eu sylwadau agoriadol safonol ar ddechrau pob Pwyllgor. Clercod i ddarparu copïau o'r ffurflenni yn y cyfarfodydd. |
| 5 | Sicrhau pan fydd aelod wedi datgan diddordeb rhagfarnol, bod cofnodion y pwyllgor yn cadarnhau bod yr aelod wedi gadael yr ystafell am yr eitem. | Swyddogion Pwyllgor | **Wedi ei gwblhau** | Trafod a chytuno ffurf ar eiriad gyda'r swyddogion pwyllgor. |
| 6 | Sicrhau bod dolen "Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch" yn ymddangos ar dudalen pob cynghorydd. | Tim Gwasanaethau Digidol | **Wedi ei gwblhau** | Mae'r ddolen yn ymddangos o dan enw pob aelod erbyn hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Neges gwall yn ymddangos wrth geisio cael mynediad i gofrestrau rhai aelodau o'r ochr Gymraeg. Cywiro'r gwall | Gwasanaethau Democrataidd | **Wedi ei gwblhau** | Ar ôl gwirio, nid yw'r neges yn ymddangos erbyn hyn. |
| 8 | Gwirio bod datganiadau rhoddion a lletygarwch wedi eu llwytho fyny i'r wefan. | Gwasanaethau Democrataidd | **Wedi ei gwblhau** | Mynd trwy'r cofnodion i sicrhau bod popeth sydd wedi ei dderbyn wedi ei gyhoeddi ar y wefan. |
| 9 | Sicrhau un dolen, yn lle dau, at gofnodion hyfforddiant ar wefan cynghorwyr. | Gwasanaethau Democrataidd / Tim Gwasanaethau Digidol | **Wedi ei gwblhau** | GwasDem i fewnbynnu cofnodion hyfforddiant 2022-23 yn y prif gofnod. GwasDigidol i ddileu ar ôl hynny. |
| 10 | Gwneud y broses o gofnodi ar-lein yr hyfforddiant maent wedi ei fynychu yn haws i gynghorwyr. | Gwasanaethau Democrataidd | **Wedi ei gwblhau** | Mae swyddogion Gwas Dem yn cofnodi ar ran aelodau. Hynny'n rhoi sicrwydd bod y cofnod yn gywir a chyfredol. |
| 11 | Neges gwall yn ymddangos wrth geisio cael mynediad i adroddiadau blynyddol aelodau drwy ochr Gymraeg y wefan. Cywiro'r gwall. | Gwasanaethau Democrataidd | **Wedi ei gwblhau** | Wedi gwirio. |
| 12 | Darparu canllaw i aelodau ar sut i gwblhau adroddiad blynyddol. | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | **Wedi ei gwblhau** | Mae templed ar gyfer cwblhau adroddiad, sy'n cynnwys enghreifftiau o'r cynnwys gofynnol o dan pob pennawd. Rydym erbyn hyn yn darparu dolenni yn y templed i wybodaeth ar wefan y Cyngor, fel bod cysondeb yn rhai o'r penawdau. Mae cymorth ar gael hefyd i aelodau os ydynt yn ansicr am unrhyw elfen o'r templed. |
| 13 | Cynnwys dyddiad cychwyn pob cynghorydd ar y wefan | Gwasanaethau Democrataidd / Tim Gwasanaethau Digidol | **Wedi ei gwblhau** | Angen ymchwil i ganfod y wybodaeth ac yna cytundeb rhwng Gwas Dem a Gwas Digidol ar y ffordd ymlaen. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 14 | Diweddaru gwybodaeth presenoldeb cynghorwyr ar y wefan – dileu "a ddisgwylid" | Swyddogion Pwyllgor | **Wedi ei gwblhau** | Mae "a ddisgwylid" yn ymddangos yn awtomatig yn y system pan fydd cyfarfod yn cael ei ohirio neu ei symud. Swyddog pwyllgor wedi cywiro'r cofnod. |
| 15 | Cadw golwg ar lesiant aelodau. | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Parhaus | Hyfforddiant llesiant wedi ei gynnwys yn rhaglen hyfforddiant aelodau. Negeseuon atgoffa achlysurol ynghylch gwasanaeth cwnsela. |
| 16 | Angen gwirio bod dwyieithrwydd adrannau Aelodau y wefan yn gweithio'n iawn. | Gwasanaethau Democrataidd / Tim Gwasanaethau Digidol | **Wedi ei gwblhau** | Gwas Dem i wirio. |
| 17 | Sicrhau bod hyd a fformat adroddiadau yn hylaw. | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | 31 Rhagfyr 2024 | Adolygu'r templed blaenddalen adroddiadau Pwyllgor Gwaith a chael cytundeb Tim Arwain ar dempled diwygiedig. Adolygu templedi pwyllgorau eraill yn dilyn hynny. |
| **GWAITH YCHWANEGOL** | | | | |
| 18 | Creu calendr pwyllgorau yn Outlook | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd / TG | **Wedi ei gwblhau** | Creu calendr 'byw' yn Outlook. Swyddogion pwyllgor efo hawliau 'admin'. Pob aelod o staff efo hawl gweld. |
| 19 | Sefydlu trefn adborth yn Public-I | Gwasanaethau Democrataidd | **Wedi ei gwblhau** | Sicrhau bod cyfleuster adborth yn weithredol ac yn cael ei gyfeirio at e-bost swyddog gwe-ddarlledu. |
| 20 | Cysylltu gwe-ddarllediadau efo eitemau agenda | Gwasanaethau Democrataidd | 30 Medi 2024 | Gweithio gyda Public-I i gynnwys links at eitemau agenda yn y darllediad. Gwneud yn haws i'r cyhoedd allu mynd yn syth i eitem penodol yn y darllediad.<br><br>Defnyddio'r Pwyllgor Cynllunio fel peilot. |

**Allwedd**

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Wedi cwblhau |
| Melyn | Ar darged |
| Oren | Dim ar darged |
| Coch | Dim cynnydd |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad adolygiad annibynnol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: "Adolygiad Annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod penderfyniadau'n briodol, yn deg ac yn rhydd o unrhyw ragfarn wleidyddol".** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am yr adroddiad a gynhyrchwyd yn dilyn adolygiad annibynnol OGCC.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ym mis Mawrth 2024, derbyniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") gŵyn wedi ei phrofi am bostiadau amhriodol ac annerbyniol ar y cyfryngau cymdeithasol gan aelod o'r staff. Roedd nifer o'r postiadau yn wleidyddol eu natur. Daeth y cyfryngau'n ymwybodol o'r postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a mynegwyd pryderon ynghylch egwyddorion arweiniol OGCC o ran didueddrwydd ac annibyniaeth.

1.2 Mewn ymateb, fe gomisiynodd OGCC adolygiad i sefydlu a oedd prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau Tîm Cod yr Ombwdsmon mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio i gwynion gan Dîm y Cod a'r cyn-weithiwr wedi bod yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol, ac i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r hyn a ddigwyddodd (yr "**Adolygiad**").

## 2. YR ADOLYGIAD

2.1 Cafodd Dr Melissa McCullough ei phenodi i arwain yr Adolygiad, a chyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad ar 27 Medi 2024 ar wefan OGCC. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn y fan yma.

2.2 Roedd yr Adolygiad yn golygu edrych ar brosesau a dirprwyaethau Tîm y Cod, a chyfweld aelodau staff. Roedd yr adolygiad hefyd yn golygu archwilio 673 o achosion lle'r oedd penderfyniadau i beidio ymchwilio wedi cael eu gwneud ynghyd ag 11 ymchwiliad a ddaeth i ben, a oedd i gyd yn cyfrif am benderfyniadau Tîm y Cod naill ai'n uniongyrchol gan y cyn-weithiwr neu'r broses o wneud penderfyniadau yr oedd y cyn-weithiwr yn goruchwylio ar eu rhan.

## 3. CANFYDDIADAU'R ADOLYGIAD

3.1 Daeth yr Adolygiad i'r casgliad:

3.1.1 Bod prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad OGCC yn gadarn, o ran diogelu, tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi'u dogfennu'n dda ac wedi'u hategu gan ganllawiau priodol ac mae angen cofnodi ac esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau, fel y bo'n briodol. Hefyd, nodwyd bod rhaid cofnodi ac egluro'r rhesymau dros benderfyniadau.

3.1.2 Bod yr holl benderfyniadau'n seiliedig yn gyfan gwbl ar dystiolaeth, ffeithiau ac ymresymiad cadarn, wedi'i fynegi'n dda, ac o'r herwydd, nid oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol. Ni chanfu'r Adolygiad unrhyw dystiolaeth fod y penderfyniad ar unrhyw un o'r achosion a adolygwyd wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol y sawl a wnaeth y gŵyn a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.

3.1.3 Nad oedd unrhyw dystiolaeth bod cyn-reolwr tîm y cod wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol "yn debyg i'w negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol" yn y swydd a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar aelodau eraill o staff, wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

3.2 Mae casgliad yr Adolygiad wedi ei grynhoi ar dudalen 29 yn yr adroddiad "....*Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar egwyddorion annibyniaeth, didueddrwydd, tegwch a chynhwysiant. Rhaid adlewyrchu'r egwyddorion hyn yn y gwaith pwysig a wneir gan yr Ombwdsmon er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei weithrediadau. Mae hyn o reidrwydd yn golygu y dylai'r asesiadau a wneir gan swyddogion ymchwilio sy'n gweithio i'r Ombwdsmon ddangos defnydd cyson o broses deg sydd wedi ei diffinio'n dda yn ogystal â dadansoddiad a rhesymu rhagorol i sicrhau bod eu penderfyniadau'n ddiduedd ac nad ydynt yn dangos rhagfarn. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfeirio at ragoriaeth o'r fath, ran prosesu ac*

*asesu cwynion. Dylai hyn roi sicrwydd i'r cyhoedd y gallant ymddiried yng ngwaith yr Ombwdsmon a bod â ffydd ynddo a'i Dîm Cod.*"

3.3 Gwneir argymhellion (7) i wella'r mesurau diogelwch ar gyfer sicrhau tegwch a didueddrwydd. Nodwyd gwersi a ddysgwyd (6) i leihau'r risg o ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi eu nodi ar dudalennau 25-27 yr adroddiad.

## 4. YMATEB OGCC

4.1 Mae OGCC wedi cadarnhau yma ei fod yn "*croesawu'r adroddiad hwn a'r cadarnhad fod y broses penderfynu, o ran cwynion Cod Ymddygiad, yn rhydd rhag rhagfarn wleidyddol.*".

4.2 Aeth OGCC ymlaen i ddweud bod yr holl argymhellion yn cael eu derbyn ac y bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Nodi cynnwys yr Adolygiad.

5.2 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb sy'n codi o'r Adolygiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Ymgynghoriad Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ei arfer o beidio â hysbysu Aelod sydd wedi'i gyhuddo o gŵyn tan ar ôl iddo gael ei asesu (Argymhelliad 2 o Adolygiad Annibynnol Dr Melissa McCollough)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I nodi ymateb y Pwyllgor Safonau, ar ran y Cyngor, yn yr ymgynghoriad.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ar ôl canfod defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol gan gyn-reolwr tîm yng ngwanwyn eleni, codwyd pryderon ynghylch diddueddrwydd ac annibyniaeth swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC"), yn enwedig mewn perthynas â phrosesau delio â chwynion am gynghorwyr lleol a allai fod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau. Felly, comisiynodd OGCC adolygiad annibynnol i sefydlu a oedd prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau ynghylch asesu ac ymchwilio i gwynion gan y Tîm Cod Ymddygiad, a'r cyn-reolwr tîm, wedi bod yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

1.2 Penodwyd Dr Melissa McCullough i arwain yr adolygiad. Cyhoeddwyd adroddiad ganddi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 7 argymhelliad.

## 2. YR YMGYNGHORIAD

2.1 Cynhaliodd OGCC broses ymgynghori er mwyn ystyried argymhelliad rhif 2 o fewn yr adroddiad uchod.

2.2 Geiriad argymhelliad 2 yn adroddiad Dr McCullough ydi:

"(2) *Nid yw'r Aelod Cyhuddiedig yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad: er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, argymhellir bod yr OGCC yn ystyried dychwelyd at yr arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law. Byddai hyn hefyd yn amddiffyn yr OGCC rhag beirniadaeth yn y cyswllt hwnnw, a allai godi o amgylchiadau lle nad yw'r Aelod Cyhuddiedig yn ymwybodol o'r gŵyn ac yn cael clywed amdani drwy drydydd parti neu'r cyfryngau. Os bydd y OGCC yn penderfynu dychwelyd i'r arfer blaenorol, bydd angen diwygio'r llawlyfr proses yn unol â hynny*".

2.3 Mae manylion yr ymgynghoriad gan OGCC i'w weld yn **Atodiad 1**. Gofynnodd yr OGCC 3 chwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn, sef:

*1. Ydych chi'n credu y dylai OGCC barhau â'i arfer presennol o hysbysu'r Aelod Cyhuddedig am gŵyn ar ôl iddi gael ei chau yn ystod cam asesu ei phroses neu wrth roi gwybod i Aelod Cyhuddedig am benderfyniad i ddechrau ymchwiliad? Os felly, amlinellwch eich rhesymau dros ddal y farn hon. Pa effeithiau fyddai'n deillio o barhau â'r arfer hwn yn eich barn chi?*

*2. Ydych chi'n credu y dylai OGCC ddychwelyd at ei arfer blaenorol o hysbysu'r Aelod Cyhuddedig o gŵyn ar ôl iddi ddod i law? Os felly, amlinellwch eich rhesymau dros ddal y farn hon. Pa effeithiau fyddai'n deillio o fabwysiadu'r arfer hwn yn eich barn chi?*

*3. Rydyn ni wedi gofyn y cwestiynau penodol hyn i'n helpu i ymateb i Argymhelliad 2 yr Adolygiad Annibynnol. Rhannwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych, os gwelwch yn dda, am yr Argymhelliad penodol hwn â ni.*

2.4 Roedd yr OGCC yn awyddus cael barn gan wahanol randdeiliaid yn cynnwys Pwyllgorau Safonau ar y cwestiynau hyn.

2.5 Dyddiad cau yr ymgynghoriad ydi 31 Ionawr 2025.

## 3. Y BROSES A DDILYNWYD YN LLEOL

3.1 Anfonwyd gohebiaeth at holl aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir er mwyn eu hysbysu o'r ymgynghoriad. Nodwyd y gallai aelodau ymateb yn uniongyrchol at OGCC neu anfon eu barn at sylw'r Pwyllgor Safonau er mwyn iddynt ei ystyried o fewn eu hymateb nhw. Derbyniodd y Pwyllgor Safonau 2 ymateb.

3.2 Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 24 Ionawr 2025 er mwyn trafod y mater.

3.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfod o Arweinyddion y Grwpiau er mwyn cyflwyno safbwyntiau'r Pwyllgor Safonau a chanfod eu barn hwythau, a bwydo hynny o fewn yr ymateb at OGCC.

3.4 Bydd llythyr ymateb yn cael ei anfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau erbyn y dyddiad cau am ymatebion, sef 31 Ionawr 2025.

3.5 Bydd copi o'r ymateb a anfonir gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cael ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau, er gwybodaeth.

## 4. CANLYNIADAU

4.1 Cynghorir y Pwyllgor Safonau, ac aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir, ynghylch penderfyniad OGCC ar yr ymgynghoriad hwn, pan y'i cyhoeddir.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

5.2 Bod gohebiaeth yn cael ei hanfon gan Cadeirydd y Pwyllgor Safonau erbyn dyddiad cau yr ymgynghoriad.

5.3 Bod gohebiaeth Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Safonau.

5.4 Bod y Swyddog Monitro'n cynghori'r Pwyllgor Safonau o ganlyniad ymgynghoriad OGCC ar y mater hwn pan y'i cyhoeddir.

5.5 Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n hysbysu aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir am benderfyniad OGCC ar ei drefniadau ynghylch hysbysu Aelod Cyhuddedig am gŵyn yn eu herbyn pan y'i cyhoeddir.

Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Ymgynghoriad OGCC ar ei arfer o beidio â hysbysu Aelod sydd wedi'i gyhuddo o gŵyn tan ar ôl iddo gael ei asesu

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 31 Ionawr 2025, 23:59.

## Argymhelliad 2 o Adolygiad Annibynnol Dr Melissa McCollough

Os oes angen y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni ar:
cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cyflwyniad

Ar ôl canfod defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol gan gyn-reolwr tîm yng ngwanwyn eleni, codwyd pryderon ynghylch didueddrwydd ac annibyniaeth y swyddfa, yn enwedig mewn perthynas â phrosesau delio â chwynion am gynghorwyr lleol a allai fod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

Felly, comisiynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") adolygiad annibynnol i sefydlu a oedd prosesau, dirprwyaethau a phenderfyniadau ynghylch asesu ac ymchwilio i gwynion gan y Tîm Cod Ymddygiad, a'r cyn-reolwr tîm, wedi bod yn gadarn ac yn rhydd o ragfarn wleidyddol.

Penodwyd Dr Melissa McCullough[1] i arwain yr adolygiad.

[1] Dr Melissa McCullough yw Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon (ers 2020) a hi hefyd yw Comisiynydd Safonau Cynulliadau Jersey a Guernsey (ers mis Mawrth 2023).

# Prif Ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol

Daeth yr Adolygiad i'r casgliad canlynol:

- Mae prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad OGCC yn gadarn o ran diogelu tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi eu dogfennu'n dda ac wedi eu hategu gan ganllawiau priodol ac mae'n ofynnol cofnodi ac egluro'r rhesymau dros benderfyniadau fel bo'n berthnasol.

- Mae'r holl benderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, ffeithiau a rhesymu cadarn, wedi ei seilio'n dda, ac o'r herwydd, nid oedd tystiolaeth o ragfarn wleidyddol.  Ni chanfu'r adolygiad achos unrhyw dystiolaeth fod y penderfyniad ar unrhyw un o'r achosion a adolygwyd wedi ei ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol yr achwynydd a/neu'r aelod y cwynwyd amdano.

- Nid oedd tystiolaeth bod y cyn-reolwr tîm wedi mynegi ei barn bersonol am faterion gwleidyddol "sy'n debyg i'w negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol" yn y swyddfa a/neu wedi dylanwadu'n amhriodol ar unrhyw aelod arall o staff, wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Gwnaeth yr adolygiad argymhellion i wella'r mesurau diogelu presennol ar gyfer sicrhau tegwch a didueddrwydd. Nodwyd y gwersi a ddysgwyd hefyd er mwyn lleihau'r risg y bydd rhywbeth fel hyn yn digwydd eto yn y dyfodol.

# Ymateb OGCC

Croesawodd OGCC yr adroddiad a derbyniodd yr holl argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd yn yr Adroddiad.

Dyma oedd Argymhelliad 2 yr Adroddiad:

"(2) **Nid yw'r Aelod Cyhuddiedig yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad:** er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, argymhellir bod yr OGCC yn ystyried dychwelyd at yr arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law. Byddai hyn hefyd yn amddiffyn yr OGCC rhag beirniadaeth yn y cyswllt hwnnw, a allai godi o amgylchiadau lle nad yw'r Aelod Cyhuddiedig yn ymwybodol o'r gŵyn ac yn cael clywed amdani drwy drydydd parti neu'r cyfryngau. Os bydd y OGCC yn penderfynu dychwelyd i'r arfer blaenorol, bydd angen diwygio'r llawlyfr proses yn unol â hynny".

Ystyriwyd y mater hwn o ran tegwch y broses. Arfer presennol OGCC yw na fydd yr aelod y cwynwyd amdano ("Aelod Cyhuddedig") yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl i'r broses asesu gael ei chwblhau a bod y gŵyn naill ai'n cael ei gwrthod neu yr ystyrir ei bod wedi bodloni'r prawf 2 gam i ymchwiliad ddechrau. Os penderfynir peidio ag ymchwilio, bydd yr Aelod a Cyhuddedig yn cael copi wedi ei olygu o'r datganiad o resymau, ond yn gyffredinol nid yw'n cael copi o'r gŵyn. Os penderfynir ymchwilio, bydd yr Aelod Cyhuddedig yn cael copi wedi'i olygu o'r gŵyn pan fydd yn cael gwybod am benderfyniad OGCC i ymchwilio i'r gŵyn.

Cyn y broses y cyfeirir ati uchod, byddai OGCC wedi rhoi gwybod i'r Aelod Cyhuddedig am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law. Cyn penderfynu newid y broses, ymgynghorodd OGCC â Swyddogion Monitro drwy rwydwaith y Grŵp Swyddogion Monitro Llywodraeth Leol i egluro'r rhesymau dros y newid. Y prif reswm oedd lleihau pryder diangen i aelodau ynghylch cwynion nad ydynt yn cael eu hymchwilio yn y pen draw. Rheswm arall oedd bod rhoi gwybod i'r aelod am y gŵyn lawn ar ôl derbyn y gŵyn weithiau wedi ysgogi'r aelod i ddechrau casglu ei dystiolaeth ei hun i amddiffyn ei sefyllfa, ac roedd hyn hefyd wedi arwain at rai cwynion "talu'r pwyth" yn cael eu gwneud, ac roedd yn cynnwys trafodaethau cyn asesiad gyda'r Aelod Cyhuddedig. Roedd OGCC o'r farn bod newid y dull gweithredu i'r un presennol yn ffordd fwy effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Ar ôl treialu'r dull newydd hwn am ychydig fisoedd, ni chodwyd pryderon gan Swyddogion Monitro, a chafodd y broses hon ei mabwysiadu.

## Data Cwynion Cod Ymddygiad

Mae'r OGCC yn cyhoeddi data cwynion blynyddol yn ei Adroddiad Blynyddol.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom asesu 311[2] o gwynion am y Cod Ymddygiad. Cafodd 48 o'r rhain (tua 15%) eu hymchwilio a chafodd 263 eu cau yn ystod cam asesu ein proses (tua 85%).

Yn unol â'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol[3], ein nod yw cau achosion yn ystod cam asesu ein proses neu wneud penderfyniadau i ddechrau ymchwiliadau o fewn 6 wythnos i gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom gan yr achwynydd.

## Ymateb OGCC i'r argymhelliad hwn

Fel rhan o ymateb OGCC i'r Argymhelliad hwn, mae'n ymgynghori ar yr agwedd hon ar ei drefn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn Swyddogion Monitro, Un Llais Cymru, CLILC, aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a phaneli heddlu a throseddu yng Nghymru drwy'r grwpiau cynrychioliadol hyn, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau safonau lleol.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd ar arferion cyrff rheoleiddio eraill sy'n ymgymryd â gwaith tebyg i waith Cod Ymddygiad OGCC, ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau ar gyfer yr OGCC, yn cael eu hystyried yn ofalus cyn i'r OGCC benderfynu a ddylai ddychwelyd yn ôl i'w arfer blaenorol.

[2] Cwynion Cod Ymddygiad a Gafodd eu Cau – Tudalen 28 Adroddiad Blynyddol OGCC 2023/24

[3] Dangosir Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar Dudalen 128 Adroddiad Blynyddol OGCC ar gyfer 2023/24

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Ydych chi'n credu y dylai OGCC barhau â'i arfer presennol o hysbysu'r Aelod Cyhuddedig am gŵyn ar ôl iddi gael ei chau yn ystod cam asesu ei phroses neu wrth roi gwybod i Aelod Cyhuddedig am benderfyniad i ddechrau ymchwiliad?

   Os felly, amlinellwch eich rhesymau dros ddal y farn hon.

   Pa effeithiau fyddai'n deillio o barhau â'r arfer hwn yn eich barn chi?

2. Ydych chi'n credu y dylai OGCC ddychwelyd at ei arfer blaenorol o hysbysu'r Aelod Cyhuddedig o gŵyn ar ôl iddi ddod i law?

   Os felly, amlinellwch eich rhesymau dros ddal y farn hon.

   Pa effeithiau fyddai'n deillio o fabwysiadu'r arfer hwn yn eich barn chi?

3. Rydyn ni wedi gofyn y cwestiynau penodol hyn i'n helpu i ymateb i Argymhelliad 2 yr Adolygiad Annibynnol. Rhannwch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych, os gwelwch yn dda, am yr Argymhelliad penodol hwn â ni.

## Sut mae Ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **31 Ionawr 2025** drwy e-bost at cyfathrebu@ombwdsmon.cymru.

## Datganiad Preifatrwydd

Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, efallai y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ond byddwn yn dileu data personol cyn eu cyhoeddi. Ni fyddwn yn cyhoeddi ymatebion unigol. Darllenwch fwy am yr hyn rydyn ni'n ei wneud gyda data personol yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocolau Datrysiad Lleol a fabwysiadwyd gan awdurdodau yng Nghymru.** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **I hysbysu'r Pwyllgor Safonau o'r gwaith a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Phrotocolau Datrysiad Lleol mewn gwahanol awdurdodau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1 CYFLWYNIAD

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("**OGCC**") wedi casglu Protocolau Datrysiad Lleol ("**PDLl**") ar gyfer awdurdodau yng Nghymru ac wedi derbyn barn gyfreithiol ar statws rhai darpariaethau o fewn y PDLl. Mae'r adroddiad hwn yn adnabod y prif egwyddorion sy'n deillio o'r farn gyfreithiol hon a barn OGCC o ran defnyddio'r PDLl.

## 2 PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Mae'r farn gyfreithiol gan OGCC wedi'i chrynhoi ar gyfer Swyddogion Monitro, a'r egwyddorion allweddol sy'n amlygu eu hunain o'r ymarferiad y dylai'r Pwyllgor Safonau fod yn ymwybodol ohonynt ydi:

2.1 Bwriad PDLl yw delio gyda mân gwynion / cwynion lefel isel, er enghraifft honiadau am fethiant i ddangos parch ac ystyriaeth ar y lefel isaf bosibl a bod yr hawl i lefaru efallai yn golygu nad ydynt yn torri ar y Cod Ymddygiad (y "**Cod**"). Dylid diffinio'n glir y materion sy'n briodol i'w hystyried dan PDLl, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch. Dylid nodi'n glir bod unrhyw faterion sy'n cynnwys honiad bod y Cod wedi'i dorri (er enghraifft methiannau'n ymwneud â datgan diddordeb, bwlio neu ymddygiad sy'n dwyn anfri) yn cael eu heithrio fel materion i'w hystyried dan y PDLl (ac yn hytrach, rhaid eu cyfeirio am ystyriaeth gan OGCC).

2.2 Mae PDLl yn cael eu drafftio ar y sail bod yr achwynydd, a gwrthrych y gŵyn, yn cytuno i lynu wrth y PDLl, ac yn cytuno i rwymo wrth ei ganlyniad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal cwyn rhag cael ei chyfeirio i OGCC os credir ei bod yn briodol gwneud hynny.

2.3 Mae PDLl yn anffurfiol, heb unrhyw sylfaen statudol. Ni all unrhyw benderfyniad dan PDLl ddisodli pŵer OGCC i ymchwilio honiad bod y Cod wedi'i dorri dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae hwn yn bŵer statudol gyda'r bwriad i gynnal ymddygiad o safon uchel ym mywyd cyhoeddus Cymru, ac ni ellir ei gyfyngu gan unrhyw gytundeb rhwng unigolion a gyflwynir i'r PDLl. Mae'r Uchel Lys hefyd wedi mynegi bod unrhyw gŵyn a dderbyniwyd gan OGCC yn ysgogi pwerau'r Ombwdsmon dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 – sy'n nodi y gall OGCC ymchwilio honiad ysgrifenedig a dderbynnir. Nid yw presenoldeb PDLl, neu gytundeb i gyflwyno i PDLl, yn cyfyngu nac yn cael gwared ar bwerau na dyletswyddau OGCC.

2.4 Mae statws PDLl yn golygu y gellir ailymweld yn ffurfiol â'r ffeithiau a ystyriwyd fel rhan o fater sy'n mynd rhagddo yn unol â'r PDLl, ac unrhyw ganlyniad y gwnaed penderfyniad yn ei gylch, pe bai testun y gŵyn yn cael ei gyfeirio at OGCC, fydd yna'n cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Safonau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Rhaid ystyried egwyddorion cyfraith gyhoeddus a'r risg o rag-benderfyniad – neu ragdybiaeth o rag-benderfyniad – a'r camau a gymerwyd i liniaru risgiau o'r fath.

2.5 Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â chanllawiau argraffedig OGCC (tudalennau 12 i 14) sy'n cyfeirio at y PDLl yn delio gyda chwynion a gwrthdaro "lefel isel", sy'n ymwneud fel arfer â methiant i ddangos parch ac ystyriaeth.

## 3 MATERION I'R PWYLLGOR EU HYSTYRIED MEWN PERTHYNAS Â PHROTOCOL DATRYSIAD LLEOL (PDLl) Y CYNGOR

3.1 Mae PDLl cyfredol y Cyngor wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

3.2 Cynghorir y dylai'r Pwyllgor Safonau ystyried gwneud dau mân addasiad i PDLl y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r egwyddorion uchod, a chynorthwyo o ran:

3.2.1 Darparu prif ddiben y PDLl, yn enwedig datrys a chymodi materion yn brydlon; a

3.2.2 Darparu gwybodaeth glir i aelodau wrth geisio deall y PDLl ei hun a phrosesau eraill sydd ar gael iddynt pan fydd pryderon yn bodoli ynghylch safonau ymddygiad.

3.3 Mae'r addasiadau a amlygwyd yn **ATODIAD 2** yn adlewyrchu'r farn gyfreithiol gan OGCC a/neu ganllawiau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi gan OGCC.

3.4 Mae’r addasiadau a argymhellwyd, a’r sail resymegol ar gyfer yr addasiadau arfaethedig, wedi’u nodi yn **ATODIAD 2** i’w hadolygu a’u hystyried gan y Pwyllgor Safonau.

## 4 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor Safonau’n nodi’r egwyddorion ym mharagraff 2 uchod. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau’n arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb.

4.2 Bod y Pwyllgor Safonau’n penderfynu rhannu’r egwyddorion uchod gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo a chynnal ymddygiad o safon uchel a chefnogi aelodau i ddeall (i) yr PDLl; a (ii) y prosesau eraill sydd ar gael i aelodau os codir pryderon ynghylch safon ymddygiad aelodau.

4.3 Bod y Pwyllgor Safonau’n penderfynu bod y Swyddog Monitro yn rhannu’r addasiadau a argymhellwyd mewn perthynas â’r PDLl a nodir yn **ATODIAD 2** gyda’r Arweinyddion Grwpiau i’w hadolygu a’u hystyried, ynghyd â’r argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau i dderbyn yr argymhellion.

4.4 Gofynna’r Pwyllgor Safonau am ddiweddariad gan y Swyddog Monitro yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar faterion yn ymwneud â:

4.4.1 A yw’r Arweinyddion Grwpiau wedi dod i gytundeb ar yr addasiadau arfaethedig i’r PDLl;

4.4.2 A yw ffurflen y PDLl wedi’i diweddaru, yn dilyn trafodaethau gyda’r Arweinyddion Grwpiau; ac

4.4.3 A oes angen i’r Pwyllgor Safonau ystyried gwneud unrhyw addasiadau dilynol i weithdrefnau neu ddogfennaeth y Cyngor i adlewyrchu unrhyw newidiadau cytunedig i’r PDLl, a’r farn gyfreithiol a dderbyniwyd gan OGCC, fel y nodwyd.

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

| **RHAN 1 – CEFNDIR** | |
|---|---|
| **Pam fod angen Protocol Datrysiad Lleol arnom ni?** | Pwrpas y Protocol ydi:<br><br>• hyrwyddo safonau ymddygiad uchel;<br><br>• meithrin a chynnal perthnasau gwaith cadarnhaol;<br><br>• mynd i'r afael â chwynion lefel isel yn ymwneud ag ymddygiad sydd ddim yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC);<br><br>• delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosibl rhag ofn i bethau waethygu;<br><br>• gwarchod enw da'r Cyngor.<br><br>**I grynhoi**, nod y Protocol yw datrys materion yn gyflym a dod â'r pleidiau sy'n derbyn cymorth gan y Pwyllgor Safonau ynghyd, lle bo angen. |
| **Oes rhaid cael Protocol?** | • Nid oes gofyniad statudol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi ei gwneud hi'n glir eu bod yn disgwyl i awdurdodau lleol roi'r fath drefniadau ar waith<br><br>• Mae Adroddiad Penn: 'Adolygiad Annibynnol ar y Fframwaith Safonau Moesegol' yn nodi:<br><br>***"Nod datrysiadau lleol yw datrys materion ar gam cynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen a all niweidio cydberthnasau personol o fewn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod".***<br><br>• Nid oes rhaid i aelodau gymryd rhan yn y broses. Proses gyfryngu wirfoddol yw hon. |
| **Pa brosesau eraill sydd ar gael i aelodau?** | • Ni fwriedir i'r Protocol ymyrryd â chamau disgyblu o fewn grwpiau/pleidiau na'u disodli. Bydd gan bob plaid/grŵp gwleidyddol brosesau disgyblu mewnol y mae'n rhaid eu dilyn.<br><br>• Ni fwriedir i'r Protocol ddisodli awdurdodaeth OGCC, ei nod fydd delio â'r nifer gyfyngedig o gwynion sydd ddim yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer ymchwiliad gan OGCC.<br><br>• Ni fwriedir i'r Protocol ddisodli'r Cod Ymddygiad, yn hytrach bydd yn ffordd anffurfiol o gefnogi'r cod yn lleol. |

| | |
|---|---|
| | • Ni fydd y Protocol yn disodli'r Protocol Perthnasau ar gyfer Aelodau a Swyddogion sydd wedi'i nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor.<br><br>• Fe ddylai Aelodau wneud pob ymdrech i ddatrys anghydfod drwy'r Protocol, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, ac fe ddylent bob amser fod yn ddarostyngedig i'w rhwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau. |
| **Beth ydi egwyddorion cyffredinol y Protocol?** | • Hyrwyddo safonau ymddygiad uchel fel ffordd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymysg aelodau er mwyn galluogi i aelodau a swyddogion ganolbwyntio ar "y gwaith".<br><br>• Cyfeirio at reoleiddwyr allanol yn niffyg dim arall, oni bai y ceir achos difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad, ee os ydi'r aelod wedi ceisio dylanwadu neu gymryd rhan mewn penderfyniad sydd o ddiddordeb personol iddynt. Mae materion o'r fath y tu allan i gwmpas y Protocol hwn.<br><br>• Dylai Aelodau osgoi gwrthdaro personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig y Cyngor llawn, ac yn y cyfryngau.<br><br>• **Ni ddylai'r ymrwymiad i ddatrys materion yn lleol rwystro trafodaethau, heriau neu graffu gwleidyddol dilys.**<br><br>• Ymddygiad y blaid/grŵp yw'r prif ffocws, a bydd pob arweinydd grŵp yn gyfrifol am reoli eu haelodau eu hunain. |
| **Beth ydi cyfrifoldebau'r arweinwyr grwpiau?** | • Mae'r camau rhesymol y gallai Arweinydd y Grŵp eu cymryd yn cynnwys:<br><br>• arddangos ymrwymiad personol i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb a safonau<br><br>• annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol yn ymwneud â chydraddoldeb a safonau<br><br>• sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw<br><br>• hybu moesgarwch a pharch o fewn cyfathrebiadau a phwyllgorau'r Grŵp ac ym mhwyllgorau ffurfiol y Cyngor<br><br>• hybu gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a'r Swyddogion Monitro i ddatrys materion yn lleol |

| | |
|---|---|
| | • hybu diwylliant o fewn y Grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb<br>• mynychu cyfarfod Pwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir iddo wneud hynny er mwyn trafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad<br>• gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynglyn â gwella safonau<br>• cydweithio ag arweinwyr grŵp eraill, o fewn rheswm, i gefnogi safonau ymddygiad uchel o fewn y cyngor |
| **Beth ydi cyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau?** | • Monitro ac annog arweinwyr grŵp i gydymffurfio â'r ddyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'r grŵp;<br>• Cynghori ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad, y Protocol hwn, yn ogystal ag unrhyw dogfennau/ymgynghoriadau eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor;<br>• Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad; yn cynnwys mynychu Cyngor / cyfarfodydd pwyllgorau ar adegau;<br>• Darparu cyngor, neu ddarparu neu drefnu hyfforddiant ar y Cod i aelodau;<br>• Derbyn adroddiadau gan arweinwyr grŵp;<br>• Rhannu arferion gorau;<br>• Darparu adborth amserol ac ystyrlon i arweinwyr grŵp. |
| **RHAN 2 – SUT MAE'R PROTOCOL YN GWEITHIO?** | |
| **Beth a ddisgwylir gan Arweinwyr Grŵp?** | • Arweinydd y Grŵp fydd yn delio â chwynion gan aelodau am aelodau eraill o'r grŵp.<br>• Os oes gan aelod gŵyn ynglŷn ag aelod o grŵp gwleidyddol arall, fe ddylent gwyno wrth eu harweinydd y grŵp yn y lle cyntaf. Wedyn, bydd yr arweinydd grŵp yn cyfeirio'r mater at arweinydd y grŵp sy'n gyfrifol am yr aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi.<br>• Ar ôl derbyn cwyn, boed hynny gan aelod o'r grŵp neu gan arweinydd grŵp arall fe ddylai pob arweinydd grŵp gymryd cyfrifoldeb (ond nid cyfrifoldeb personol) dros reoli ymddygiad eu haelodau.<br>• Yn amodol ar brosesau/trefniadau presennol y blaid/grŵp, fe |

| | |
|---|---|
| | ddylai'r camau disgyblu fod yn anffurfiol, a dylid eu datrys drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn gynted â phosib.<br><br>• Fe all Arweinwyr Grŵp ddewis cadw cofnod ond ni ddylai'r broses fod yn rhy feichus.<br><br>• Fe ddylai'r pwyslais fod ar ddatrysiad cynnar ac fe all gynnwys cyfryngu, cymodi, hyfforddi, datblygu neu addysg; neu gyfuniad o'r rhain. Yn amlwg, dylid ymdrechu i fod yn deg a chyson.<br><br>• Yn ystod y broses hon, fe all yr arweinydd grŵp ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) ynglŷn â'r camau y mae'r arweinydd grŵp yn bwriadu eu cymryd. Fe all arweinwyr grŵp hefyd ddefnyddio Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) fel "seinfwrdd".<br><br>• Cyn ystyried unrhyw gosb, neu hyfforddiant/cyfleoedd datblygu ac ati., bydd arweinydd y grŵp perthnasol yn ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) a bydd yn ymdrechu i ddarparu cyngor didwyll, teg, cyson a chyfrinachol i bob arweinydd grŵp sydd yn gofyn am drafodaeth o'r fath.<br><br>• Pan fydd achos o gamymddygiad sylweddol, neu achosion o dorri'r rheolau'n barhaus, efallai y bydd y Swyddog Monitro'n cynghori'r achwynydd i gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>• Os ydi'r gwyn am arweinydd grŵp, gofynnir i Gadeirydd y Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â'r gŵyn, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai)<br><br>• Os yw'r mater yn ymwneud âg aelod neu aelodau heb gysylltiad â grŵp, bydd Cadeirydd y Cyngor yn ymgymryd â swydd yr arweinydd grŵp. |
| **Beth a ddisgwylir gan y Pwyllgor Safonau?** | • Yn ogystal â chynghori a chefnogi'r arweinwyr grŵp, fel y nodir uchod, os nad oes modd datrys y mater drwy brosesau disgyblu'r blaid/grŵp, gellir cyfeirio'r mater at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai).<br><br>• Gofynnir i'r aelod sy'n gwneud cwyn fynegi eu pryderon yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Neu, gwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) os byddai'n well gan yr achwynydd wneud hynny. Yn y naill achos, bydd hyn er mwyn cadarnhau:<br><br>  • pryd, lle a sut y digwyddodd y digwyddiad perthnasol<br>  • sut a pham y mae'r digwyddiad yn torri'r Cod Ymddygiad<br>  • sut y mae'r achwynydd yn dymuno datrys y mater<br><br>• Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn ystyried |

| | |
|---|---|
| | y gŵyn a chynghori'r achwynydd p'un ai a ydi'r Pwyllgor Safonau yn barod i ymgymryd â rôl cyfryngu ai peidio.<br><br>• Os ydi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn fodlon ymgymryd â rôl cyfryngu, byddant yn cysylltu â'r aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, i egluro natur y gŵyn, a gofyn a ydi'r aelod yn fodlon cymryd rhan mewn sesiwn gyfryngu gyda'r achwynydd ac aelod o'r Pwyllgor Safonau.<br><br>• Gofynnir i'r aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi i ymateb i'r cynnig cyn pen 7 diwrnod. Os ydynt yn gwrthod, neu ddim yn ymateb, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd a bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried bod y mater ar ben. |
| **Oes yna unrhyw gyfyngiadau o ran amser?** | • Dylid gwneud cwyn cyn pen 7 diwrnod o'r dyddiad pryd y methodd prosesau disgyblu'r blaid/grŵp â datrys y mater.<br><br>• Bydd unrhyw gwynion a godir y tu allan i'r cyfnod hwn yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). |
| **Sawl cyfarfod fydd ei angen?** | • Bydd nifer y cyfarfodydd yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r achos ac, yn benodol, y posibilrwydd o ddatrys y mater.<br><br>Canllaw yn unig yw'r canlynol ac nid oes rhaid cadw at y nifer o gyfarfodydd/y broses a awgrymir. Bydd yn ddibynnol iawn ar yr hyn y mae'r pleidiau yn ei gytuno. Felly, dyma enghraifft o'r hyn a allai ddigwydd yn ymarferol:- |
| Cyfarfod rhagbaratoadol 1 | • bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cwrdd â'r achwynydd am y tro cyntaf, fel y nodir uchod, i dderbyn yr wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r gŵyn a chadarnhau'r datrysiad a ddymunir. |
| Cyfarfod rhagbaratoadol 2 | • yn yr un modd, bydd yr ail gyfarfod gyda'r aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, fel y nodir uchod, i egluro'r gŵyn a chadarnhau a yw'r aelod yn barod i gwrdd â'r achwynydd ac aelod o'r Pwyllgor Safonau i weld a oes modd datrys y mater drwy gyfryngu. |
| Cyfarfod rhagbaratoadol 3 | • os ydi'r aelod yn derbyn y cynnig o gyfarfod cyfryngu, yna bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn cwrdd â thestun y gŵyn i drafod eu hymateb i'r gŵyn / eu safbwynt hwy. |
| Cyfarfod cyfryngu | • bydd y cyfarfod cyfryngu'n cynnwys yr achwynydd, yr aelod y mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi, a chadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Pwrpas y cyfarfod fydd crisialu'r mater/ion a gweld a oes modd datrys yr anghydfod. |

| | |
|---|---|
| | • efallai y bydd cyfarfodydd cyfryngu pellach yn cael eu cynnal os ydi pawb yn cytuno bod angen cyfarfod/cyfarfodydd pellach a'i bod hi'n eithaf tebygol y gellir datrys y mater.<br><br>• yn ystod y cyfarfod/ydd cyfryngu, ac wedi hynny, nid fydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ac enwebai) yn llunio barn, beio neu ddod i unrhyw ganfyddiadau. Fe allant, fodd bynnag, wneud argymhellion anffurfiol i'r naill barti. Ni fydd y fath argymhellion yn orfodol.<br><br>• bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai) yn hwyluso'r cyfarfod cyfryngu dim ond os ydynt wedi derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i wneud hynny a bod yr hyfforddiant hwnnw'n gyfredol.<br><br>• bydd yr holl gyfarfodydd yn breifat. Bydd y trafodaethau'n gyfrinachol.<br><br>• ni fydd gwaith papur na chofnodion yn cael eu cadw ar ôl i'r broses gyfryngu ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys cofnodion digidol.<br><br>• bydd adborth yn cael ei roi i arweinwyr grŵp, os ydi'r ddau aelod yn cytuno. Bydd yr adborth yn ddienw a bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac arferion da. **Ni fydd unrhyw wybodaeth sensitif yn cael ei rhannu.** |

Troednodion:

1. Mae sawl cyfeiriad yn y Protocol at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu enwebai). Mae enwebai yn cyfeirio at aelodau lleyg yn unig. Ni fydd aelodau etholedig o'r Cyngor Sir, nac aelodau cyfetholedig o'r cynghorau tref a chymuned yn cymryd rhan yn y broses gyfryngu.

2. Fel y nodir yn y ddogfen, nid yw'r orfodol cymryd rhan yn y Protocol ac fe all yr aelodau sydd ynghlwm ag unrhyw fater dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg; hyd yn oed os ydynt eisoes wedi cytuno i gymryd rhan yn y broses gyfryngu. Ni fydd unrhyw oblygiadau o ganlyniad i dynnu'n ôl o'r broses.

3. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan yr Arweinwyr Grŵp, bydd unrhyw newidiadau i'r Protocol hwn yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r holl arweinwyr grŵp a chyda'u cysyniad pendant hwy.

**ATODIAD 2**

**Addasiadau arfaethedig i'r Protocol Datrysiad Lleol ("PDLl"):**

1. **I ychwanegu pwynt bwled terfynol yn yr adran gyda'r pennawd "Pa brosesau eraill sydd ar gael i aelodau" (tudalen 1) fel a ganlyn:**

*"Ni ddylid defnyddio'r Protocol i fynd i'r afael â honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri, sy'n cynnwys methiant i ddatgan diddordeb, cwynion yn ymwneud â bwlio neu manteisio ar swydd, cwynion am ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd neu ymddygiad gwarthus".*

**Rheswm am yr addasiad arfaethedig:** Mae'r farn gyfreithiol a dderbyniwyd gan OGCC yn ddiweddar yn nodi y dylid diffinio materion y mae modd eu hystyried dan y PDLl yn glir er mwyn osgoi unrhyw ddryswch. Mae'r enghreifftiau a nodir uchod yn cynnwys canllawiau'r PSOW a Phrotocol Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned sydd wedi'u hadnabod fel enghreifftiau o arfer da yng nghyd-destun adnabod y materion hynny y mae modd eu hystyried dan y Protocol.

2. **Pwynt bwled terfynol i'w ychwanegu yn yr adran gyda'r pennawd "Beth a ddisgwylir gan y Pwyllgor Safonau?" (tudalennau 4-5) fel a ganlyn:**

"*Os bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu ei enwebai) wedi cytuno i ymgymryd â rôl gyfryngu mewn perthynas â chwyn dan y Protocol, ac mae'r un mater yn cael ei gyfeirio wedyn gan OGCC i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried yn ffurfiol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried a fydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu ei enwebai) yn ymwneud ag unrhyw ystyriaeth ffurfiol o'r mater fesul achos."*

**Rheswm am yr addasiad arfaethedig:** Os yw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (neu ei enwebai) eisoes wedi clywed y ffeithiau sy'n ymwneud â chwyn, ac o bosibl wedi goruchwylio cyfryngu ac wedi cael syniad o'r hyn y mae'n credu y gallai fod yn ddatrysiad rhesymol, mae risg y gallai gweithredu yn y modd hwn dan y Protocol fod yn rhag-benderfyniad o faterion dan y broses ffurfiol a ddarperir yng Ngweithdrefn Gwrandawiadau Lleol y Cyngor. Mae'r diwygiad arfaethedig yn ceisio sicrhau bod proses deg ar gyfer yr holl bartïon perthnasol yn cael ei mabwysiadu a'i dilyn gan y Pwyllgor Safonau a'i fod yn adlewyrchu'r arferion da a fabwysiadwyd gan brotocolau lleol eraill, fel y nodwyd ym marn gyfreithiol OGCC.

| CYNGOR SIR YNYS MON / CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2025** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Proses Gwrandawiadau Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I gyflwyno newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r Broses Gwrandawiadau Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Un o ddyletswyddau statudol y Pwyllgor Safonau ydi ymdrin ag unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd iddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau o dorri’r Côd Ymddygiad gan Aelodau.

1.2 Mae cael trefniadau mewn lle ac wedi eu cyhoeddi yn sicrhau tryloywder a chysondeb pan fydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried achosion honedig o dorri’r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

## 2. PROSES

2.1 Roedd proses ar gyfer delio gyda chynnal Gwrandawiadau yn dilyn atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am dorri’r Côd Ymddygiad eisoes wedi ei mabwysiadu gan y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, nid oes Gwrandawiad wedi ei gynnal gan y Pwyllgor ers nifer o flynyddoedd. Gyda thri achos yn cael ei ymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros gyfnod Haf 2024, trefnwyd Hyfforddiant allanol ar gynnal Gwrandawiadau, er mwyn paratoi petai un neu fwy o’r achosion hynny’n cael eu cyfeirio at sylw’r Pwyllgor Safonau i’w penderfynu. Tra’n canmol y trefniadau yn y Broses sefydlog hon ar y cyfan, fe wnaeth yr Hyfforddwr allanol argymell y dylid addasu’r Broses fel bod tri cham (yn hytrach na dau gam) i ystyriaethau’r Pwyllgor.

2.2 Mae gwaith wedi ei wneud er mwyn addasu’r Broses fel bod y tri cam hwn o fewn y broses o hyn ymlaen:

1. Canfod ffeithiau;
2. Ar sail y ffeithiau hynny, sefydlu a yw'r Pwyllgor Safonau o'r farn bod hyn yn torri darpariaethau'r Cod Ymddygiad; a

CC-022335-MY/842666 (842665)

3. Sancsiwn

2.3 Roedd y fersiwn flaenorol o’r broses yn nodi y byddai camau 1 a 2 uchod yn cydredeg ond ystyriwyd y gallai hynny arwain at lai o ffocws ar faterion.

2.4 Wrth wneud y newidiadau hyn, manteisiwyd ar y cyfle i wneud newidiadau pellach, gan gynnwys:-

- Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn atgoffa eu hunain o ddeg egwyddor bywyd cyhoeddus yn ystod eu hystyriaethau;
- Bod yn rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddangos tystiolaeth o'i benderfyniad, h.y. dangos y gweithio allan; a
- Chadarnhau y gwneir penderfyniadau ar gydbwysedd tebygolrwydd.

2.5 Mae copi o’r Broses Gwrandawiadau diwygiedig wedi ei gynnwys yn **Atodiad 1**.

2.6 Mae’r ddogfen ddiwygiedig hon eisoes wedi ei rhannu gydag aelodau’r Pwyllgor Safonau dros e-bost ar 29 Tachwedd, 2024. Mae’r ymatebion sydd wedi dod i law yn gadarnhaol.

2.7 Noder bod y broses yn **Atodiad 1**, fel y broses flaenorol, yn cynnwys hyblygrwydd fel y gall y Cadeirydd gytuno i amrywio’r weithdrefn mewn unrhyw achos penodol os ydynt o’r farn bod angen gwneud hynny er budd tegwch.

2.8 Os bydd gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth a’r hyn a nodir yn **Atodiad 1**, y ddarpariaeth ddeddfwriaethol fydd yn cymryd blaenoriaeth.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Bod y Pwyllgor Safonau’n cytuno gyda mabwysiadu’r broses sydd wedi ei chynnwys yn **Atodiad 1** fel gweithdrefn i benderfynu cwynion am gamymddygiad aelodau.

3.2 Bod trefniadau’n cael eu gwneud ar gyfer cyhoeddi’r broses ddiwygiedig hon, fel sy’n berthnasol.

Diweddarwyd ddiwethaf Tachwedd 2024

Cyngor Sir Ynys Môn - Pwyllgor Safonau

Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol

**************

**1 Rhagarweiniad**

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu sut y bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu cwynion am gamymddygiad aelodau. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddogfen hon a darpariaeth statudol perthnasol, y ddarpariaeth statudol fydd yn cael y flaenoriaeth.

Rhaid i'r Pwyllgor benderfynu ar gŵyn yn erbyn aelod unai:

- ar ôl i'r gŵyn yn cael ei chyfeirio at y Swyddog Monitro gan yr Ombwdsmon i'w ymchwilio ac yna adrodd i'r Pwyllgor Safonau; neu
- ar ôl i'r Ombwdsmon gyfeirio adroddiad ar ei ymchwiliad at y Swyddog Monitro i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau.

**2 Dehongliad**

(a) Mae "Aelod" yn golygu'r aelod o'r awdurdod sy'n destun yr honiad sy'n cael sylw gan y Pwyllgor Safonau, ac eithrio lle dywedir yn wahanol. Mae hefyd yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig yr Aelod.

(b) Mae "Swyddog Ymchwilio" yn golygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon), ac mae'n cynnwys eu cynrychiolydd enwebedig.
Yn achos materion a gyfeiriwyd ar gyfer ymchwiliad lleol, mae cyfeiriadau at y Swyddog Ymchwilio yn golygu'r sawl a benodwyd gan y Swyddog Monitro i gynnal yr ymchwiliad.

(c) "Y Mater" yw pwnc adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

(ch) Mae "Y Pwyllgor Safonau" yn cyfeirio at y Pwyllgor Safonau neu at unrhyw is-bwyllgor safonau y mae wedi dirprwyo'r gwrandawiad iddo.

(d) Mae "Swyddog Cymorth Pwyllgor" yn golygu Swyddog o'r Awdurdod sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau ac am gofnodi penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau.

(dd) Mae "Ymgynghorydd Cyfreithiol" yn golygu'r swyddog sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau. Gall y swyddog hwnnw fod yn Swyddog Monitro, swyddog arall yn yr awdurdod â chymwysterau cyfreithiol, neu rywun a benodwyd i'r pwrpas o'r tu allan i'r awdurdod.

(e) Mae "Cadeirydd" yn cyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau neu, os yn wahanol, y person sy'n llywyddu yn y gwrandawiad.

(f) Mae "Achwynydd" yn golygu'r person neu'r personau a wnaeth yr honiad gwreiddiol yr ymchwiliwyd iddo ynghylch ymddygiad yr Aelod.

(ff) Mae "Côd Ymddygiad" yn golygu'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor at gyfer aelodau yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(g) Yr "Egwyddorion" yw'r egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiadaelodau ac aelodau cyfetholedig a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**3 <u>Diwygio'r Weithdrefn</u>**

Gall y Cadeirydd gytuno i amrywio'r weithdrefn hon mewn unrhyw achos penodol os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny er budd tegwch.

**4 <u>Cynrychiolaeth</u>**

- Gall cyfreithiwr, cwnsler neu - gyda chaniatâd y Pwyllgor Safonau - berson arall gynrychioli'r Aelod ar unrhyw adeg yn y weithdrefn hon neu ddod i'r gwrandawiad gyda'r Aelod.
- Noder mai'r Aelod sy'n gyfrifol am gwrdd â chostau cynrychiolaeth o'r fath, ac eithrio lle mae'r Is-Bwyllgor Indemniadau wedi cytuno'n benodol i gwrdd â'r cyfan o'r gost honno neu ran ohoni.
- Dylai Aelodau o Gyngor Sir Ynys Môn fod yn ymwybodol o Bolisi Indemniadau'r Cyngor; dylent gysylltu gyda'r Ymgynghorydd Cyfreithiol am fwy o wybodaeth ynghylch y Polisi hwn.

**5. <u>Cyngor Cyfreithiol</u>**

Gall y Pwyllgor Safonau gymeryd cyngor cyfreithiol gan ei Ymgynghorydd Cyfreithiol ar unrhyw adeg yn ystod y broses a nodir ym mharagraffau 8-10. Dylid rhannu sylwedd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor Safonau gyda'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os ydynt yn bresennol.

**6. <u>Pwysau Tebygolrwydd</u>**

Tra'n canfod (i) ffeithiau'r achos a (ii) unrhyw fethiant gan Aelod i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddefnyddio safon prawf pwysau tebygolrwydd.

**7. <u>Egwyddorion</u>**

Tra'n ystyried cydymffurfiaeth yr Aelod â'r Côd Ymddygiad, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau atgoffa'i hun o'r Egwyddorion.

**8. <u>Y cam cyntaf – Penderfyniad Cychwynnol</u>**

(a) Ar ôl derbyn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn cysylltu gyda'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Achwynydd i gadarnhau derbyn yr adroddiad a chadarnhau'r camau nesaf.

(b) Yna, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Safonau a fydd yn cyfarfod i benderfynu unai –

(i) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad, neu
(ii) Y dylai'r Mater fod yn destun gwrandawiad lleol er mwyn galluogi'r Aelod i gyflwyno achos, ar lafar neu yn ysgrifenedig, mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad bod yr Aelod wedi methu, neu efallai wedi methu cydymffurfio â'r Côd Ymddygiad.

(c) Os yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu nad oes tystiolaeth o unrhyw fethu a chydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad, cyhoeddir y penderfyniad hwnnw. Rhoddir gwybod i'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Achwynydd.

(ch) Os bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu cynnal gwrandawiad lleol ar gyfer y Mater, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn cynnal y broses cyn-gwrandawiad fel y mae wedi ei hamlinellu ym mharagraff 9 isod.

## 9. <u>Yr ail gam - Y Weithdrefn Cyn-Gwrandawiad</u>

Yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad lleol ar gyfer mater penodol, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn:

(a) Trefnu dyddiad ar gyfer gwrandawiad y Pwyllgor Safonau fel y penderfynwyd arno gan y Cadeirydd;

(b) Anfon copi o'r adroddiad i'r Aelod a rhoi gwybod iddynt am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(c) Anfon copi o'r adroddiad i'r Achwynydd a rhoi gwybod iddynt am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(ch) Rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned am y Mater ynghyd â dyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad (os yw'r Mater yn ymwneud ag ymddygiad Cynghorydd Cymuned);

(d) Rhoi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad gan ofyn am gadarnhad os yw'n bwriadu mynychu'r gwrandawiad, galw tystion i roi tystiolaeth ac os yw'n credu y dylai unrhyw ran o'r cyfarfod / dogfennau fod yn gyfyngedig neu gyfrinachol;

(dd) Gofyn i'r Aelod gwblhau a dychwelyd y ffurflenni cyn-gwrandawiad sydd wedi eu hatodi wrth y Weithdrefn hon fel Ffurflenni A-E cyn pen 14 diwrnod o'u derbyn;

(e) Yn wyneb unrhyw ffurflenni cyn-gwrandawiad a ddychwelwyd gan yr Aelod, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn penderfynu a fydd y Pwyllgor Safonau angen i'r Swyddog Ymchwilio ac unrhyw dystion[1] ychwanegol fod yn bresennol yn y gwrandawiad, gan gynnwys yr Achwynydd, fel bod modd i'r gwrandawiad ddod i gasgliad sydd wedi cael ystyriaeth briodol yn y gwrandawiad, a threfnu iddynt fynychu. Ystyrir hefyd os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ystod y gwrandawiad. Cydlynir gyda'r Cadeirydd gyda'r materion hyn.

(f) Gofyn i'r Cadeirydd wneud y fath gyfarwyddiadau ynghylch cynnal y gwrandawiad ac y bydd eu hangen ar gyfer cynnal y gwrandawiad yn effeithiol, gyda'r fath gyfarwyddiadau yn rhoi sylw i faterion fel –

  (i) Yr amser y bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i gynnal y gwrandawiad;
  (ii) Unrhyw faterion sy'n cael eu derbyn fel y maent ac nad oes angen tystiolaeth ar eu cyfer;
  (iii) Y tystion a glywir a'r adegau pryd ddylent fod yn bresennol; a
  (iv) Presenoldeb tystion pan nad ydynt yn rhoi tystiolaeth.

(ff) Paratoi Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad yn amlinellu cwrs yr honiad, yr ymchwiliad a'r broses cyn-gwrandawiad ac yn dwyn sylw at y materion y bydd angen i'r Pwyllgor Safonau roi sylw iddynt, a

(g) Trefnu gyda'r Swyddog Cymorth Pwyllgor bod y rhaglen ar gyfer y gwrandawiad, ynghyd ag Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn cael eu hanfon at:
  (i) Pob aelod o'r Pwyllgor Safonau fydd yn cynnal y gwrandawiad;
  (ii) Yr Aelod.
  (iii) Yr Achwynydd, a
  (iv) Y Swyddog Ymchwilio.

## 10 Y trydydd cam – Y Gwrandawiad

### 10.1 Cyflwyniad

Ar gychwyn y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob un o aelodau'r Pwyllgor Safonau, yr Aelod (os yw'n bresennol), y Swyddog Ymchwilio (os yw'n bresennol) ac unrhyw swyddogion eraill sy'n bresennol, ac yna bydd yn esbonio'r drefn y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei dilyn wrth gynnal y gwrandawiad.

### 10.2 Materion trefniadol rhagarweiniol

[1] Os yw'r Aelod yn herio unrhyw ganfyddiad ffaith yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, bydd angen i'r Pwyllgor Safonau glywed tystiolaeth gan dyst uniongyrchol, lle bynnag y mae hynny'n bosib.

Yna bydd y Pwyllgor Safonau yn delio gyda'r materion trefniadol rhagarweiniol isod yn y drefn ganlynol:

(a) Ymddiheuriadau am absenoldeb

(b) Datganiadau o ddiddordeb

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor Safonau ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol neu ddiddordebau sydd yn rhagfarnu a fo ganddynt yn y Mater, ac yn gofyn iddynt dynnu'n ôl o ystyried y Mater os oes angen.

(c) Cworwm

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod gan y Pwyllgor Safonau gworwm[2]

(ch) Trefn y gwrandawiad

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod pawb sy'n bresennol yn ymwybodol o'r drefn y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei dilyn wrth benderfynu'r Mater.

(d) Bwrw ymlaen yn absenoldeb yr Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio neu unrhyw barti

Onid yw'r Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio neu unrhyw barti yn bresennol ar gychwyn y gwrandawiad;

(i) bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol a ydynt wedi dweud nad ydynt yn bwriadu dod i'r gwrandawiad;
(ii) bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn ystyried unrhyw resymau a roddwyd ganddynt am beidio â dod i'r gwrandawiad a bydd yn penderfynu a yw'n fodlon bod digon o reswm am y fath fethiant i fynychu.
(iii) Os bydd y Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r fath resymau, bydd yn gohirio'r gwrandawiad tan ddyddiad arall.
(iv) Onid yw'r Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r fath resymau, neu onid yw'r unigolyn wedi rhoi unrhyw fath rhesymau, bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ddylid ystyried y Mater a gwneud penderfyniad yn absenoldeb yr unigolyn ynteu ohirio'r gwrandawiad tan ddyddiad arall.
(v) Gall y Pwyllgor Safonau wneud trefniadau sy'n ymddangos fel y rhai gorau i ddelio gyda'r Mater yn deg.

(dd) Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd

[2] Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai bod o leiaf 3 aelod o'r Pwyllgor Safonau yn bresennol ar gyfer y cyfarfod i gyd. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod Annibynnol, a rhaid i o leiaf hanner aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol fod yn aelodau Annibynnol. Pan fo'r Pwyllgor yn ystyried mater sy'n ymwneud ag ymddygiad aelod o Gyngor Cymuned, rhaid i o leiaf un aelod o'r Pwyllgor fod yn gynrychiolydd Cyngor Cymuned, ond oni fydd cynrychiolydd Cyngor Cymuned yn bresennol nid yw hynny'n golygu nad oes cworwm ar y Pwyllgor.

- Gall y Pwyllgor Safonau gau allan y wasg a’r cyhoedd o ran o’i drafodaethau ar y Mater dan sylw neu o’r trafodaethau cyfan, os yw’n ymddangos yn debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei datgelu yng nghwrs y trafodaethau.
- Bydd y Cadeirydd yn gofyn i’r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a’r Ymgynghorydd Cyfreithiol i’r Pwyllgor Safonau a ydynt yn dymuno gofyn i’r Pwyllgor Safonau gau allan y wasg a’r cyhoedd o ran o’r gwrandawiad neu o’r cyfan ohono. Os bydd unrhyw un o’r uchod yn gwneud cais o’r fath, bydd y Cadeirydd yn gofyn iddynt roi eu rhesymau dros wneud hynny ac yn gofyn am ymatebion gan y lleill, ac yna bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ddylid cau allan y wasg a’r cyhoedd o ran o’r gwrandawiad neu’r cyfan ohono.
- Mewn achosion lle nad yw’r Pwyllgor Safonau yn penderfynu cau allan y wasg a’r cyhoedd, bydd y rhaglen ac unrhyw ddogfennau sydd ddim wedi cael eu rhyddhau i’r wasg a’r cyhoedd cyn y cyfarfod yn cael eu rhyddhau wedyn iddynt.

## 10.3 Cyflwyno Adroddiad Crynhoi Cyn-Wrandawiad

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i’r Ymgynghorydd Cyfreithiol neu’r Swyddog Cymorth Pwyllgor gyflwyno Adroddiad Crynhoi Cyn-Wrandawiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, gan ddwyn sylw at unrhyw bwyntiau o wahaniaeth y mae’r Aelod wedi datgan eu bod nhw’n anghytuno gyda nhw o fewn canfyddiadau o ffaith yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

## 10.4 Cyfaddefiad o ddiffyg cydymffurfio

Yna bydd y Cadeirydd yn gofyn i’r Aelod gadarnhau a ydynt yn cyfaddef eu bod wedi methu cydymffurfio â’r Côd Ymddygiad.

Os yw’r Aelod yn cyfaddef eu bod wedi methu cydymffurfio â’r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac wedi ei grynhoi yn Adroddiad Crynhoi yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, yna gall y Pwyllgor Safonau gymeryd adroddiad y Swyddog Ymchwilio fel y mae a phenderfynu bod yr Aelod wedi methu cydymffurfio gyda’r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio a symyd ymlaen ar unwaith i ystyried a ddylid cymeryd unrhyw gamau mewn perthynas â chamymddygiad yr Aelod.

## 10.5 Sefydlu’r ffeithiau

(a) Pwyntiau ychwanegol o wahaniaeth

(i) Os yw’r Aelod yn gwadu ei fod wedi methu cydymffurfio â’r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, yna, bydd y Cadeirydd yn gofyn i’r Aelod gadarnhau bod cyflwyniad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol neu’r Swyddog Cymorth Pwyllgor o Adroddiad Crynhoi Cyn-Wrandawiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn grynodeb cywir o’r materion. Bydd y Cadeirydd hefyd

yn gofyn i'r Aelod os oes ganddynt unrhyw bwyntiau ychwanegol y mae nhw yn anghytuno gyda nhw o ran unrhyw ganfyddiad o ffaith yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

(ii) Os yw'r Aelod yn nodi unrhyw bwyntiau ychwanegol o wahaniaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod egluro pam nad oedden nhw wedi nodi'r pwyntiau hyn fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad. Bydd y Cadeirydd wedyn yn gofyn i'r Swyddog Ymchwilio (os ydyw'n bresennol) a ydyn nhw mewn sefyllfa i ddelio gyda'r pwyntiau ychwanegol hynny o wahaniaeth yn uniongyrchol neu drwy unrhyw dystion sy'n bresennol neu y gellir trefnu yn gyfleus iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad.

(iii) Mewn achosion lle nad yw'r Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda rhesymau'r Aelod am fethu nodi pob pwynt ychwanegol o wahaniaeth fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad, gall

- benderfynu parhau gyda'r gwrandawiad ond heb ganiatáu i'r Aelod herio cywirdeb y canfyddiadau ffeithiol hynny a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio ond na wnaeth yr Aelod nodi pwynt o wahaniaeth yn eu cylch fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad, neu
- benderfynu gohirio'r gwrandawiad i ganiatáu i'r Swyddog Ymchwilio ac/neu unrhyw dystion ychwanegol fynychu'r gwrandawiad.

(iv) Y dybiaeth fydd na ddylid caniatáu unrhyw fater neu dystiolaeth newydd y gellid fod wedi ei godi yn ystod y broses cyn-wrandawiad oni bai bod rheswm da dros wneud hynny.

(b) Cyflwyno adroddiad y Swyddog Ymchwilio

(i) Os yw'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddog Ymchwilio gyflwyno eu adroddiad gyda sylw arbennig i unrhyw bwyntiau o wahaniaeth a nodwyd gan yr Aelod.
Gall y Swyddog Ymchwilio alw tystion fel sy'n angenrheidiol i drafod unrhyw bwyntiau o wahaniaeth.

(ii) Onid yw'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol, ni fydd y Pwyllgor Safonau ond yn cynnal gwrandawiad os ydyw'n fodlon nad oes unrhyw bwyntiau sylweddol o wahaniaeth neu fod modd datrys yn foddhaol unrhyw bwyntiau o wahaniaeth yn absenoldeb y Swyddog Ymchwilio. Yn absenoldeb y Swyddog Ymchwilio, gall y Pwyllgor Safonau benderfynu, ar gais yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, pa dystion, os o gwbl i'w galw. Mewn achos lle caiff tystion o'r fath eu galw, bydd y Cadeirydd yn dwyn sylw'r tystion at unrhyw ran berthnasol o adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac yn gofyn i'r tyst gadarnhau neu gywiro'r adroddiad a darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol.

(iii) Ni chaniateir unrhyw groesholi ond wedi cyflwyno adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac/neu wedi derbyn tystiolaeth pob tyst, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod a oes unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau mofyn sylwadau gan y Swyddog Ymchwilio neu'r tyst yn eu cylch ac yna gall Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio neu'r tyst.

(c) Ymateb yr Aelod

(i) Bydd y Cadeirydd wedyn yn gwahodd yr Aelod i ymateb i adroddiad y Swyddog Ymchwilio a galw unrhyw dystion fel sy'n angenrheidiol i roi sylw i unrhyw bwyntiau o wahaniaeth.

(A) Gall yr Aelod drefnu i'w cynrychiolydd wneud cyflwyniad ar eu rhan ac/neu i gyflwyno'r Aelod ac unrhyw dystion ar eu rhan.

(B) Nid oes rhaid i'r Aelod roi tystiolaeth neu ateb unrhyw gwestiynau ond gall y Pwyllgor Safonau yn rhesymol ddod i gasgliadau o unrhyw fethiant ar eu rhan i roi tystiolaeth neu i ateb unrhyw gwestiwn.

(ii) Ni chaniateir unrhyw groesholi ond wedi i'r Aelod roi eu tystiolaeth ac wedi i bob tyst roddi eu tystiolaeth nhw, gall y Cadeirydd ofyn i'r Swyddog Ymchwilio a oes unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau ofyn am sylwadau'r Aelod neu'r tyst yn eu cylch ac yna gall Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Aelod neu'r tyst.

(ch) Tystion

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i wrthod clywed tystiolaeth gan y Swyddog Ymchwilio, yr Aelod neu dyst oni bai ei fod yn fodlon bod y tyst yn debygol o roi tystiolaeth y mae angen ei chlywed er mwyn gallu penderfynu a fu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.

(d) Tystiolaeth Ychwanegol

(i) Wedi gorffen clywed y dystiolaeth, bydd y Cadeirydd yn gwirio gydag Aelodau'r Pwyllgor Safonau a ydynt yn fodlon bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad ystyriol ar y Mater.

(ii) Os bydd y Pwyllgor Safonau, ar unrhyw adeg, cyn penderfynu a fu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, o'r farn bod arno angen ychwaneg o dystiolaeth ar unrhyw bwynt er mwyn ei alluogi i ddod i gasgliad ystyriol ar y Mater, gall y Pwyllgor Safonau ohirio'r gwrandawiad a gwneud cais i'r Swyddog Ymchwilio chwilio am a darparu'r fath dystiolaeth ychwanegol a gwneud gwaith ymchwil pellach ar unrhyw bwynt a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau. Ni chaniateir gohirio'r gwrandawiad mwy nag unwaith o dan y paragraff hwn.

(dd) Bydd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwiliad yn cael cyfle i wneud sylwadau i gloi.

**10.6 Ymgynghoriadau**

(a) Pwyntiau a gweithdrefnau rhagarweiniol

(i) Swyddogaeth y Pwyllgor Safonau yw gwneud penderfyniad ar y Mater. Gall, ar unrhyw adeg, ddychwelyd i'r brif ystafell lle mae'r gwrandawiad er mwyn mofyn tystiolaeth ychwanegol gan y Swyddog Ymchwilio, yr Aelod neu'r tyst. Os oes angen ychwaneg o wybodaeth arno, gall ohirio a rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddog Ymchwilio neu ofyn i'r Aelod ddangos tystiolaeth bellach o'r fath i'r Pwyllgor Safonau.

(ii) Os oes angen cyngor cyfreithiol ar y Pwyllgor Safonau ar unrhyw bwynt, gall naill ai –

- Ofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol ymuno gyda'r Pwyllgor a darparu'r fath wybodaeth. Yn yr achos hwn, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn ailadrodd cyngor o'r fath yn agored pan fydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd a gall cynrychiolydd cyfreithiol yr Aelod ymateb i gyngor o'r fath; neu
- Dychwelyd i'r fforwm agored a gofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol roi cyngor gan wahodd cynrychiolydd cyfreithiol yr Aelod i ymateb i unrhyw gyngor o'r fath.

(b) Penderfynu'r ffeithiau

Bydd y Pwyllgor Safonau yn ymneilltuo i ystafell arall i ystyried a ydy ffeithiau'r cyhuddiadau yn debygol o fod wedi eu profi, ar sail pwysau tebygolrwydd, yn seiliedig ar y ffeithiau.

(c) Penderfynu a oedd methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad

Bydd y Pwyllgor Safonau yn aros mewn ystafell breifat i ystyried a wnaeth yr Aelod, ar sail pwysau tebygolrwydd ac yn seiliedig ar y ffeithiau a gafwyd yn y gwrandawiad, fethu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio[3].

[3] Noder bod ystyriaeth y Pwyllgor Safonau wedi ei gyfyngu i'r mater, o ran y set o ffeithiau, fel a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Mae'n bosibl y gall y Pwyllgor Safonau ganfod bod y ffeithiau hyn yn datgelu y torwyd rhan o'r Côd Ymddygiad ac eithrio'r achos a ganfuwyd gan y Swyddog Ymchwilio (er enghraifft, bod y ffeithiau yn gyfystyr â bwlio yn hytrach na dim ond methiant i drin person gyda pharch). Fodd bynnag, os bydd y Pwyllgor Safonau, yn ystod eu trafodaethau, o'r farn bod y dystiolaeth gerbron yn datgelu achos hollol wahanol o fethiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad (er enghraifft lle mae'r gŵyn yn un o fethiant i drin Swyddog A gyda pharch ond bod y dystiolaeth hefyd yn dangos methiant i drin Swyddog B gyda pharch), ni fydd methiant ychwanegol neu fethiant arall yn ran o faes gwaith y Pwyllgor Safonau. Ar yr adeg honno, ni fydd yr Aelod wedi cael rhybudd o'r ffaith bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried

(ch) Ystyriaeth gychwynnol o Argymhellion a Chosb

Wedi i'r Pwyllgor Safonau orffen ystyried y mater, gall y Pwyllgor Safonau ystyried a yw'n teimlo fel gwneud unrhyw argymhellion i'r awdurdod gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad ymysg aelodau. Bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yn gyffredinol y math o gosb fyddai'n addas yn yr achos.

(d) Cofnodi'r rhesymeg

Rhaid i'r Pwyllgor Safonau gofnodi ei resymeg dros pob penderfyniad, yn ysgrifenedig.

**10.7 <u>Camau gweithredu yn dilyn penderfyniad nad fod Aelod wedi torri gofynion y Côd Ymddygiad</u>**

Os bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu na fethodd yr Aelod â dilyn y Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio:

(a) Dylai'r cyfarfod gael ei ail-ymgynnull a dylai'r Cadeirydd grynhoi canlyniadau'r Pwyllgor Safonau;

(b) Os yw'r Pwyllgor Safonau yn dod i'r casgliad, o'r dystiolaeth a gafodd yn ystod y gwrandawiad, bod Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad (ar wahân i'r Mater y mae'r Pwyllgor Safonau newydd wneud penderfyniad arno), bydd y Pwyllgor yn amlinellu pryderon y Pwyllgor Safonau ac yn dweud bod y Pwyllgor Safonau wedi cyfeirio'r methiant ychwanegol neu fethiant arall hwn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol gyda golwg ar gyflwyno haeriad pellach i Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(c) Yna dylai'r Cadeirydd nodi unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Safonau yn bwriadu eu gwneud i'r awdurdod gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymhlith aelodau a mofyn sylwadau'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol cyn i'r Pwyllgor Safonau rhoddi trefn derfynol ar unrhyw argymhellion.

(ch) I gloi, dylai'r Cadeirydd ofyn i'r Aelod a ydynt yn dymuno i'r Awdurdod beidio â chyhoeddi datganiad o'i ganfyddiad mewn papur newydd lleol.

**10.8 <u>Camau gweithredu yn dilyn penderfyniad fod Aelod wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio</u>**

(a) Gweithdrefn gychwynnol

---

methiant ychwanegol neu fethiant arall ac o'r herwydd, byddai'n annheg symud ymlaen i ystyried yr ail fater yn y gwrandawiad i'r methiant honedig cyntaf. Lle mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn bod methiant ychwanegol neu fethiant arall o bosibl, methiant gan aelod gwahanol neu fethiant o ran Gôd Ymddygiad awdurdod arall, yna dylent gyfeirio'r ail fater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel honiad newydd.

Os yw’r Pwyllgor Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu dilyn y Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio:

(i) Dylai’r cyfarfod gael ei ail-ymgynnull a bydd y Cadeirydd yn crynhoi canfyddiadau’r Pwyllgor Safonau;

(ii) Fe all y Cadeirydd wedyn nodi’r math o gosb y mae’n ei ystyried all fod yn briodol gan ofyn i’r Aelod neu eu cynrychiolydd cyfreithiol wneud sylwadau ar y gosb.[4]

(iii) Fe all y Cadeirydd ofyn i’r Swyddog Ymchwilio wneud sylwadau ynglŷn â chosb.

(iv) Bydd y Cadeirydd wedyn yn sicrhau bod pob Aelod o’r Pwyllgor Safonau yn fodlon bod ganddynt ddigon o wybodaeth i’w galluogi i wneud penderfyniad ystyrlon ynghylch a ddylid pennu cosb ac (os yn briodol) beth fydd ffurf y gosb.

(v) Fe all unrhyw aelod o’r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i’r Swyddog Ymchwilio neu i’r Aelod fel bo’r angen i’w galluogi i wneud penderfyniad ystyrlon.

(b) Penderfyniad ynghylch cosb ac argymhellion

(i) Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn ymneilltuo i ystafell arall i ystyried yn breifat ac i benderfynu:

(I) a ddylid pennu cosb,
(II) (lle bwriedir pennu cosb) pa gosb i’w rhoi, gan ystyried Canllaw Cosb Panel Dyfarnu Cymru,
(III) pa bryd y dylai'r gosb honno ddod i rym, ac

---

[4] Gall y Pwyllgor Safonau benderfynu ar unrhyw un o’r isod o ran y cosbau y gall fynnu arnynt :
“(i) dim angen gweithredu o gwbl
(ii) ceryddu’r Aelod;
(iii) atal yr Aelod yn rhannol am gyfnod a fydd ddim hwy na chwe mis neu weddill cyfnod yr Aelod yn y swydd, pa bynnag sydd fyrraf;
(iv) atal yr Aelod am gyfnod a fydd ddim hwy na chwe mis neu weddill cyfnod yr Aelod yn y swydd, pa bynnag sydd fyrraf.

Nid yw atal neu atal yn rhannol ond yn berthnasol i’r Aelod yn ei gapasiti fel aelod o’r awdurdod yr oedd y gŵyn yn ymwneud ag o.

Bydd unrhyw gosb a roddwyd yn cychwyn ar ôl 21 diwrnod i’r Pwyllgor Safonau hysbysu’r Aelod o’u penderfyniad yn ysgrifenedig oni bai fod y Pwyllgor Safonau yn rhoi cyfarwyddyd (yn achos unrhyw gosb ac eithrio cerydd) y bydd yn cychwyn ar ddyddiad penodol a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau o fewn chwe mis o ddyddiad y gwrandawiad.

(IV) unrhyw sylwadau y bydd y Pwyllgor Safonau'n eu rhoi i'r awdurdod.

(ii) Rhaid i'r Pwyllgor Safonau gofnodi ei resymeg dros pob penderfyniad yn ysgrifenedig.

(iii) Ar ddiwedd ei ystyriaethau, bydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd i brif ystafell y gwrandawiad a bydd y Cadeirydd yn datgan penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau gan ddweud a ddylid pennu cosb a (lle bwriedir cosb), beth yw natur y gosb, a pha bryd y dylai ddod i rym, ynghyd â'r prif resymau dros wneud y penderfyniadau hynny, ac unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor Safonau am eu gwneud i'r awdurdod.

**10.9 <u>Cau'r gwrandawiad</u>**

(a) Bydd y Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ddiwrnod y gwrandawiad ac yn rhoi i Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor ddatganiad ysgrifenedig byr o'u penderfyniad sy'n egluro rhesymeg y Pwyllgor Safonau am ei benderfyniad a'r gosb.;

(b) Bydd y Cadeirydd yn diolch i bawb sydd yn bresennol a sydd wedi cyfrannu tuag at drefn y gwrandawiad ac yn cau'r gwrandawiad yn ffurfiol;

**10.10 <u>Ar ôl y gwrandawiad</u>**

(a) Bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn anfon ebost at yr Aelod yn cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau, y bydd yn derbyn Hysbysiad o Benderfyniad ffurfiol ysgrifenedig yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad a'r gosb, bod y cyfnod apelio i Banel Dyfarnu Cymru yn dechrau o'r dyddiad y bydd yn derbyn yr hysbysiad o benderfyniad ac y bydd unrhyw gyfnod o atal yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben (os na gyflwynir apêl).

(b) Bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn paratoi hysbysiad o benderfyniad ysgrifenedig ac yn ei anfon at y Cadeirydd i'w gytuno a'i arwyddo. Hwn fydd ffurf derfynol y penderfyniad a bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir gan y Pwyllgor ar ôl i'r broses ddod i ben.

(c) Anfonir yr hysbysiad o benderfyniad at yr Aelod drwy ddull fydd yn cadarnhau bod yr Aelod wedi derbyn rhybudd penderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor Safonau;

(ch) Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn trefnu i'r hysbysiad o benderfyniad gael ei ddosbarthu a'i gyhoeddi (neu grynodeb o'r rhybudd hwnnw, lle bo'r angen).

**11 <u>Apelio</u>**

Rhaid i Aelod ofyn am ganiatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau trwy ysgrifennu at y Llywydd. Bydd penderfyniad y Llywydd, neu dirprwy sydd wedi eu penodi i wneud y penderfyniad gan y Llywydd, yn cael ei wneud heb y partïon, oni bai fod y Llywydd neu'r dirprwy o'r farn fod achos arbennig ac y dylai gwrandawiad gael ei drefnu. Dylai'r llythyr restru'r seiliau dros wneud yr apêl, a chynnwys datganiad yn dweud a yw'n fodlon ai peidio i'r apêl gael ei wrando ar ffurf sylwadau ysgrifenedig. Rhaid i'r llythyr gael ei dderbyn gan y Llywydd o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad oddi wrth y Pwyllgor Safonau gael ei dderbyn gan yr Aelod. Gall y Llywydd neu eu dirprwy ofyn am fwy o wybodaeth. Rhaid ymateb i unrhyw gais am wybodaeth o fewn yr amserlen a roddir.

Manylion a chyfeirnod achos ………………………………………………………

# FFURFLEN A

## Ymateb yr Aelod i'r dystiolaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad achos

Os gwelwch yn dda, rhowch fanylion rhif unrhyw baragraff o fewn yr adroddiad achos lle rydych yn anghytuno gyda ffeithiau'r achos, a rhowch eich rhesymau a'ch cynnig amgen. Defnyddiwch cymaint o ffurflenni â sy'n berthnasol.

| **Rhif y paragraff yn yr adroddiad ymchwiliadol** | **Eich rhesymeg dros anghytuno gyda'r canfyddiad o ffaith sydd wedi ei ddarparu yn y paragraff yna** | **Eich awgrymiad ar sut ddylai'r paragraff yma gael ei ddarllen** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

26319/837298 (837297)

Manylion a chyfeirnod achos ……………………………………………………………

# FFURFLEN B

## Tystiolaeth arall sy’n berthnasol i’r gŵyn

Eglurwch isod unrhyw dystiolaeth rydych chi o’r farn sy’n berthnasol ar gyfer y gŵyn yn eich herbyn. Defnyddiwch cymaint o ffurflenni â sy’n berthnasol.

| **Rhif paragraff** | **Manylion y dystiolaeth** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |



Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

26319/837298 (837297)

Manylion a chyfeirnod achos ……………………………………………………………

# FFURFLEN C

## Cynrychioladau i'w hystyried os bydd canfyddiad bod Aelod wedi methu â dilyn y Cod Ymddygiad

**Ni ddylech gwblhau'r ffurflen hon oni bai eich bod yn cytuno gyda'r canfyddiadau yn yr adroddiad ymchwiliadol eich bod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad**

Eglurwch isod unrhyw ffactorau y dylai'r Pwyllgor Safonau eu hystyried os bydd yn dod i gasgliad eich bod wedi methu â dilyn y Cod Ymddygiad. Nodwch os gwelwch yn dda nad oes unrhyw ganfyddiad wedi ei wneud hyd yma. Defnyddiwch cymaint o ffurflenni â sy'n berthnasol.



| Rhif paragraff | Ffactorau y dylai'r Pwyllgor Safonau eu hystyried pan yn penderfynu os bydd am geryddu, atal dros dro neu atal yn rhannol |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Manylion a chyfeirnod achos

………………………………….

# FFURFLEN D

## Trefniadau ar gyfer gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau

Ticiwch y bocsus perthnasol, os gwelwch yn dda.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ydych chi'n bwriadu mynychu gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ar y dyddiad y cynnigir yn y llythyr amgaedig?**<br><br>**Os "Nac Ydw", eglurwch pam, os gwelwch yn dda.** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac Ydw** ☐ | **Rheswm:** |
| **2** | **Ydych chi'n mynd i gyflwyno eich achos eich hun?** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac Ydw** ☐ | |
| **3** | **Os nad ydych yn cyflwyno eich achos eich hun, a fydd cynrychiolydd yn cyflwyno ar eich rhan?**<br><br>**Os "Bydd", nodwch enw eich cynrychiolydd, os gwelwch yn dda.** | **Bydd** ☐<br><br>**Na fydd** ☐ | **Enw:** |
| **4** | **Ydy eich cynrychiolydd yn Gyfreithiwr neu Far-gyfreithiwr?**<br><br>**Os "Ydi", rhowch fanylion eu cymwysterau, os gwelwch yn dda. Yna ewch i Gwestiwn 6.**<br><br>**Os "Nac ydi", ewch i Gwestiwn 5, os gwelwch yn dda.** | **Ydi** ☐<br><br>**Nac Ydi** ☐ | **Cymwysterau:** |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

26319/837298 (837297)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5** | **Oes gan eich cynrychiolydd unrhyw gysylltiad gyda eich achos?**<br><br>**Os "Oes", rhowch fanylion, os gwelwch yn dda.** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Manylion:** |
| **6** | **Ydych chi'n bwriadu galw unrhyw dystion?**<br><br>**Os ydych, llenwch Ffurflen E, os gwelwch yn dda.** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac Ydw** ☐ | |
| **7** | **Oes gennych chi, eich cynrychiolydd neu eich tystion unrhyw anhawsterau mynediad neu unrhyw ofynion eraill? (e.e. oes angen mynediad cadair olwyn?)**<br><br>**Os "Oes", rhowch fanylion os gwelwch yn dda.** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Manylion:** |
| **8** | **Ydych chi, eich cynrychiolydd neu eich tystion angen cyfieithydd?**<br><br>**Oes "Oes", rhowch fanylion, os gwelwch yn dda.** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Manylion:** |
| **9** | **Ydych chi eisiau unrhyw ran o'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat?**<br><br>**Os "oes", rhowch resymau, os gwelwch yn dda.** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Rhesymau:** |
| **10** | **Do you want any part of the relevant documents to be withheld from public inspection?**<br>**Ydych chi eisiau i unrhyw ran o'r dogfennau perthnasol beidio cael eu cyhoeddi?**<br><br>**Os "Oes", rhowch resymau, os gwelwch yn dda.** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Rhesymau:** |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

26319/837298 (837297)

Manylion a chyfeirnod achos …………………………

# FFURFLEN E

## Manylion y tystion rydych yn dymuno eu galw:

Bydd angen i chi gwblhau Ffurflen E ar wahân ar gyfer pob tyst. Defnyddiwch cymaint o ffurflenni â sy'n berthnasol.

| **Enw'r Tyst:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Tyst:** | | | |
| **a** | **A fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynghylch yr honiad?**<br><br>**Os "Bydd", a wnewch chi gynnwys amlinelliad o'r dystiolaeth a roddir gan y tyst, os gwelwch yn dda.** | **Bydd** ☐<br><br>**Na Fydd** ☐ | **Amlinelliad o'r dystiolaeth:** |
| **b** | **A fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynghylch pa weithred y dylai'r Pwyllgor safonau ei ddilyn, os bydd yn canfod na chafodd y Cod Ymddygiad ei ddilyn?**<br><br>**Os "Bydd", a wnewch chi gynnwys amlinelliad o'r dystiolaeth a roddir gan y tyst, os gwelwch yn dda.** | **Bydd** ☐<br><br>**Na Fydd** ☐ | **Amlinelliad o'r dystiolaeth** |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

26319/837298 (837297)

This page is intentionally left blank

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

**Cwynion am ymddygiad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) lle cafodd hysbysiadau o benderfyniadau eu cyflwyno i'r Cyngor yn ystod chwarteri 1, 2 a 3, 2024/2025**

**Conduct Complaints to the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) where decision notices have been issued to the Council during quarters 1, 2 and 3 of 2024/2025**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y prawf - The test</td></tr>
<tr><td>Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd:<br><br>Mae disgwyliad rhesymol i'r Pwyllgor Safonau fod yn dryloyw mewn perthynas â'r materion a drafodir ganddo.<br><br>Mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried adroddiadau mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Bydd yr adroddiad fel arfer yn ddienw ac yn cael ei rannu â'r Pwyllgor Safonau er mwyn adnabod lefelau ac unrhyw dueddiadau sy'n codi. Mae hyn yn parhau i gael ei rannu â'r Pwyllgor yn gyhoeddus (Eitem 6 ar agenda'r cyfarfod hwn).<br><br>There is a public interest in disclosure as:<br><br>The business of the Standards Committee is connected with a reasonable expectation of transparency in respect of the matters discussed.<br><br>The Standards Committee considers reports in relation to the complaints received by the Public Services Ombudsman for Wales for both County Councillors and Town and Community Councillors. The report is usually anonymised and is shared with the Standards Committee to identify levels and any trends arising. This continues to be shared with the Committee publicly (agenda item 6 for this meeting).</td><td>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw:<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion penodol ac mae'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolion hyn.<br><br>Mae budd i'r cyhoedd o beidio â datgelu trwy osgoi'r tebygolrwydd y byddai datgelu'n arwain at adnabod yr unigolion, neu'n arwain at wneud datgeliad am unigolion mewn modd a fyddai'n groes i'r darpariaethau peidio â datgelu yn Neddf Diogelu Data y DU 2018.<br><br>Mae cyfarwyddyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth anfon y Rhybudd Penderfyniad yn nodi gellir ei rannu gyda'r Pwyllgor Safonau'n breifat.<br><br>The public interest in not disclosing is:<br><br>The report contains information that relates to particular individuals and is likely to reveal the identity of an individual.<br><br>The public interest in not disclosing is served by averting the likelihood that disclosure would result in the identification of individuals or result in the disclosure about individuals in a way that would breach the non-disclosure provisions of the UK Data Protection Act 2018.<br><br>The instruction from the Public Services Ombudsman for Wales when sending the Decision Notic details that it may be shared with the Standards Committee privately.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad – Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank